



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Trosglwyddo
siec dros
£8,000**



Tudalen 16

**Cymeriad
Bro -
Sally Davies**



Tudalen 25

**Siaradwyr
o fri
y C.Ff.I.**



Tudalen 32

Talentau Teilwng yw'r Oen



Dyma gôr Unedig [Corisma, Cwmann; Cardi-Gân, Dyffryn Aeron a Meibion y Mynydd, Ponterwyd] a fu'n perfformio *'Teilwng yw'r Oen'* yn Theatr Felinfach ganol mis Ionawr o dan arweiniad Rhys Taylor. Yr Unawdwyr oedd Deiniol Wyn Rees a Non Williams.



Dyma Anwen Butten o Glwb Bowllo Llambod allan yn Christchurch yn Seland Newydd yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bowllo'r byd. Roedd yn chwarae yn y triawdau gyda Kathy Pearce o Berriew a Emma Woodcock o Gaerdydd. Mwy o'r hanes ar dudalen 13.



Andrew Davies, Bl. 4 yn Ysgol Y Dderi enillodd gystadleuaeth cenedlaethol i ddylunio label newydd Poteli 2L Llaeth Calon Wen allan o dros 260 o geisiadau.

Codi arian i Uned Chemo



Yn paratoi ar gyfer eu taith gerdded 19 milltir o Talsarn i Ysbyty Bronglais "Ar Dramp dros Driniaeth" yw rhai o'r 'Flamingos' a fu'n cymryd rhan. Bu tua 24 o fflamingos yn cerdded ar Ddydd Calan i godi arian at Uned Cemotherapi newydd yn Ysbyty Bronglais. Mae eich cefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Bu nifer o ddalgylch CLONC yn cerdded ar y daith yma.

Cwis Adrannau yr Urdd



Tîm adran Llambes yn ennill y cwis Sirol i adrannau. Da iawn chi.

Adran Llambes

Diolch yn fawr i Mr Eryl Jones am baratoi cwis i blant yr adran a braf oedd gweld dros dri deg yn mwynhau cymryd rhan. Aeth un ar bymtheg o blant i gystadlu yng nghwis Sirol yr urdd a da iawn i bawb a fu'n cystadlu a diolch i Mrs Amanda Jones a'r rhieni eraill am ofalu a chludo. Llongyfarchiadau mawr i fechgyn bl.6 ar ennill y cwis sef Logan, Sean, Ifan, Iestyn a Gruffydd. Daliwch ati.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
@Clonc360
Ionawr 11

Ymarfer olaf ond un o
Teilwng yw'r Oen
@TheatrFelinfach.
Nerfau yn cicio mewn!!
@CorCorisma #cardigan
#meibionymynydd

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@rrbbjones
Ionawr 7

Candelas yn
@VicHallLampeter
@UrddCeredigion!
Gwych!!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CFfCwmann
Ionawr 7
Aelodau'r clwb yn joio
gwyllo'r
@scarlets_rugby
neithiwr #westisbest

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@BedyddwyrGogTeifi
Ionawr 6

Llongyfarchiadau, a diolch!
i bobl ifanc Noddfa fu
heddiw'n diddanu deiliaid
Hafan Deg yn Llambes.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Rhagfyr 21

Pawb wedi cael twrci yn
#Llanbed heddi yn y Sioe
Ddofednod. Barod am y
cinio Nadolig.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@EnfysHatcher
Rhagfyr 18

Gwasanaeth Nadolig
Brynhafod. Diolch
@SantaCymraeg am alw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

THE VALE OF RHEIDOL RAILWAY
WYTHENOS GOSTYNGIAD LLEOL
11EG I'R 26AIN O CHWEFOR 2017

MAE RHEILFFORDD CWM RHEIDOL YN
CYNNIG TEITHIAU RHATACH I BOBL
LEOL O ARDALOEDD COD POST
SA, SY, LD YN YSTOD HANNER
TYMOR MIS CHWEFOR

GWIBDEITHIAU DYDDIOL
O Aberystwyth: 10:30 yb & 2 yp / O Bontarfynach: 12:30 yp

ABERYSTWYTH I BONTARFYNACH

OEDOLION A MYFYRWYR £11
PLANT (6-15 OED) £6

www.rheidolrailway.co.uk - 01970 625 819 - Park Avenue, Aberystwyth, SY23 1PG - Charity No 1076037

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Chwefror Siwan Davies, Llambled 07816 115330
Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu eostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

2017

Clywais sawl un yn dweud 'Twll tîm twenty-sixteen', a geiriau tebyg i fynygi'r un teimlad. Digon posib ei bod hi wedi bod yn flwyddyn anarferol o dywyll mewn sawl ystyr – canlyniadau annisgwyl y Brexit bondigrybyll yng ngwledydd Prydain, a'r syndod yn etholiad arlywyddol yr Unol Daleithiau. Collwyd nifer fawr o enwogion, sêr pop, ffilm a theledu yn ystod y deuddeg mis.

Ond, i gyffredinol, bu'n flwyddyn gymysg i ni i gyd, gyda'i siâr o lawenydd a llwyddiant yn gymysg â cholled a phoen. Ddaeth dim gwahanol wrth i 31 Rhagfyr droi'n 1 Ionawr. Rydym eisoes wedi treulio un mis o 2017, ac rydym yn gweld taw'r un yw troeon bywyd eleni eto hyd yn hyn – y da a'r drwg, yr ennill a'r colli.

Mae 2017 yn flwyddyn chwedlau gan Lywodraeth Cymru, a'r gobaith yw hyrwyddo hynny ym meysydd diwylliant a thwristiaeth ein gwlad. Mae gan bob ardal a bro ei hanes a'i chymeriadau – a hynny'n cynnwys cymeriadau ddod a heddiw. Gadewch i ni fawrygi ein harwyr a'n cymeriadau chwedlonol (real a dychmygol) ni yn ystod y flwyddyn.

Mae'r flwyddyn hon hefyd yn flwyddyn i ddathlu cerrig milltir penodol yn ei hanes lleol. Bydd Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn dathlu'r hanner cant ym mis Awst. Mae Ford Gron Llambled hefyd yn cyrraedd yr hanner cant eleni. Ac mae'n siŵr fod yna ben-blwyddi eraill mewn meysydd gwahanol.

Beth bynnag sy'n digwydd yn y fro, cofiwch werthfawrogi hanes ddod a chymeriadau heddiw sy'n parhau â'r gwaith. A chofiwch adrodd yr hanesion yn Clonc!

Dymuniadau gorau i chi oll ar gyfer 2017.

Cloncen

Popeth yn Dda ym Mro Pedr!

Mae Ysgol Bro Pedr wedi derbyn yr adroddiad ESTYN gorau o ran yr ysgolion 3-19 sydd wedi eu harolygu yng Nghymru hyd yma.

Yn dilyn yr arolwg diweddar gan ESTYN, y corff arolygu ysgolion a cholegau yng Nghymru, derbyniodd yr Ysgol 3-19 yn Llambled arfarniad 'Da / Da' am berfformiad cyfredol a rhagolygon yr Ysgol ar gyfer y dyfodol.

Ers sefydlu'r Ysgol Gydol Oes, sy'n darparu ar gyfer disgyblion o oed meithrin/derbyn i'r chweched dosbarth ym Medi 2012, mae ESTYN wedi adrodd ar 'berfformiad cryf' a 'lefelau disgwyliadau uchel' yr Ysgol.

Dywed y Pennaeth Jane Wyn: "Mae'r adroddiad ESTYN llwyddiannus yma yn adlewyrchu gwaith caled y disgyblion, y staff a chefnogaeth y rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned leol. Rydym yn hapus iawn ein bod wedi derbyn arfarniad 'Da' ar draws y meysydd allweddol y mae ESTYN yn eu mesur, gan gynnwys safonau, lles, addysgu ac arweinyddiaeth yr Ysgol. Mae gweithio fel Ysgol Gydol Oes wedi ein galluogi ni i sicrhau bod pob disgybl yn cael trosglwyddiad esmwyth o'r cynradd i'r uwchradd, ac rydym wedi gweld cynnydd cyson yn y canlyniadau."

"Pan unwyd Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan ym Medi 2012, ni oedd yr ysgol 3-19 gyntaf yn y sir ac, yn wir, gyda'r cyntaf yng Nghymru. Pedair blynedd yn ddiweddarach, mae'n grêt ein bod wedi derbyn adroddiad mor positif wrth ESTYN, ac rydym yn ffocysu nawr ar adeiladu ar y seiliau cadarn yma er mwyn sicrhau bod yr Ysgol yn mynd o nerth i nerth."



Sean Wood, Wiktorlia Sliwka, Alwyn Evans a Kyna Logan, aelodau'r Cyngor Ysgol 3-19, yn darllen yr adroddiad llwyddiannus.



Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.



Gwledd o Gariad

Hyfryd yw bod 'nôl yng ngwres y gegin wedi hoe ddechrau'r flwyddyn, a sôn am wres, mae'r fwydlen hon yn sicr o gynhesu'r galon. Dyma bryd 3 chwrs sydd yn berffaith i'w rannu ar Noson Sant Ffolant. Mae'n flasus, apelgar i'r llygad, ac yn llawn cynhwysion affrodisiac! Mae modd paratoi rhan helaeth o'r pryd bwyd ymlaen llaw, gan adael mwy o amser i gydio llaw!

Mwynhewch,
Gareth

Cwrs 1af: Caws wedi pobi a Salsa Afal

Cynhwysion:

125g caws Perl Las (neu Brie) wedi ei dorri'n giwbiau
1 llwy fwrdd o gaws meddal
1 llwy fwrdd almwynau wedi'u haenu

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C, Nwy 6. Cymysgwch ½ y caws â'r caws meddal, a gwasgarwch dros waelod dysgl gratan fach. Rhowch weddill y caws ar ei ben, y cnau a'r pupur du. Pobwch am 10 munud.
2. Cymysgwch gynhwysion y salsa, a gweinwch gyda'r caws wedi pobi, bara a dail berw dŵr.

Prif Gwrs: Cyw Iâr a Harissa

Cynhwysion:

2 toriad o goes cyw iâr ½ llwy de o sinamwn
2 llwy fwrdd Harissa 150g moron Chantenay
1 llwy bwdin o fêl ½ peint o stoc
1 winwsyn coch 1 tun o chickpeas

Dull:

1. Trowch y ffwrn i 200 C, Nwy 6. Gosodwch y coesau yn y tun, brwsiwch ag 1 llwy fwrdd o'r harissa. Pobwch am 20 munud.
2. Cymysgwch weddill y past â'r sbeis, winws a'r moron. Rhowch yn y tun, a phobwch am 20 munud.
3. Ychwanegwch y stoc a'r ffa, yna rhowch yn ôl i'r ffwrn am 15 munud.
4. Gweinwch gyda couscous ac aioli.

Pwdin mefus a rhosyn

Cynhwysion:

200g mefus wedi'u darnio ½ llwy de rhinflas dŵr rhosyn
50g siwgwr eisin 3 llwy fwrdd iogwrt groegaidd
Cymreig
3 llwy fwrdd o hufen chwipio 2 nyth meringue wedi eu darnio

Dull:

1. Gosodwch y mefus mewn sosban gyda ½ y siwgwr eisin ac 1 llwy fwrdd o ddŵr. Coginiwch am 5 munud, yna gadewch i oeri.
2. Cymysgwch y rhinflas, siwgwr eisin a'r hufen a chwipiwch nes ei fod y feddal. Plygwch yr iogwrt iddo, ac yna'r meringue.
3. Rhannwch ychydig o'r mefus rhwng gwydrau, a phlygwch y gweddill i'r hufen. Llenwch y gwydrau.
4. Rhowch yn yr oergell am awr. Gweinwch wedi eu haddurno â mefus, a chusan, wrth gwrs!

Gwledd Gŵyl Dewi yng Nghegin Gareth

Diwrnod i ddathlu'r Cawl, Cennin a Chlonec

Dydd Mercher, 1 Mawrth

10.30 yb Cyrraedd am goffi / te a danteithion Cymreig
11.15 - 1.15 Arddangosfa coginio yn defnyddio Cynnyrch Cymreig
Cyfle i flasgu a chael tips coginio
1.30 ymlaen: Cinio Cymreig 3 chwrs

Pris £15

Lleoliad: Goedwig, Heol Llanwnnen, Llambled
I archebu tocyn, ffoniwch 01570 422313



CHWEFROR

- 5 Cerddoriaeth Llambled yn cyflwyno Graham Trew (baritone) & Susi Morrow (piano), yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 2.30yp.
- 12 Cymanfa Ganu ddathlu 300 Williams Pantycelyn, Shiloh Llambled, 6y.h. Cyfraniad at Gymorth Cristnogol.
- 17 Cyngerdd Teulu Clynoch a'u Ffrindiau yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30y.h.
- 17 Noson Gomedi yn Theatr Felinfach am 8.00y.h.
- 18 Gŵyl Gwrw a Seidr Llambled, Canolfan y Celfyddydau, campws y coleg, 12-11y.h.
- 19 Cerddoriaeth Llambled yn cyflwyno The Mavron Quartet (Meijering: Caxia de Dolcos, Haydn: Op 54 No 2 and Janacek: String Quartet No. 2 'Intimate Letters') yn Yr Hen Neuadd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llambled am 2.30yp.
- 20 Derbyn Newyddion CLONC.
- 20-24 Cystadleuaeth 'Cynulleidfa gyda...' C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach am 7.30y.h. Tocynnau yn mynd ar werth 8 Chwefror - £7.50 yr un.
- 26 Oedfa Deulu yn Noddfa, Llambled am 5.00y.p.
- 27 Cyngerdd 'Cynulleidfa gyda...' C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach am 7.30y.h.

MAWRTH

- 1 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 1 Merched y Wawr Cylch yr Hafod yn cyflwyno Twmpath Dawns a Chawl yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 2 Gŵyl Offerynnol yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 3 Cwrdd Gweddi'r Chwiorydd yn Eglwys Sant Iago, Cwmam am 2.30y.p.
- 3 Pwyllgor Rhieni a Ffrindiau Ysgol Llanllwni yn cyflwyno Cyngerdd yng Nghapel Nonni. Arweinydd y noson: Owain Davies, Gwndwn. Artistiaid: Lleisiau'r Werin a phlant Ysgol Llanllwni. Tocynnau ar gael yn yr ysgol. 01559395624.
- 3 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.00y.h. Artistiaid: Ysgol Gynradd Llanwnnen a C.Ff.I. Llanwenog.
- 8 Eisteddfod yr Urdd Cylch Aeron yn Theatr Felinfach.
- 9 Cyngerdd 'Cynulleidfa gyda...' C.Ff.I. Pontsian yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 10 Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 10 Cyngerdd 'Cynulleidfa gyda...' C.Ff.I. Llanwenog yn Theatr Felinfach am 7.30y.h.
- 10 Huw Edwards (BBC News) yn traddodi Darlith Goffa Tucker yn Narlithfa Tucker ar gampws Llambled am 7.00y.h. Mynediad am ddim trwy docyn. Cysylltwch â Rhiannon Ifans 01970 828719. Croeso i bawb.
- 17 Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal Llanybydder a Llambled. Noson gyda Meibion y Mynydd, Ponterwyd yn y Neuadd Fwyd, Y Drindod Dewi Sant, Llambled am 7.30 yh. Tocyn £15.
- 22 Cinio 3 cwrs ac Ocsiwn Elusenol i ddathlu 50 mlynedd Ford Gron Llanbedr Pont Steffan yn Ffreutur Lloyd Thomas, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Siaradwr Gwadd: Nigel Owens. Tocynnau £35 - 07791 629140.
- 24 Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion Uwchradd ym Mhafiliwn Bont.
- 25 Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion Cynradd ym Mhafiliwn Bont.
- 26 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa Llambled am 5.00yh.
- 27 Derbyn Newyddion CLONC.

EBRILL

- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 19 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen.
- 23 Cymanfa Ganu Undodiaid yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant. Plant ac Ieuentid am 2.00yp ac Oedolion am 5.30yh.
- 24 Derbyn Newyddion CLONC.
- 27 Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yng Ngwersyll Llangrannog.

MAI

- 3 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 6 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Am rhagor o fanylion cysylltwch a Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Enfys Llwyd ar 01545 590295.
- 14 Cyngerdd gan Cardi-Gân yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



**CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR**

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

**Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yb - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau**

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Storws y Beirdd gan John Phillips

Vincent Evans a'i awen

Heb amheuaeth, roedd y diweddar Vincent Evans yn ŵr amlwg Llambled. Roedd yn gyfreithiwr llwyddiannus, yn gyn faer y dref, yn gadeirydd pwyllgor y 'Show' a'i lais ef a glywyd yn fynych yn llywio'r gweithgareddau ar y maes. Roedd hefyd yn heliwr brwd gyda Helfa Llanwnnen ac ef mwy neu lai oedd yn cynnal Eglwys Betws Bledrws. Pan ddathlwyd canmlwyddiant Siarter y dref yn 1984, efe gafodd yr anrhydedd o fod yn Faer ac ef gyflwynodd gopi o'r gyfrol Peterwell wedi ei rwymo mewn lledr i'r Tywysog Charles ar ran y Cyngor.

Teitl hunangofiant Syr Gareth Edwards yr arwr rygbi oedd 'Crwt o'r Waun', ac fel finnau 'crwtyn' o'r Waun, sef pentref Gwauncaegurwen, oedd Vincent Evans. 'Ar y Waun' y magwyd ef ac, i drigolion y pentre, Vincent 'Teiliwr' oedd e, am ei fod yn hanu o deulu'r 'Teilwriaid'. Fel llawer ohonom yn y pentref, roedd ganddo hefyd wreiddiau yn Sir Gâr a'i hynafiaid yn hanu o ardal Rhydcymerau.

Yn ddiweddar, bu cyfaill i mi'n pori ym mhapur y South Wales Observer, sef papur lleol Cwmtawe ac yn rhai o rifynnau 1938-1940 daeth o hyd i beth o hanes y Vincent Evans ifanc. Dyma un o'r penawdau amdano: G.C.G. STUDENT'S SUCCESS, ALSO A PROMISING BARD.

Mae'n cyfeirio at y ffaith ei fod yn astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth yn 1940 ac wedi ennill y Cynddelw Welsh Scholarship. Y darlithwyr ar y pryd oedd y tri bardd T.H. Parry Williams, T Gwynn Jones a Gwenallt. Nododd

y papur hefyd, "He is also a faithful worshipper of the poetical muse, and the verses that have appeared from his pen in the Observer yield considerable promise". Felly, dyma ymchwilio ymhellach gan ddod o hyd i rai ohonynt yn y West Wales Observer Medi 1938.

Cerddi bardd ifanc ar ei brifant yw rhain, ond eto mae ganddo afael sier ar y Gymraeg a hefyd mae ynddynt gryn aeddfedrwydd. Aeth Vincent Evans yn syth o'r Coleg i'r Royal Navy fel swyddog yn gwasanaethu mewn 'submarines' ac wedi cael 'demob' wedi'r rhyfel fe drodd at y gyfraith gan wneud ei erthyglau yn Lloegr. Yna ymunodd a'r gyfreithiwr Emrys Jones yn Llambled, ac yma y bu am weddill ei yrfa a'i oes. Wn i ddim beth ddigwyddodd i'w awen wedi hynny, efallai bod y rhyfel wedi amharu arni. Ond tybed a oes yna gerddi eraill yn llechu yn rhywle? Yn sicr, bydd deall bod y Vincent Evans ifanc yn cael ei ystyried yn fardd addawol yn y Gymraeg yn agoriad llygad i lawer o drigolion tref Llambled.



Y Gwanwyn (Buddugol)

Llais y Gog a ddyry'n gynnar
Arwydd o'th ddyfodiad mwyn,
Llawn yw'r wig o felys lafar
Tra'n blaguro dan ei swyn.

Lluoedd mawr o flodau tirion
Siriol wenant o bob tu;
Ac ar lethrau'r dolydd tirion
Nwyfus brancia'r oenig cu.

Deffro anian o'i hun oeddiog
Yw dy neges di o hyd;
'Rol y Gaeaf llwm a lldog
Deffro'm ysbryd wnei 'run pryd.

West Wales Observer, Medi 1938

ABERYSTWYTH

'Rwyf heno 'Nghymru dawel
Yn teimlo braidd yn fud,
Ym murmur tonnau'r eigion
A'r wylan yn ei chrud.
Mae'r brynau heno'n cysgu
Dan gwrlid barrug oer,
A'r mor a su breuddwydion
Dan fantell glaer y lloer.
Tra minnau mwy'n gorffwyso
Ar glustog llety'r dref,
Fe ddaw i'm clyw o'r pellter
Ryw swm o fagnel gref,
A rhu y brwydro'n Iwrob
Atseiniodd fryn a dol,
A tharan, mellta, tharan
Yn creu galanas ffol.

Rhagfyr, 1939 (wedi dechrau'r rhyfel)

YM MYNWENT FY MRO

Feirwon annwyl yn y beddrod,
Hunwch bellach yn eich heddi,
Tithau ywen yn dy werdd wisg,
Gwylia'n dawel dros bob bedd.

Nid anghofus wyf o'ch hirgws
Wed'ch gorthrymderau gynt,
Brwydro'n erbyn llym dreialon
Fu'r gorchwylion ar eich hynt.

Er mor ddinod yw eich hannedd
Yn y gweryd, eto'i gyd,
Gwylia mae angylion cariad,
Gylch eich hunfan oer o hyd.

Gyrru hiraeth dwys drwy'm calon
Mae cipolwg ar eich gro,
Ond diddanwch im yw cofio
Cawn gydgwrdd mewn gloewach bro.

Taith Hen Geir

Taith Hen Geir Hedd Wyn: Ypres, Gwlad Belg

Yn dilyn llwyddiant ysgubol taith hen geir Abertawe i Mametz yn 2016, mae'r trefnydd wedi penderfynu trefnu taith tebyg eleni i Ypres, yng Ngwlad Belg i goffau canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn.

Ym mis Gorffennaf 2017, bydd tua 20 car yn teithio o Abertawe i Ypres fel rhan o ddigwyddiadau i goffau canmlwyddiant brwydr Passchendaele, ac yn enwedig marwolaeth Hedd Wyn. Gyda dim ond lle i 20 ar y daith, dyma eich cyfle chi fel darllenwr CLONC i ymuno.

Bydd y daith yn gadael y Mwmbwls, Abertawe am 10yb ar 27 Gorffennaf, yn cyrraedd Ypres erbyn swper ar 28 Gorffennaf, yn mynychu gwasanaeth i'w gynnal wrth gofeb Hedd Wyn a digwyddiadau eraill yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn dychwelyd ar 31 Gorffennaf.

Bydd y gost, tua £499 am ddau berson, yn cynnwys y fordaith o Newhaven i Dieppe a'r daith o Dieppe i Newhaven; tair noson, gwely a brecwast, mewn gwesty 3* yn agos at Ypres a bwrdd rali swyddogol.

Trefnir y daith gan Huw Morris, felly os oes gennych hen gar a diddordeb mewn "sbin" fach i Wlad Belg, cysylltwch ag ef cyn gynted ag y bo modd drwy ddanfôn e-bost yn datgan eich diddordeb at landeg@ntlworld.com.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr
gyda'r gwaith o
gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Cydymdeimlo

Wythnos cyn y Nadolig daeth y newydd trist am farwolaeth David Hughes James, Coedmore yn 93 oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Nonni, Llanllwni.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Hoffai pwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni ddiolch i bawb am y cymorth a'r gefnogaeth ar ddiwrnod y ffair Nadolig ym mis Rhagfyr. Gwnaed elw o £3,156.80 i'w rannu rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol. Cafwyd diwrnod llwyddiannus dros ben a gwnaeth pawb fwynhau siopa cynnyrch lleol. Croeso cynnes i Megan Jones sydd wedi ymuno a'r Cylch y tymor yma. Gobeithio dy fod yn mwynhau yn ein plith!

Ein thema tan hanner tymor Chwefror yw 'Y Byd Mawr'. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am y tywydd a'r tymhorau, dathlu Santes Dwynwen a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Cafodd y plant a'u rhieni gyfle i fynd am ginio Tsieineaidd yn Bwyty DAN 'I SANG, Llandysul ar 27 Ionawr i ddysgu am y bwyd. Cawsant wledd blasus iawn. Diolch yn fawr i'r perchnogion am y croeso cynnes. Byddwn yn dysgu am wlad yr Arctig tan ddiwedd hanner tymor.

Cynhelir noson bingo yn Talardd am 8y.h. ar 3 Ebrill. Mi fydd gwobrau arianol i'w hennill a lluniaeth ar y noson. Croeso cynnes i bawb!

Ti a Fi

Dyma weithgareddau Cylch Ti a Fi am y tymor nesaf:

7.2.17 Gweithgaredd 6 gwlad. 14.2.17 Coginio pancws. 21.2.17 Hanner tymor. 28.2.17 Gweithgaredd Gŵyl Ddewi. 7.3.17 Dathlu Diwrnod y Llyfr. 14.3.17 Diwrnod gwyrdd ar gyfer Dydd Sant Padrig. 21.3.17 Crefft Sul y Mamau. 28.3.17 Crefft Pasg. 4.4.17 Helfa wyau yn Little M'zzz.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Mawrth 1-3yh. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a tadcu's i ddod gyda'i plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar David Evans, Murmur y Coed ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad, tadcu a hen dadcu annwyl.

Dymuna Margaret, Artie, Julie, Daloni a Delor ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli tad, tadcu a hen dadcu annwyl sef David

James, Coedmor. Diolch hefyd am yr holl gardiau, rhoddion, galwadau ffôn, a'r ymweliadau. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Bu'r prysurdeb tymhorol arferol yn yr Eglwys. Dechreuwyd gyda Gwasanaeth y Christingle ar 4 Rhagfyr, gyda phlant Ysgol Llanllwni yn cymryd yr awennau.

Perfformiwyd y Ddrama gan aelodau'r Ysgol Sul ar 11 Rhagfyr. Gwnaethant eu gwaith yn raenus, fel arfer, a diolch iddynt ac i Janet a Bethan am eu hyfforddi. Cafwyd Gwasaneth Llith a Charol ar 18 Rhagfyr dan arweiniad y Parch. Suzy Bale, ac ar fore'r Nadolig bu'r Gwasanaeth Cymun am 9:45.

Cynhaliwyd y Noson Bingo arferol yn y Talardd ar 5 Rhagfyr. Roedd yn noson hwylus iawn; diolch i John ac Ann am eu croeso, ac i bawb a wnaeth sicrhau llwyddiant y noson. Diolch hefyd i'r chwaraewyr brŵd a oedd yn bresennol!

Mae Ionawr wedi dechrau'n ddigon prysur hefyd. Ar b'nawn Sul 8 Ionawr, aeth parti o'r Eglwys i gymryd rhan ym Mhlygain flynyddol y Ddeoniaeth, eleni yn Nhregaron. Roedd pedwar parti'n cymryd rhan, ac roedd naws hyfryd i'r gwasanaeth. Diolch yn fawr i aelodau Eglwys Tregaron am baratoi lluniaeth arbennig.

Ar ddydd Sadwrn, 14 Ionawr buom yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Calan Hen, yn Llandysul. Roedd Sant Luc yn un o 10 eglwys oedd yn adrodd eu pwnc, ateb cwestiynau, a chanu, a phawb wedi dod ynghyd i gefnogi'r Ŵyl hynafol hon, sydd yn werth ei chadw. Ein holwr ni oedd y Parch. Ganon Philip Wyn Davies, Tregaron. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd, yn blant ac oedolion, i sicrhau fod Sant Luc yn cael ei chynrychioli'n deilwng.

Undeb y Mamau

Yng nghyfarfod Rhagfyr, daeth Miss Eluned Davies atom i ddangos gwaith llaw. Roedd wedi dod a nifer fawr o enghreifftiau o'i gwaith, a mawr oedd ein hedmygedd. Cawsom gyfle wedyn i greu addurniadau Nadolig ein hunain, i'w rhoi ar y goeden. Amrywiol oedd y cynigion, ond cafwyd llawer o hwyl. Diolch yn fawr i Eluned am ei hyfforddiant.

Ym mis Ionawr, ein gwraig wadd oedd Mrs Eileen Jones o Beniel, gweddw Mr. Gwili Jones. Ei phwnc oedd Eglwys Capel y Groes, Peniel sydd nawr wedi ei werthu, ac yn cael ei ddefnyddio at wellhâd anifeiliaid. Roedd yn ddiddorol iawn i wrando ar Mrs. Jones yn traethu, ac roedd yn amlwg fod y testun yn agos iawn at ei chalon. Diolch i Val, sydd nawr yn gymdoges i Mrs. Jones, am ei chludo i Lanllwni. Diolch yn fawr iawn i chi, Mrs. Jones.

Enillwyr Clwb 100 Eglwys Sant Luc

Mis Rhagfyr: 1af £20 - Ray Thomas (41). 2il £15 - Myra Jones (56). 3ydd £10 - Edith Williams (87). 4ydd £10 - Bethan a Catrin (27). 5ed £10 - Daniel Thomas (22). 6ed £10 - Carol Davies (110).

Mis Ionawr: 1af £15 - Gwennan Jones (43). 2il £10 - Anwen Thomas (101). 3ydd £10 - Ray Thomas (41).

Ysgol Llanllwni

Croeso i Cadi Thomas, Elliw a Cian Jones a Paulina Nowak i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi setlo yn dda ac yn hapus iawn ymhlith eu ffrindiau newydd.

Cafwyd Ffair Nadolig llwyddiannus unwaith eto ar ddechrau Mis Rhagfyr. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y digwyddiad mewn unrhyw ffordd. Diolch i Lywydd y Dydd sef Miss Meinir Bowen am ei rhodd a'i geiriau pwrpasol. Rhannwyd yr elw rhwng yr ysgol a'r Ysgol Feithrin a dderbyniodd £1,578.40 yr un.

Cyn y Nadolig aeth aelodau'r Urdd allan i ganu carolau gan gasglu £191.22. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Mae Pwyllgor Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol yn paratoi cyngerdd ar gyfer 3 Mawrth yng Nghapel Nonni. Bydd y noson yn cael ei arwain gan Owain Davies, Gwndwn sydd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol. Yr artistiaid fydd Lleisiau'r Werin a phlant ysgol Llanllwni. Os dymunwch brynu tocynnau ymlaen llaw, cysylltwch a'r ysgol. Pris y tocynnau fydd £5 a phlant ysgol cynradd am ddim. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:

Mis Rhagfyr: 1af £50 – S. Hill, Awelfa, Maesycrugiau. 2ail £40 – Dilys Jones, Tirlan, Brechfa. 3ydd £30 – Mark Pendle, 3 Bronantlais, Gwyddgrug. 4ydd £20 – Tom Owen, Bwlchglas, Llanllwni. 5ed £10 – Sally Davies, Maes Farm, Llanllwni. 6ed £5 – Sarah James, Bettws, Tegryn, Llanfyrnach.



Eglwys Sant Luc, Llanllwni - Ar fore Sul, 11 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yng ngofal plant a phobl ifanc yr Eglwys. Clywsom am hanes cyfarwydd y geni trwy stori, drama a chân, ond cawsom hefyd glywed yr hanes o sut y gwnaeth y corryn bach helpu Joseff, Mair a'r baban Iesu ffoi o grafangau milwyr creulon Herod. Diolch i bawb a wnaeth gymryd rhan, ynghyd a phawb a ddaeth i wrando.

Mis Ionawr: 1af £10 -

Mr. Thomas Williams, Cluniau, Llanllwni. 2ail £5 – Mr Emrys Evans, Ceunant, Llanllwni. 3ydd £5 – Mr Huw Evans, Park Lane, Llanllwni.

C.Ff.I. Llanllwni

Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd ac yn barod i glywed newyddion cynta'r flwyddyn yn hanes Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Diwedd mis Tachwedd, bu dau dîm o Lanllwni yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg Adran Iau Sir Gaerfyrddin. Daeth tîm Sioned Howells, Sioned Bowen a Mared Phillips yn gyntaf, gan ddod a'r darian yn ôl i gwpwrdd clwb Llanllwni am yr ail flwyddyn yn olynol. Derbyniodd Sioned Howells y cwpan am y siaradwr gorau yn yr adran iau. Cafodd Sioned ei dewis i fynd ymlaen fel siaradwr yn nhîm Sir Gâr ar lefel Cymru, a cafodd Lowri Davies ei henwi fel siaradwr wrth gefn. Bore da o waith gennych oll! Llun ar dudalen 32.

Cyn y Nadolig, cafodd yr aelodau dwy noson hwylus yn sgelfrio iâ yn Abertawe ac yna yn gwylio panto blynyddol Nadolig Felinfach. Ar ôl yr hwyl, buom allan yn canu carolau er mwyn codi arian i Prostate Cymru. Ar ôl y ddwy noson, fe wnaethom godi swm enfawr o £1,172.58. Diolch i bobl yr ardal am y croeso ac am eich haelioni tuag at yr achos teilwng hwn. Diolch i John ac Anne am y siocled poeth i dwymo ar ôl cyrraedd nôl.

Wedi'r holl ganu, cawsom ein parti Nadolig blynyddol ar 6 Ionawr yn y Talardd. Diolch i John ac Anne am y bwyd blasus ac am y croeso unwaith yn rhagor.

Cawsom noson cyflwyno sieciau yn neuadd yr Eglwys ar 17 Ionawr. Trosglwyddwyd cyfanswm o £3,380.71 ar y noson, sef yr holl arian a godwyd yn 2016 i elusennau gwahanol. Gweler y llun ar dudalen 15.

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
 £6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
 wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
 Croeso cynnes i bawb!
 01570 434 238

W.D. Lewis
a'l Fab
 Ma'nachwyr Amaethyddol
 Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
 Llanbedr Pont Steffan
 Ceredigion SA48 7AG
 Tel: 01570 422540
 Fax: 01570 423644
 www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
 Broneb Stores
 Pumsaint, Llanwrda
 Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau
*'Bwyd cartref ar gyfer
 pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
 (ffotograff)
 * Bwffe mawr neu fach
 * Danteithion i de
 * Pwdinau
 * Arlwyio ar gyfer pob achlysur

**Sirian Davies, Coedlannau
 Fach, Cwrtnewydd,
 01570 434 243
 07815 962 045**



Gwasanaethau Coed Llambod



**Gwêl-y-Coed, Cwmann
 Llambod, SA48 8EL
 01570 422819
 www.lampetertrees.co.uk**

Cwmni teuluol all ddelio â
 phob math o breblemau gyda choed.

**WILLIAMS
 & BOURNE**
 CYFREITHWYR,
 COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
 gwasanaeth cyfreithiol.
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
 Llambod**

01570 422206 01570423540
 a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Sue's Hair Stylist



- Edafu
 - Trin ewinedd
 - Trin traed

Sue's Hair Stylist
 ADVANCED TECHNIQUES
 Cutting • Colouring • Perming
 Fading • Hair Treatments
 Tel: 01559 384 794
 Mon-Fri 9.30am to 6.00pm
 Sat 10am to 5.00pm
 Sun 10am to 4.00pm

- Triniaeth
 hwyneb
 - Lliwio ael a
 lliwio blew
 llygaid

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!
 - Tylino pen Indiaidd
 - Tylino Sweden
 - Tylino cerrig poeth
 a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tylino pen Indiaidd a fydd yn eich
 rhyddhau o straen a thensiwn, ac yn eich gadael yn
 teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac all fywio!

**Cysylltwch â:
 Sue Hairstylist
 Pencader
 Rhif ffôn - 01559384794**



**Gwesty'r
 Grannell
 Hotel
 Bar & Restaurant**

Mae gan Westy'r Grannell, Llanwnnen,
 reolwyr newydd.
 Carai Mike a Lucy eich croesawu
 i'w bwyty newydd
 ac i brofi eu bwydlen newydd.
 Mae'r lle ar gael hefyd i'w fwcio
 ar gyfer digwyddiadau.
 Gwesty ag iddo 4 ystafell wely "en suite".



Gellir bwcio nawr ar 01570 480476.

Adloniant gan Rhian Dafydd



Ar ddiwedd 2014, cefais y syniad o gynhyrchu
 Teilwng yw'r Oen fel prosiect a fyddai'n tynnu ynghyd
 nifer o elfennau amrywiol gan gynnwys corau lleol ac
 artistiaid gwadd. Addasiad roc Tom Parker o'r Meseia
 yw Teilwng yw'r Oen. Mae Meseia Handel yn un o'r
 gweithiai cerddorol mwyaf adnabyddus yn y byd ac mae
 Teilwng yw'r Oen yn cyflwyno'r alawon hyfryd hyn
 mewn gwisg gyfoes.

Ein syniad ni oedd dod a'r cymunedol a'r proffesiynol
 at ei gilydd. Ar ôl trafod gyda Geraint Evans,
 Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cerdd Cyngor Sir Ceredigion,
 gwahoddwyd un o gyn-ddisgyblion y gwasanaeth, Rhys
 Taylor, i fod yn gyfarwyddwr cerdd i'r prosiect. Aethom
 ati wedyn i wahodd tri chôr cymunedol i gymryd rhan,
 sef Cardi-Gân - côr cymysg pedwar llais o ardal Dyffryn
 Aeron; Corisma - côr o ferched o ardal Llanbedr Pont
 Steffan; a Meibion y Mynydd - côr o ddynion o ardal
 Ponterwyd. Gwahoddwyd yr unawdwyr, Deiniol Wyn
 Rees a Non Parry Williams, a 5 o ddisgyblion disglair
 y sir, Cyfarwyddwr Cerdd y sir a phedwar cerddor
 proffesiynol.

Roedd costau cynnal y prosiect hwn yn golygu
 her arall, gan ymgeisio am gefnogaeth a braf nodi y
 bum yn llwyddiannus i ddenu a derbyn cefnogaeth
 amrywiol: Cyngor Celfyddydau Cymru, Y Loteri Fawr,
 Cist Cymunedol Ceredigion a chyfraniadau oddi wrth
 nifer o Gyngorau Cymuned a Thref o bob rhan o'r
 sir. Llwyddwyd hefyd i ddenu nawdd gan gwmnïau
 lleol mawr a bach, a mawr yw ein gwerthfawrogiad o'r
 gefnogaeth amhrisiadwy a'r buddsoddiad, nid yn unig i'r
 prosiect ond mewn egni a chreadigrwydd ein cymunedau
 gwledig.

Mae'r cyffro a grëwyd gan y prosiect wedi bod yn
 anhygoel, yn arbennig pan y bu angen i ni drefnu un sioe
 ychwanegol i ateb y galw am docynnau a gwerthu allan
 o fewn oriau! Mae'r cynhyrchiad yn dyst i egni creadigol
 ein cymunedau ac yn dangos beth sy'n bosib, wrth ddod
 at ein gilydd.

Hwyl a Hamdden - Mae'r grŵp cymdeithasol i rai
 dros 50 oed yn cwrdd bob prynhawn Mercher rhwng
 1:30 a 3:00yp ac mae'r sesiwn yn amrywio o wythnos
 i wythnos, yn cynnwys siaradwyr, teithiau ac adloniant
 ysgafn.

Dramatic! - Clwb drama Dramatic! i ddisgyblion
 7-11oed. Cyfle gwyh i greu ffrindiau newydd, datblygu
 sgiliau perfformio a drama, a chael lot fawr o hwyl a sbri
 rhwng 4:00yp a 5:00yp.

Nos Lun - Ysgol T Llew Jones.

Nos Fawrth - Ysgol Henry Richard (Campws
 Uwchradd).

Nos Fercher - Y Gwndwn, Theatr Felinfach.

Clwb Dawns - Bydd y Clwb Dawns i blant 3-6 oed yn
 canolbwyntio ar sgiliau ac arddulliau dawns amrywiol.
 Y Gwndwn, Theatr Felinfach, bob Nos Lun am 4:15yp
 - 5:00yp *SYLWER AR YR AMSER NEWYDD*

Yr Ysgol Berfformio - Yn dilyn llwyddiant y sesiynau
 blasu a gynhaliwyd yn ystod wythnos hanner tymor mis
 Hydref, agorodd Yr Ysgol Berfformio ei drysau ar Nos
 Iau, 19 Ionawr yn Theatr Felinfach. Roedd y lle'n llawn
 bwrlwm a braf oedd gweld cynifer wedi dod i ymuno.

Cynradd 7-11 oed, 4:30yp-5:30yp, £30 am hanner
 tymor. Uwchradd 11-18 oed, 5:30yp-7:00yh, £35
 am hanner tymor. Os nad oeddech yn medru bod yn
 bresennol ar y dechrau, mae dal croeso i chi ymuno.

Tic-Toc - Sesiynau stori, dawns a chân Tic Toc i blant
 0-3 oed a'u rhieni bob bore Gwener am 10yb.

Cysylltwch â Ffion Medi neu Lowri Briddon am fwy o
 wybodaeth am unrhyw un o'r gweithgareddau uchod ar
 01570 470697.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr'

17/2/17 - Noson Gomedi gyda Huw Bryant, Steffan
 Evans, Beth Jones, Cennydd Jones, Sam Jones a Shon
 'Midway' Rees

20-24/2/17 - Cystadleuaeth C.F.F.I. Ceredigion
 Cynulleidfa Gyda...

27/2/17 - Goreuon Cynulleidfa Gyda...

2/3/17 - Gŵyl Offerynnol Ceredigion

3/3/17 - Y Ladis - Sioe newydd sbon gan Carys Huw,
 Nia Medi a Mair Tomos Ifans wedi ei hysbrydoli gan
 luniau Menywod Cymreig Ruth Jên Evans. Ddim yn
 addas i blant a phobl cul eu meddwl!

8/3/17 - Eisteddfod Cylch Aeron Urdd Gobaith Cymru

10/3/17 - Cyngerdd Pigion Cynulleidfa gyda... C.F.F.I.
 Llanwenog

15/3/17 - Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Yfory'.
 Drama newydd gyffrous gan Siôn Eirian.

24/3/17 - It's an Act Company yn cyflwyno 'Perfect
 Pitch'. Comedi gan Jon Godber am gwpl sy'n mynd
 i garafanio am y tro cyntaf. Ni fydd bywydau Ron ac
 Yvonne byth yr un peth eto! Cynhyrchiad Saesneg 14+

28/3/17 - Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno Y
 Glec. Parti pen-blwydd ac effaith alcohol yn arwain at
 ddiweddglô dychrynlyd. 14+

www.theatrfelinfach.cymru

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Sefydliad Prydeinig y Galon
Ardal Llanybydder a Llanbed
Rhif elusen 225971

Noson gyda
Meibion y Mynydd
Ponterwyd

Yn y Neuadd Fwyd, Y Drindod
Dewi Sant, Llanbed

17 Mawrth 2017 am 7.30 yh

Llywydd : Dr David Ashton
Tocyn £15-00 a Lluniaeth Ysgafn

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Gigy Cardis

Can Sian Elin

Ar nos Sadwrn, 7 Ionawr roedd hi'n noson go fawr yn Neuadd Fictoria Llanbed. Gig Y Cardis, dyna chi enw da, Gig oedd yn rhoi blas ar y Sîn Roc Cymreig i bobl ifanc Ceredigion.

Fel mae nifer yn gwybod, penderfynais gael blwyddyn allan o'r brifysgol er mwyn gweithio fel Swyddog Ieuenctid yng Ngheredigion. Roedd y swydd yma yn rhoi tipyn o gyffro i mi gan fy mod i'n bersonol wedi bod yn aelod o'r Urdd ers yn oed ifanc ac yn aelod brwd o Fforwm Ieuenctid yr Urdd. Felly roeddwn yn awyddus iawn i roi cynnig ar brosiectau newydd ar gyfer pobl ifanc y Sir. Wrth gwrdd â'r Fforwm yn gynharach yn y flwyddyn, yr un syniad oedd gyda phawb, sef GIG - ond nid Gig ar raddfa fach, o na, Gig mawr!!



Felly dyma fi'n mynd ati gyda help Dan Rowbotham i drefnu Gig! Lle i ddechrau? Dechreuais trwy ofyn i'r bandiau. Candelas oedd y band poblogaidd ar feddyliau'r Fforwm i gyd, felly Candelas amdani. Roeddwn yn ffodus iawn fod y Candelas ar gael, felly edrych am ddau fand arall. Roeddwn yn awyddus iawn, er i groesawu band adnabyddus, poblogaidd, i groesawu bandiau ifanc, newydd. Ar ôl mynychu Maes B eleni roedd enw da iawn gyda band weddol newydd ac ifanc o ardal Meidrim sef CPT.Smith. Roedd CPT.Smith yn chwarae cerddoriaeth ffresh ac yn amlwg yn gwybod sut i gynnal cynulleidfa. Yn olaf wedyn penderfynom gael Argrph, gyda sŵn newydd, gwahanol, sydd yn dangos doniau cerddorol cryf. Roedd nifer o bobl yn hoff iawn o Argrph gan ei bod yn dangos nodweddion 'cŵl'.

Roedd y noson yn un anhygoel. Ar ôl yr holl drefnu roedd gweld bod cynifer o bobl ifanc Ceredigion wrth eu bodd yn canu gyda'r Candelas wedi gwneud i fi sylwi fod 'na alw mawr am fwy o Gigs yn ein hardal ni.

Roedd agos iawn i 260 o bobl yna nos Sadwrn. Braf oedd gweld hefyd fod trawstoriad o oedran yno, a bod pawb i weld wedi joio mas draw. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth ar hyd y misoedd diwethaf, a diolch i Lysgenhadon y Sir am helpu i werthu tocynnau. Dw i wir yn ddiolchgar. Mae fy niolch i'n fawr i'r Urdd hefyd, yn enwedig i Anwen Eleri am roi'r cyfle i mi drefnu hyn ar gyfer pobl ifanc y Sir. Diolch!

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL



Sarn Helen, Cwmann
01570423640 / 07817262798
www.wigsandco.co.uk

Wigiau ar gyfer pob achlysur,
bronglymau a dillad isaf
masectomi, twrbanau, sgarffiau,
estyniadau i'r gwallt gyda
chlipiau.



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221



The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymdddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llanbed yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 - 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Ffarmers

Neuadd Bro Fana

Ar 25 Tachwedd, cynhaliwyd 'Bwffe a Noson yng Nghwmni' gyda Lyn Ebenezer, Pontrhydfendigaid, yr awdur a'r darlledydd. Cafwyd noson hwylus yng nghwmni Lyn a'i briod – bwyd da a digon o chwerthin.

Fel ein harfer, cafwyd Cyngerdd a Noson o Garolau ar y Nos Sul cyn y Nadolig gydag aelodau o gapeli'r ardal ag Eglwys Llanycrwys yn cymryd at y rhannau arweiniol. Daeth tyrfa dda ynghyd i ymuno yn y canu, ac eleni, cafwyd y pleser o groesawi Côr Merched Corisma o ardal Cwmann i'n diddanu, dan arweinyddiaeth medrus Carys Lewis. Mae'r digwyddiad yma wedi ei gynnal yn y Neuadd ers rhyw chwarter canrif bellach, ac eleni, bydd elw'r noson o £300 yn cael ei gyflwyno i Ward Dinefwr yn Ysbyty Glangwili.

Cynhaliwyd cyngerdd gan barti bechgyn 'Ar Wasgar' yn y Neuadd ar 20 Ionawr, gyda Ifan Gruffydd yn ymuno a nhw ynghyd a thalentau o'r ardal. Llywydd y noson oedd Meinir Howells, Pentrecwrt – cyflwynwraig ar raglen 'Ffermio'. Bydd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng Apêl Sir Gâr i'r Sioe Fawr, a Ward Dinefwr yn Ysbyty Glangwili.

Ar brynhawn Sul, 5 Chwefror, bydd Clwb Cerddoriaeth Llanbedr Pont Steffan yn cynnal Cyngerdd yn y Neuadd gyda'r unawdydd Graham Trew o Lanfairwaterdine ger Trefyclawdd – bariton a chanddo gysylltiadau a Llanwrda. Yn cyfeilio iddo fydd Susi Morrow, Tycanol, Ffarmers. Ceir hefyd ddatganiadau ar y piano gan Lesley Young o Colchester. Cyfle am brynhawn o gerddoriaeth amrywiol.

Mae Cyngor y Neuadd wedi trefnu Cyngerdd a Noson o Gawl i ddathlu Gwyl Ddewi eleni. Ar 17 Chwefror byddwn yn croesawi 'Bois y Gilfach' i'r Neuadd i'n diddanu – criw o fechgyn ifanc o Geredigion. Gwnewch nodyn o'r dyddiad a bydd tocynnau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dymuna Cyngor y Neuadd ddiolch i'r holl bobl sy'n cefnogi gweithgareddau'r Neuadd trwy'r flwyddyn, a dymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi oll. Os am ragor o fanylion ynglŷn a digwyddiadau'r Neuadd, gallwch gysylltu trwy e-bost neuaddbrofana@ffarmers.org

Taith Gerdded

Prif nod Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg yw cerdded gwahanol lwybrau'r Plwyf, ond eleni buom yn cerdded at, ac edrych ar hen hanes drwy groesi Afon Teifi i Sir Aberteifi. Ein bwriad felly oedd edrych a gweld ble safai "Pont Hamilton". Cawsom ein harwain gan gymwynaswr mawr i gymdeithas Cwmann a Phlwyf Pencarreg ym mherson Eric Williams, Y Fedw. Cerdded lawr trwy dir yr Hen Sgweier Syr Herbert Lloyd Ffynnon Bedr a thrwy Gae Sion Philip yr hwn a gollodd ei fywyd drwy dwyll Y Sgweier yn ôl hanes, am fraster dolydd y Teifi. Beth a'm synodd yn fawr yw pa mor droellog yw Afon Teifi, er hynny roedd y cerdded yn rhwydd a'r cwmni yn hwylus wrth weld aberoedd nentydd Eiddig a'r Hor. Ymhen amser, cyrraedd "Pont Hamilton" yn ôl map Ordinans 1906 neu Pont Droed {Foot Bridge} yn ôl map Ordinans 1891 oedd yn pontio Afon Teifi rhwng tir Dolgwm Isaf a Dolaugwyrdion Isaf. Yn anffodus, dim ond pileri cerrig sydd yn aros, a llifogydd y Teifi yn tanseilio ychydig o'r pileri ar ochr Sir Gâr. Gwyddom fod Rhys ap Owen yn berchen Dolgwm Isaf tua'r flwyddyn 1500 ond erbyn 1725 ym mherchnogaeth Teulu Vaughan o Jordanston Sir Benfro. Wedi dyddiau Vaughan daeth i law Syr James Cockburn oedd yn berchen ac yn byw mewn fferm cyfagos sef Cefnbryn. Priododd merch Syr James sef Marianna Augusta a Syr James Hamilton, Bart a dyna enedigaeth "Pont Hamilton". Rhoddodd y wraig yn helaeth i'r plwyf ac i eglwys Sant Padryg Pencarreg. Yn ôl hanes, pont gul ydoedd er bod eu hyd lled afon Teifi a thylbiaf ei bod wedi ei hadeiladu rhwng 1866 a 1870 gan fod deunydd y pileri yn debyg i bontydd y rheilffordd a adeiladwyd ychydig flynyddoedd ynghynt. Tybiwn hefyd fod y bont wedi'i hadeiladu er mwyn osgoi cerdded o amgylch Llanybydder, gan fod fferm Dolgwm Isaf a thiroedd ar draws y Teifi yn Sir Aberteifi. Dod i gof stori gan Bethan Phillips yn llyfr "Peterwell" am "Von" Dolgwm yn herio Sir Herbert Lloyd am geisio dwyn fferm fechan Felinsych Pencarreg a oedd mewn perchnogaeth preifat.

Wedi cael lluniau o'r gorffennol, troi oddi wrth Afon Teifi am ffermydd Dolaugwyrdion Isaf ac Uchaf a chyrraedd prif-ffordd Llambod i Gastell Newydd Emlyn, troi i'r chwith am rhyw bump-can llath trwy bentref Pentre-Bach a phasio hen Eglwys Sant Ioan. Lan am fferm-dy Pentre Sion a cherdded dros y banc am fferm Ty-Llwyd a Heol Maestir. Colli peth o fraster y Nadolig. Da gweld hefyd bod ffermydd yn ardal Llambod yn parhau i odro. Cerdded lawr heibio hen Glwb Golff Ffynnon Bedr, ac Eric yn dangos ble oedd twll cyntaf y cwrs. Erbyn hyn roeddem yng ngolwg mwg ein cartrefi yn Sir Gâr.




**THE
FALCONDALE**
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

**Sioe Briodasau
19^{eg} o Chwefror
11yb i 4yp**

**Ymunwch â ni am gyfle arbennig i weld
y gwesty ac i drafod trefniadau'ch
diwrnod mawr chi.**

**Gallwch gwrdd a siarad â
gwasanaethau priodasol lleol.**

Mynediad am ddim

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk






**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach**
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

**Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)**



O'r Cyngorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 14 Tachwedd 2016 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd yn bleser gan y Cyngorwyr longyfarch Alwena Mair Owen ar ei llwyddiant yng Ngŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd yn ddiweddar.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Comisiynydd yr Heddlu - Rhoddwyd croeso cynnes i Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu, i'r cyfarfod. Soniodd am ei gyfrifoldebau a thrafodwyd plismona yn y pentref yn gyffredinol ac am y parcio digymwynas ar y palmant ger garej Celtic Classics. Roedd Dafydd Llywelyn yn addo ymchwilio i'r pwnc.

Hewl Cwmcaredig - Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o gŵyn ynglŷn a hawliau ar yr hewl. Roedd y Clerc wedi ymateb cyn y cyfarfod i gadarnhau y byddai'r pwnc yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn. Roedd un o'r cyngorwyr wedi derbyn galwad ffôn gan Mrs Doreen Morris wedyn yn dweud bod y broblem bellach wedi ei ddatrys.

Cyflwyniad gan Llywelyn Rhys o gwmni RES - Yn dilyn y cyflwyniad a gafwyd gan y cwmni ar 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi ymateb gan holi am atebion i'r cwestiynau a nodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ond roedd heb dderbyn ymateb. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu eto.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Yr oedd Hefin Harries, Maenonni, wedi torri clawdd y cae chwarae eleni. Roedd Linda Evans wedi derbyn copi o'r adroddiad am yr adnoddau ar y cae chwarae a byddai'n danfon copi i'r Clerc.

Roedd y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth berchnogion y tir oedd yn ffinio â'r cae chwarae yn gofyn a fyddai diddoreb gan y Cyngor Bro i brynu'r tir ffiniol. Roedd y Cyngorwyr yn awyddus i ystyried a bydd y Clerc yn ymateb trwy lythyr i'r perchnogion.

Ysgol Sul yr Eglwys, Llanllwni - Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Meinir Evans o Ysgol Sul yr Eglwys i brynu adnoddau i'r plant, am bris rhesymol.

Cware Mownt - Cadarnhawyd bod bin sbwriel wedi cael ei osod yn y lleoliad hwn.

Gwefan Llanllwni - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Medi ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc a Clecs Bro Cader.

Agenda - Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y Fantolen - Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cyngorwyr.

Ymgynghoriad Ffonau Cyhoeddus BT - Derbyniwyd rhestr o ffonau talu cyhoeddus a chofnod o sawl gwaith roedden nhw wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Ceisiadau - Penderfynwyd cefnogi Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni. Penderfynwyd ystyried gweddill y ceisiadau ym mis Ionawr.

Y Ginio Flynyddol - Penderfynwyd y byddai'r ginio yn cael ei chynnal ar 20 Ionawr yn y Talardd.

Cysgodfeydd Bws - Roedd wedi dod i sylw'r Cyngorwyr bod angen golchi a glanhau y Cysgodfannau Bysiau o fewn y pentref. Byddai Linda Evans yn cysylltu â'r Cyngor Sir. Nodwyd bod gwasanaeth bws yn teithio o'r pentref i Gaerdydd wedi dechrau yn ddiweddar.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhaliwyd Cyfarfod cyntaf 2017 yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 9 Ionawr 2017 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad i Emyr Evans a'r teulu ar farwolaeth ei dad yn ddiweddar sef David Evans, Murmur y Coed. Dymunwyd, yn ogystal, wellhad buan i frawd Emyr, sef Wyn Evans yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Comisiynydd yr Heddlu - Nid oedd y Clerc wedi derbyn ymateb hyd yma am y parcio gwrthgymdeithasol ar y palmant ger garej Celtic Classics. Roedd y Cyngorwyr yn siomedig hefyd nad yw'r Plismyn Cymunedol yn gweld yn dda bellach i fynychu cyfarfodydd y cyngor. Nid yw'n bosibl felly trafod pynciau o bwys i'r gymuned â'r heddlu, wyneb yn wyneb, ac nid ydynt yn ymateb i ohebiaeth. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu drachefn â'r Comisiynydd.

Cwmni RES - Yn dilyn y cyflwyniad diffygiol a gafwyd gan y cwmni yng nghyfarfod 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi holi am atebion i'r cwestiynau a godwyd, ond ni dderbyniwyd ymateb.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Cadeirydd wedi derbyn copi o'r adroddiad am yr adnoddau ar y cae chwarae ac roedd yn foddhaol. Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan Un Llais Cymru am briodoldeb prynu darn o dir. Penderfynwyd yn unfrydol i brynu'r tir a oedd wedi'i gynnig yn ei gyfarwydd.

Mantolen - Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cyngorwyr a cafwyd trafodaeth.

Penderfynwyd cefnogi: Macmillan; Ambiwylans Awyr Cymru; Marie Curie; British Red Cross; Shelter Cymru; Urdd Gobaith Cymru; Eisteddfod Genedlaethol Cymru; Y Sioe Fawr; Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 13 Mawrth 2017 am 8.00yh.

£12

yn unig

yw pris hysbysebu,
a dim ond
£72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

 dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoledig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Rhifyn Mawrth yn y Siopau 2 Mawrth

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn
20 Chwefror

Sicrhewch eich
newyddion yn y papur
hwn. Peidiwch â disgwyl
i rywun arall ei gynnwys
ar eich rhan. Mae'n rhy
hwyr i achwyn ar ôl i
CLONC ymddangos.



Côr Lleisiau'r Werin

Ar ôl seibiant yr haf, dechreuwyd eto ar yr ymarferion ym mis Medi a bu'r côr yn canu mewn cymanfa yn Eglwys Llanfihangel Ystrad, Ystrad Aeron â'r arian yn mynd tuag at yr Ysgol Sul. Diolchodd Margaret i bawb am noson hyfryd. Ym mis Hydref, cafwyd y fraind o ganu yng nghyfarfod agoriadol Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Bwlchgwynt, Tregaron. Canwyd llawer o ganeuon amrywiol ac hefyd bu rhai o aelodau'r côr yn adrodd a mwynhaodd y gynulleidfa yr arlwy. Paratowyd ddanteithion blasus ar ein cyfer ar y diwedd a diolchodd Ann i'r gwragedd am y wledd. Erbyn mis Rhagfyr, y carolau oedd yn cael ein sylw. Ar y nos Sul cyntaf, bu'r côr yn canu yng nghyngerdd blynyddol Eglwys Sant Iago, Cwmann gyda Sioned a Siriol o New Inn yn rhoi eitemau hefyd. Gan fod elw'r noson yn mynd tuag at Apel Cymru Lesotho, rhoddodd Mrs Pat Jones anerchiad byr ar hanes y wlad. Roedd yr eglwys yn gyfforddus lawn ac fel arfer cawsom de hyfryd ar y diwedd. Y nos Sul ganlynol, 11 Rhagfyr, Eglwys Sant Pedr, Llanybydder oedd lleoliad y gwasanaeth Nadolig. Canwyd nifer o garolau swynol a chafwyd darlenniadau Nadoligaidd gan aelodau'r côr hefyd. Yr oedd y casgliad eleni yn mynd tuag at Uned Strôc Aciwt, Ysbyty Glangwili.

Pen-blwydd Arbennig

Yn ystod mis Rhagfyr dathlodd Carol Jones, Awel-y-Grug ben-blwydd arbennig. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

Eglwys San Pedr, Llanybydder Cyngor Plwyf Eglwysig

Cynhaliwyd y Cyngor Plwyf Eglwysig ar Nos Lun, 16 Ionawr 2017 yn Ffestri'r Eglwys am 7yh. Yn bresennol: Y Parch. Suzy Bale (Cadeirydd); Susan Evans (Warden yr Eglwys); Val Wood (Warden y Ficer); Avril Jones (Trysorydd); Eleri

Thomas (Ysgrifenyddes); Eurwyn Davies; Heather Jones; Christine Rogers ac Ann Smith.

Gwasanaeth y Gair - Ail-drefnwyd yr amser. Cynhelir yn awr ar ail Sul y mis am 9.30yb.

Trwsio To'r Festri - Soniwyd am ail-geisio grant ar gyfer trwsio'r to ac i gyfleu awydd am gyfleusterau toiled a dŵr o fewn yr Eglwys.

Her Ariannol - Trafodwyd yr her ariannol sy'n wynebu'r Eglwys a ffyrdd o godi arian. Gobeithir trefnu'r canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf:

Noson Cwis: o dan gyfarwyddid Mr Adrian Thomas, ym mis Chwefror, o bosib.

Noson Bingo: Mr Eurwyn Davies ar y llyw, ym mis Mai.

Taith Gerdded: Mis Awst.

Clwb 100: i gychwyn ar ddydd Sul, 19 Chwefror 2017 ac ar 3ydd Sul y mis ar ôl hynny gan eithrio mis Awst ac Ionawr, sef 10 mis y flwyddyn. Gwobrau £15; £10 a £5 yn fisol a £30; £20 a £10 yn ystod mis Rhagfyr. Diolch i bawb sydd eisoes wedi prynu rhif. Mae rhai ar ôl felly os dymunwch ymaelodi â'r Clwb 100 am £10 yn flynyddol, cysylltwch ag Eleri (01570 422 103); Susan (01570 480 768) neu Eurwyn (01570 480 760) a byddant yn hapus i'ch helpu.

Diolch - Diolch i Mr Emyr Williams am newid clo'r Eglwys yn ddiweddar ac i Mr Gareth Jones am arddangos arwydd ar fynedfa mynwent Heol Caerfyrddin heb godi unrhyw ffi. Diolch yn fawr.

Dymuniadau Gorau - Dymuniadau gorau i holl aelodau'r Eglwys sydd heb fod yn teimlo'n hwylus yn ddiweddar ac yn methu mynychu'r Eglwys.

Diolch

Dymuna Carol, Awel-y-Grug ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

Ysgol Gynradd Llanybydder

Croeso cynnes i'r plant newydd ymunodd a ni yn y Meithrin ar ddechrau'r tymor.

Ar ddechrau Ionawr, bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ffodus iawn i wyllo'r perfformiad hanesyddol, creadigol a gwerth-chweil 'Glenys Myfanwy - Byw drwy'r Blitz' gan y cwmni 'Mewn Cymeriad'. Gan taw thema blynyddoedd 5 a 6 y tymor yma yw 'Y Blitz', roedd hyn yn gyflwyniad delfrydol ar gyfer yr uned. Mae'r plant yn frwdfrydig iawn yn awr i ddarganfod mwy am yr hanes.

Mae un o'n disgyblion ysbrydoledig, Jacob, wedi cyflawni'r her 'Aspire Channel Swim' ar gyfer elusen teilwng iawn. Llwyddodd Jacob i nofio 22 milltir (pellter Sianel Lloegr) mewn 12 wythnos ac mae wedi codi swm sylweddol o arian i helpu pobl sy'n dioddef ag anafiadau llinyn y cefn ym Mhrydain. O ddeffro cyn i'r haul godi ar gyfer mynd i'r pwll, i nofio hydoedd pan roedd pob asgwrn yn ei gorff yn erfyn arno i stopio, doedd dim gobaith o Jacob yn arafu. Rydym yn browd iawn ohonot yma yn Ysgol Gynradd Llanybydder. Da iawn ti!

Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn gweithio'n agos gyda Amgueddfa Genedlaethol Cymru mewn prosiect newydd, cyffrous. Mae ein ffrindiau yng Nghwm Aur yn awyddus iawn i greu Amgueddfa am hanes lleol ar y safle. Felly, mae'r disgyblion wedi bod wrthi'n cyfwrdd â phobl leol a chasglu gwahanol ffynonellau i'w gynnwys yn yr Amgueddfa. Y cam nesaf yw i labelu a threfnu'r ffynonellau!

Bu rhai disgyblion yn Ysgol Brynsaron yn ddiweddar i gymryd rhan mewn cwis 'Dim Clem' a drefnwyd gan Menter Iaith Cymru. Roedd yn lawer o hwyl ac yn gyfle arbennig i ddysgu mwy am Gymru. Diolch yn fawr i Ysgol Brynsaron am y croeso.

Diolch

Dymuna Caryl Jacob, Frondeg ddiolch i bawb am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd.

Dymuna Caryl hefyd ddiolch i bawb a wnaeth ei noddi wrth iddi godi arian tuag at Ymchwil Cancr Cymru, Cangen Llambled a Llanybydder, drwy redeg hanner marathon Caerdydd. Hoffai ddiolch yn arbennig i Mrs Jane Wyn, Mrs Delor James a Mrs Edwina Rees Ysgol Bro Pedr, am fod yn gymorth mawr iddi drwy helpu trefnu stondin gacennau mewn amryw o foreau coffi. Diolch hefyd i holl staff a phlant yr ysgol am ei noddi a phrynu cacennau.

Trwy'r holl garedigrwydd a'r gefnogaeth, mae Caryl wedi codi swm o £1,116 tuag at yr elusen teilwng hwn. Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth, rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Gwasanaeth Carolau

Prynhawn 24 Rhagfyr, roedd seiniau carolau dathlu'r Nadolig i'w clywed yn eglwys hynafol Sant Padrig. Hyfryd oedd gweld cynifer o blant yn cydganu.

Diolch i'r unawdwyr a'r darllenwyr. Diolch i Mrs Carys Griffiths-Jones am roi o'i hamser eleni eto i chwarae'r organ. Diolch i'r rheiny am bob cymorth wrth harddu'r eglwys a pharatoi'r te blasus gan roi cyfle i ni gyd gael mwynhau yng nghwmni ein gilydd ar drothwy gŵyl y geni.

Calennig

Braf oedd gweld cymaint o blant yn galw heibio i ganu a chasglu calennig eleni eto gan gadw'r traddodiad o ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi a phawb sydd yn y tŷ. Blwyddyn Newydd Dda.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Chloe Jones, Cysgod y Graig am basio Gradd 3 ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music' gyda chlod. Cafodd Chloe farciau llawn yn y theori hefyd.

Clwb Clonc

Chwefror 2017

£25 rhif 111 : Mrs Shan Davies, 15 Bro Grannell, Llanwnnen.

£20 rhif 355 : Dafydd Lewis, Pantmeiniog, Cwmann.

£15 rhif 521 : Tegwen Williams, Wyngarth, Cwmann.

£10 rhif 288 : Eric Jones, Hafod-yr-Wyn, Gorsgoch.

£10 rhif 291 : Owain, Lois a Luned Jones, Blaenhirbant-Uchaf, Cwmsychpant.

£10 rhif 527 : Mrs Margaret Wilson, Brynsiriol, Alltyblaca.

£5 rhif 504 : Alun Williams, Rhydlydan, Llanwrda.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro? Ceir prisau rhesymol iawn gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.

C.Ff.I. Ceredigion.

Bu CFFI Ceredigion yn brysur tu hwnt yn arwain at y Nadolig, gyda chystadlu brwd.

Barnu Stoc. Yn gyntaf ar galendr y gaeaf oedd y Ffair Aeaf a llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod i'r brig. Barnu Gwartheg Cigyddion: Elizabeth Harries – 2il dan 26 oed; Ceredigion – Sed. Barnu Carcas Wyn: Huw Lewis – 3ydd dan 21 oed; Steffan Rattray – 2il dan 16 oed; Ceredigion – 3ydd. Barnu Wyn Cigyddion: Sion Ellis – 3ydd dan 26 oed; Laura Evans – 3ydd dan 18 oed; Ceredigion – 3ydd. Trin Dofednod: Caryl Morris – 3ydd. Torri Cyw Iâr: Caryl Morris – 1af. Canlyniad Terfynol y Barnu Stoc – Ceredigion 2il.

Siarad Cyhoeddus Saesneg. Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y mudiad ar Gampws Theatr Felinfach ar 4 Rhagfyr. Diolch yn fawr i noddwyr y diwrnod, Siop Inc, Aberystwyth.



Y Darlennydd Gorau dan 14 oed oedd Gwion Ifan, Pontsian a Beca Jenkins, Pontsian yn Gadeirydd Gorau dan 14 oed ac hefyd enillydd y darian ar gyfer y pleidlais o ddiolch yn y gystadleuaeth dan 16 oed.

Beirniad cystadleuaeth yr adran ddarlennu i aelodau 14 oed neu iau oedd Mrs Doris Jones, Capel Isaac gyda 10 tîm yn cymryd rhan. Cadeirydd: 1af Beca Jenkins, Pontsian A; 2il Hanna Davies, Llanwenog D; 3ydd Hanna Parry, Pontsian A. Darlennydd: 1af Gwion Ifan, Pontsian A; 2il Beca Jenkins, Pontsian B; 3ydd Sioned Fflur Davies, Llanwenog C. Tîm: 1af Pontsian A; 2il Llanwenog D; 3ydd Pontsian B.

Beirniad cystadleuaeth yr adran ganol, 16 oed neu iau, oedd Mr Mark Williams AS, Aberystwyth gyda 5 tîm yn cystadlu. Cadeirydd: 1af Catrin Rees, Mydroilyn A; 2il Ffion Evans, Llanwenog; 3ydd Ifan Jones, Pontsian. Siaradwr: 1af Gethin Jenkins, Mydroilyn A; 2il Alpha Evans, Llanwenog; 3ydd Lisa Evans, Bro'r Dderi. Diolchydd: 1af Beca Jenkins, Pontsian; 2il Dion Davies, Mydroilyn A; 3ydd Briallt Williams, Llanwenog. Tîm: 1af Mydroilyn A; 2il Llanwenog; 3ydd Bro'r Dderi.

Beirniad y gystadleuaeth Seiat Holi i aelodau 21 oed neu iau oedd Miss Kate Miles, Gwent â 3 tîm yn cystadlu. Cadeirydd: 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Sioned Davies, Llanwenog. Siaradwr: 1af John Jenkins, Lledrod; 2il Rhys Davies, Llanwenog; 3ydd Meleri Morgan, Llangeitho. Tîm: 1af Lledrod; 2il Llanwenog.

Bu 9 tîm yn cystadlu yng nghystadleuaeth olaf y dydd i aelodau 26 oed neu iau. Beirniad y gystadleuaeth oedd Mr Delme Harries, Puncheston. Cadeirydd: 1af Meleri Morgan, Llangeitho; 2il Liz Harries, Pontsian A; 3ydd Aled Davies, Caerwedros A. Siaradwr: 1af Cennydd Jones, Pontsian A; Cydradd 2il Lisa Jones, Pontsian A ac Elin Haf Jones, Llanwenog. Tîm: 1af Pontsian A; 2il Llangeitho; 3ydd Mydroilyn.

C.Ff.I. Llanwenog enillodd Cwpan Her Emrys Jones gyda'r nifer uchaf o bwntiau ar ddiwedd y dydd, gyda chlwb Pontsian yn 2il, a chlwb Mydroilyn yn 3ydd. Llongyfarchiadau i bawb a phob lwc i'r holl enillwyr a fydd yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru ar 1 Ebrill ar Faes y Sioe, Llanelwedd.

Parti Blynnyddol Staff a Swyddogion y Sir. Aeth Staff a Swyddogion y Sir am barti Nadolig ar 17 Rhagfyr, lle gwelwyd amrywiaeth o wisgoedd ffansi o gracyr Nadolig, i ddynes eira, i Mair a Joseff a hyd yn oed pwddin Nadolig. Diolch yn fawr i Anne a Tomos yn y swyddfa am drefnu'r diwrnod gyda pawb wedi mwynhau mas draw.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg ar gampws Theatr Felinfach ar ddydd Sul, 22 Ionawr. Dyma'r canlyniadau:

14 oed neu iau - Cadeirydd gorau: 1af Siôn Wyn Evans, Felin-fach; 2il Beca Jenkins, Pontsian; 3ydd Gwen Down, Talybont A. Darlennydd gorau: 1af Sioned Fflur Davies, Llanwenog B; 2il Gwen Down, Talybont A; Cydradd 3ydd Glesni Morris Llangwryfon; Beca Jenkins, Pontsian a Siôn Wyn Evans, Felin-fach. Tîm gorau: 1af Pontsian; 2il Llanwenog B; 3ydd

Lledrod. Diolch i Mr Edryd Eynon am feirniadu.

16 oed neu iau - Cadeirydd gorau: 1af Ffion Evans, Llanwenog A; 2il Wiliam Jenkins, Lledrod; Cydradd 3ydd Marged Ioan, Caerwedros C a Gethin Jenkins, Mydroilyn B. Siaradwr gorau: 1af Twm Ebbsworth, Llanwenog B; 2il Glesni Morgan, Talybont; 3ydd Beca Jenkins, Pontsian. Diolchydd gorau: 1af Ffion Williams, Lledrod; 2il Hanna Davies, Llanwenog B; Cydradd 3ydd Eleri Griffiths, Talybont a Briallt Williams, Llanwenog B. Tîm gorau: Cydradd 1af Llanwenog A a Llanwenog B; 3ydd Lledrod. Diolch i Mr Iwan Meirion am feirniadu.

21 oed neu iau - Cadeirydd gorau: 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Carwyn Davies, Llanwenog A; 3ydd Carys Jones, Bro'r Dderi. Siaradwr gorau: 1af Meleri Morgan, Llangeitho; Cydradd 2il Rhys Davies, Llanwenog B a Sioned Davies, Llanwenog A. Tîm gorau: 1af Llanwenog A; Cydradd 2il Lledrod a Llangeitho. Diolch i Miss Elin Jones A.C. am feirniadu.

26 oed neu iau: Cadeirydd gorau: 1af Elen Lloyd-Jones, Pontsian A; 2il Meleri Morgan, Llangeitho; 3ydd John Jenkins, Lledrod. Siaradwr gorau: 1af Cennydd Jones, Pontsian B; 2il Endaf Griffiths, Pontsian B; Cydradd 3ydd Dafydd Morgan, Pontsian A a Elin Haf Jones, Llanwenog. Tîm gorau: 1af Llangeitho; 2il Pontsian B; 3ydd Pontsian A. Diolch yn fawr i Mrs Wendy Phillips am feirniadu.

Canlyniadau Terfynol Siarad Cyhoeddus Cymraeg:

1af Llanwenog; 2il Lledrod; 3ydd Llangeitho.

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu.

Digwyddiadau i ddod.

26 Chwefror – Cyfveliadau Aelod Hŷn ac Aelod Iau

12 Mawrth – Cyfveliadau Brenhines, Ffarmwr Ifanc a Dirprwyon

15 Mawrth – Pwyllgorau'r Sir

17 Mawrth – Dawns Dewis Swyddogion

27 Mawrth – Cwis iau'r Sir

Trefnydd newydd C.Ff.I Sir Gâr

Ar drothwy'r flwyddyn, fe ddaeth newidiadau mawr i swyddfa Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. Ar ôl deugain mlynedd fel Trefnydd y Sir, daeth cyfnod Mrs Eirios Thomas fel Trefnydd i ben. Mae Eirios wedi ymroi i'r swydd yn llawn ers y cychwyn cyntaf, ac mae ein dyled ni fel swyddogion ac aelodau'r Sir yn enfawr iddi am ei holl waith caled a chydwybodol, gan wneud Sir Gâr yn un o'r siroedd mwyaf llewyrchus a llwyddiannus, nid yn unig yn Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Cymru, ond yn genedlaethol ar draws Lloegr hefyd. Mae hi bob amser wedi gwneud ei gorau dros yr aelodau gan sicrhau profiadau bythgofiadwy ac mae'n diolch ni yn fawr iddi am hynny.

Fel Cadeirydd y Sir, ac ar ran yr holl swyddogion eraill ac aelodau, hoffwn ddymuno'n dda i Eirios i'r dyfodol gan obeithio y gwnaiff fwynhau ymdeoliad llwyr deilwng a hapus. Mae wedi bod yn bleser cyd-weithio gyda hi dros fy nghyfnod fel swyddog yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Capel Iwan a hefyd fel swyddog yn y Sir dros yr wyth mlynedd diwethaf. Bydd colled mawr ar ôl ei ffordd ddihafal a'i phrofiad a gwybodaeth gwerthfawr.

Er bod Eirios wedi gorffen fel Trefnydd, fe fydd yn gweithio'n rhan amser yn y Swyddfa am ychydig o fisoedd eto gan roi help llaw i'r Trefnydd newydd ac i wneud yn siwr bod y trosglwyddiad yn un diffws.

Yn cymryd at rôl y Trefnydd Sir mae Mr Rhodri Lewis. Mae Rhodri wedi bod yn gweithio yn swyddfa'r Sir ers rhyw 8 mis bellach fel Swyddog Gweinyddol a Marchnata, ond mae wedi cymryd at rôl y Trefnydd ers dechrau'r flwyddyn.

Mae Rhodri yn 24 mlwydd oed ac yn byw ym mhentref Efailwen sydd ar y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Addysgwyd Rhodri yn Ysgol Beca, Efailwen ac yna Ysgol y Preseli cyn mynd ymlaen i ennill gradd y Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Mae gwreiddiau Rhodri'n ddwfn ym myd y Ffermwyr Ifanc ac mae'n aelod o glwb C.Ff.I. Hermon, Sir Benfro ers yn ddeuddeg oed. Yn ei amser hamdden, mae wrth ei fodd â chwaraeon ac yn chwarae pêl-droed i Glwb Llanboidy.

Gyda 24 o glybiau ar draws Sir Gâr a thros 800 o aelodau, mae Rhodri yn edrych ymlaen i fynd o'u hamgylch i gwrdd â'r aelodau a thorri cwys ei hun yn ei swydd newydd. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gydag ef dros weddill fy nghyfnod fel Cadeirydd y Sir, ac ar ran holl swyddogion y Sir a'r aelodau, dymuniadau gorau iddo, gan edrych ymlaen at y deugain mlynedd nesaf!

Iestyn Davies

Cadeirydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr 2016-2017.



Gorsgoch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Mr Eric Jones a'r merched Hafod-yr-ŵyn ar golli priod a mam annwyl yn Mrs Ray Jones. Preifat bu'r angladd a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Capel Brynhafod.

18 oed

Dathlodd Iwan Evans, Parc y Rhos ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Rhagfyr. Pob dymuniad da i ti Iwan i'r dyfodol.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn Neuadd yr Hafod, lle daeth llond lle o bobl i brynu nwyddau a chreffftiau Nadoligaidd. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn a diolch i bawb am gefnogi.

Gymanfa Garolau a Gwasanaeth Nadolig

Daeth criw ynghyd i Gapel Brynhafod cyn y Nadolig i ganu carolau o dan arweiniad Enfy Davies. Diolch i barti Perleisiau am eu heitemau ac i Carys Evans am gyfeilio i'r noson. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Yn ystod y Sul cyn y Nadolig, cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig

a daeth y dyn ei hun, Sion Corn i'n gweld yn y festri. Cafwyd digon o fwyd a the i ddilyn.

Diolch

Dymuna Eric, Llinos a Ceris, Hafod-yr-ŵyn ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Ray. Diolch hefyd i bawb am y rhoddion caredig ac fe gasglwyd £650 tuag at Gofal Croesffyrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru. Diolch yn fawr iawn.

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog

Cynhaliwyd Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yng Nghewn Hafod, Gorsgoch, ar y 7fed o Ionawr. Daeth swyddogion a chefnogwyr y Sioe ynghyd i wledda ar fwyd blasus Eiddwen ac i fwynhau hanesion y Parchedig Wyn Thomas, Cwmdyllest. Prif elusen Sioe 2016 oedd Uned Niwroleg Ysbyty Treforys, a braf oedd medru cyflwyno sic o £3,500 iddyn nhw er mwyn prynu offer asesu. Hefyd, cyflwynwyd sicciau o £500 yr un i Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, a C.Ff.I. Llanwenog. Diolchwn i bawb unwaith yn rhagor am eu gwaith caled, cefnogaeth a'u haelioni.

Cwrtnewydd



Cynhaliwyd rownd yr ysgol o 'Cogurdd'. Cafwyd cystadleuaeth arbennig iawn a phob un o'r merched wedi rhoi ymdrech wych. Bu Miss Jo ein cogyddes yn beirniadu gyda Elan Jenkins yn dod yn gyntaf, Sara Davies yn ail a Luned Jones yn drydydd. Bydd Elan yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf yn Llambod ar 15 Chwefror. Pob lwc i ti.

Ysgol Cwrtnewydd

Ein sioe Nadolig ni eleni oedd 'Bant a ni i Fethlehem'. Sioe yn adrodd y trafferthion gafodd Jo a Mair wrth geisio cyrraedd Bethlehem. Ar ddiwedd y noson, cafwyd cyfle i fwynhau mins pei, gwin mwill a chlonc. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cyn gorffen am wyliau'r Nadolig, cafwyd holl blant yr ysgol 'treat' arbennig iawn gan Bwyllgor Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd gan eu bod wedi talu iddynt fynd i'r sinema yn Aberystwyth i wyluo'r ffilm 'The Secret Life of Pets' ac yna draw i Westy Llety Parc i fwynhau pryd blasus. Dim byd yn well! Diolch yn fawr i'r pwyllgor am ei haelioni.

Ar ddiwedd y tymor, daeth yr hen ŵr a'i farf wen i'n parti Nadolig. Mae e'n cofio am blant Cwrtnewydd yn flynyddol chwarae teg ac roedd ganddo anrhegion i bawb eleni eto. Braf oedd cael croesawu plant Cylch Ti a Fi i ymuno gyda ni hefyd. Roedd digonedd o fwyd gyda ni a chyfle i ddawnsio a mwynhau. Pa well ffordd i fwynhau diwedd y tymor.

Braf yw cael croesawu dwy ferch fach newydd i'n plith yn y Cyfnod Sylfaen ar ddechrau'r flwyddyn. Mae Manon Gruffudd a Megan Sisto wedi llwyr ymgartrefu gyda ni erbyn hyn. Croeso i chi eich dwy.

Mae plant Cyfnod Allweddol dau yn derbyn sesiynau wythnosol gan Janet o 'Bible Explores' ac hefyd yn cael sesiynau rygbi gan Jac Rees, Swyddog Datblygu Rygbi.

Cafwyd ymweliad gan y Parchedig Wyn Thomas i ddosbarth Cyfnod Allweddol dau ar ddechrau'r tymor. Bu'n siarad

gyda'r plant am weddio a chafodd pawb sesiwn arbennig. Dymunwn wellhad buan iawn i'r Parchedig Wyn Thomas.

Aeth tîm o blant yr ysgol i gystadlu yn nhwrnament pêl rwyd a drefnwyd gan yr Urdd yng nghanolfan hamdden Llambod. Fe wnaeth y tîm yn arbennig o dda a chyrraedd y rownd gyn-derfynol.

Erbyn hyn rydym wedi ail gychwyn clwb yr Urdd yn yr ysgol a byddwn yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor yma yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod.

Bydd cyfarfod i drefnu dathlu addysg Ysgol Cwrtnewydd ar nos Fercher, 8 Mawrth am 7.30yh yn neuadd yr ysgol. Croeso cynnes i bawb a gwerthfawrogwn syniadau ar gyfer y trefniadau.

Symud o'r pentref

Erbyn hyn mae Walter Harries, Clarence House wedi ymadael a'r pentref ac wedi setlo yng nghartref Maes y Felin, Drefach ac yn ymgartrefu yn iawn.

Symud i'r Pentref

Yn ystod y mis aeth heibio mae trigolion newydd wedi cyrraedd pentref Cwrtnewydd. Croeso mawr i berchnogion Clarence House a Penlan Cottage. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Ymddeol o'r Fferm

Yn ystod mis Rhagfyr ymddeolodd Lyn ac Eileen Rees o Tanrhos i fyngalo hardd, Awel y Rhos, a adeiladwyd ar dir y fferm. Iechyd da i chwi eich dau gan obeithio y cewch iechyd da i fwynhau yno am flynyddoedd maith.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Enid Davies, Esgerlygoer yn teimlo yn well erbyn hyn gan iddi dreulio peth amser mewn gwahanol ysbytai yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cydymdeimlo

Yn ystod yr wythnosau diwethaf collodd Lyn Rees, Awel y Rhos a'r teulu ewythr a oedd yn byw yn ardal Caerfyrddin.

Ar ddiwedd mis Ionawr daeth y newyddion am farwolaeth Nancy Williams, Rhiwllug, Tregroes - chwaer i Mrs Ray Evans, Brynhogfaen a modryb hoffus i Evan David.

Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr i chi i gyd.

Gor-ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Hefin a Mary Jenkins, Cathal ar ddod yn hen ddatcu a mamgu wrth i'w hŵyr Steffan a Sara gael mab bach ar ddechrau 2017 - Gwion Alan.

Clwb Bowllo Llambod



Enillwyr cystadlaethau blynyddol Clwb Bowllo Llambod gyda Mr Gwyn Lewis, Llywydd a'i wraig Bethan. Hefyd yn y llun mae Anita Williams (Dewisydd Cymru) a Beryl Jenkins (Llywydd Cymdeithas Bowllo Merched Cymru).

Yn mis Rhagfyr bu Anwen Butten o Glwb Bowllo Llambod allan yn Christchurch yn Seland Newydd i gynrychioli Cymru yn Mhencampwriaethau Bowllo'r byd. Roedd yn chwarae yn y triawdau gyda Kathy Pearce o Berriew a Emma Woodcock o Gaerdydd ac ar ôl chwarae naw gem yn y rowndiau, aethant ymlaen i guro Lloegr yng ngêm y chwech olaf, ac yna ymlaen a churo Malaysia yn y rownd cyn derfynol. Cyrraedd y rownd derfynol a cholli yn erbyn Awstralia.



Llongyfarchiadau mawr i Anwen am ennill medal arian a dod yn ôl a medal arall i Llambod.



Ras y Mast

Roedd hi'n dipyn o destun siarad ar ddechrau ras 2016 wrth i Andreas Jones, a oedd yn dal record y cwrs ers 2009 gyda'i amser anhygoel o 38.58, ddychwelyd i roi cynnig arni unwaith eto. Mae hon yn ras arbennig sy'n agos i 7 milltir gyda rhan fwyaf o'r ras oddi ar yr heol darmac. Er ei bod hi'n heriol ac yn codi ofn ar rai pobl, mae hi'n sicr yn ras gwerth chweil a ddylai fod ar "bucket list" unrhyw redwr.

Roedd hi'n frwydr i'r diwedd rhwng y ddau frawd Andreas a Felipe, a Sion Price, Sarn Helen, ond Andreas groesodd y llinell gyntaf mewn 41.35 gyda Sion yn agos iawn iddo mewn 41.56 a Felipe Jones, Sarn Helen yn 3ydd ond yn 1af i ddynion dros 40 mewn 42.41. Aeth y 3ydd dyn agored i Ryan Jenkins, Carmarthen Harriers mewn 43.46, gyda'r 2il a'r 3ydd i ddynion dros 40 yn mynd i gyd aelodau Sarn Helen, Daniel Hooper 45.37 a Glyn Price 46.26. Yn nosbarth y dynion dros 50, Dave Powell, Aberystwyth AC oedd yr enillydd mewn 49.29 gyda Calvin Williams, Sarn Helen yn 2il mewn 50.57 a Richard Marks, Sarn Helen yn 3ydd mewn 53.28.

Yn ras y merched, Louise Barker, Aberystwyth AC oedd yr enillydd am y 6ed blynedd yn olynol gydag amser o 53.08 gyda'r 2il yng nghategori'r merched dros 35 yn mynd i Eleri Rivers, Sarn Helen mewn 58.57 a'r 3ydd i Pamela Carter, 72.46. Yn ennill categori'r merched agored oedd Megan Artemova Thomas mewn 53.44 gyda Dee Jolly, Sarn Helen yn 2il mewn 54.03, a chwaer Megan, Nesta Thomas yn 3ydd mewn 65.10. Rhedwraig brofiadol Sarn Helen, Dawn Kenwright gipiodd categori'r menywod dros 45 mewn 63.13, gyda rhedwraig brofiadol arall o glwb Castell Newydd Emlyn, Lon Morgan yn 2il mewn 68.55 a Helen Willoughby, Sarn Helen yn 3ydd mewn 71.06. Canlyniadau eraill o Sarn Helen oedd: Gareth Hodgson 45.20, Llewelyn Lloyd 45.35, Simon Hall 46.24, Carwyn Davies 48.43, Michael Davies 51.10, Thomas Willoughby 51.48, Tomos Morgans 52.35, Tony Hall 53.28, George Eadon 54.14, Murray Kisbee 55.54, Mick Taylor 56.21, Dorian Rees 57.10, Huw Price 57.55, Mitchell Readwin 59.40, Eric Rees 65.27, Joseff Thomas 65.36, Heather Hughes 74.34, Jenny Caulkett 75.21, Emma Davies 98.48.



Brenin yr "Ultras"

Ar 3 Rhagfyr, cynhaliwyd yr olaf yng nghyfres "May Contain Nuts" gyda phellter o 42 milltir dros fynyddoedd Bannau Brycheiniog. Dyma'r 3ydd tro i'r rhedwr "ultra" profiadol Nigel Davies gymryd rhan yn y ras, ac er fod Carwyn Davies yn rhedwr marathon profiadol, dyma'i ymgais gyntaf ef i redeg "ultra". Gyda dringfa o 8,500 troedfedd, mae'r rhedwyr yn cyrraedd copa Pen y Fan nid unwaith, ond ddwywaith ar filltir 24 a 28. Allan o 83 o redwyr, gydag ond 70 yn croesi'r linell derfyn, fe orffennodd y ddau gyda'i gilydd mewn 9 awr 14 munud yn y 13eg safle ac yn nawfed yng nghategori y dynion dros 40. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Canlyniadau eraill

Ar ddydd Sul, 18 Rhagfyr cynhaliwyd Ras "Sion Corn" yng Nghrymch a Llambled gyda phawb yn hwyl yr ŵyl. Fe wnaeth y brodyr Tomos a Daniel Morgans redeg y cwrs 4.2 milltir yng Nghrymch gyda Tomos yn gorffen yn y 3ydd safle mewn 28 munud a Daniel yn gorffen yn y nawfed safle mewn 32 munud.

Yn Llambled, cynhaliwyd ras 5k newydd sbon a chafodd ei threfnu gan un o aelodau'r clwb, Helen Willoughby. Roedd hi'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn a'r arian a gasglwyd yn mynd at Ysgol Feithrin Carreg Hirfaen a Llansawel. Enillydd y ras oedd Ken Caulkett mewn 17.23 gydag Eleri Rivers yn ennill ras y merched mewn 22.41 a Daniel Willoughby yn gyntaf allan o'r ieuenctid mewn 21.48. Yng Ngrymch ar Ŵyl San Steffan, aeth rhai aelodau'r clwb i redeg y ras 6 milltir. Gorffennodd Simon Hall yn 4ydd mewn 37.24, Tomos Morgans yn 1af allan o'r ieuenctid mewn 42.09, Dee Jolly yn 1af i ferched agored mewn 43.04 a Mitchell Readwin yn gorffen

mewn 47.33.



Ar 28 Rhagfyr, cynhaliwyd ras 7 milltir y "Seven Sins" yn Forest of Dean. Enwir y ras ar ôl y 7 dringfa serth yn ystod y cwrs ond nid oedd hyn yn codi bwganod ar y 127 o redwyr a oedd yn cynnwys 3 o redwyr Sarn Helen, Carwyn Davies, a oedd yn dychwelyd am y pedwerydd tro, a'r gŵr a'r wraig Mark ac Eleri Rivers. Croesodd Carwyn y llinell derfyn mewn 1 awr 2 funud yn y 27ain safle gyda Mark Rivers yn gorffen mewn 1 awr 6 munud ac Eleri yn rhedeg munud yn gynt na'i hamser llynedd mewn 1 awr 10 munud. Cafodd Caryl Wyn Davies ei amser gorau mewn ras 5k ar Nos Galan sef 21 munud 21 eiliad.

Canlyniadau'r plant

Gwelwyd bron 30 o blant yn mwynhau cymryd rhan yn y rasmus plant cyn Ras y Mast. Enillodd Rhys Williams, Sarn Helen y ras dan 12 ddwy flynedd yn olynol gyda'i amser gorau eleni o 5.08, gyda llai nag eiliad yn gwahaniaethu'r 2il a'r 3ydd, Steffan Davies, Carmarthen Harriers 5.16.42 a Rhodri Gregson, Sarn Helen 5.16.82. Nia Lewis, Aberystwyth AC gipiodd ras y merched cynradd mewn 6.18 gyda chyd aelodau Sarn Helen yn brwydro am yr 2il a'r 3ydd safle, Leah Regan yn gorffen mewn 6.26 a Beca Jones mewn 6.29. Canlyniadau eraill y ras gynradd o Sarn Helen oedd: Liam Regan 5.53, Sean Wood 6.28, Nia Williams 6.34, Iestyn Stephens 6.37, Tomos Godfrey 6.41, Jac Rees 7.13, Charley Wood 7.53, Amy Watkins 8.33.

Dim ond 5 dewr a fentrodd ar y ras uwchradd gyda Gwion Payne, Sarn Helen yn fuddugol mewn 10.55 a Trystan Williams yn 2il mewn 11.30. Alaw Jones, Sarn Helen yn ennill ras y merched mewn 11.49, Chloe Lewis 2il mewn 14.56 ac Isabella Caulkett, Sarn Helen yn 3ydd mewn 15.48.

Cellan

Cartref Newydd

Braf yw deall bod Lena Daniel, Llys Barcud gynt wedi ymgartrefu yn ei chartref newydd yn Aberaeron dyddiau cyn y Nadolig. Gobeithio y byddi yn hapus yno.

Carolau'r Plwyf

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau'r Plwyf yng Nghapel yr Erw eleni o dan lywyddiaeth Ken Jones. Cymerwyd at y Weddi a'r Fendith gan y Parch Bill Fillery, Offeiriad Eglwys y Plwyf.

Darllenwyd gan aelodau o Gapel yr Erw, Capel Caeronnen ac Eglwys y Plwyf. Cafwyd eitemau gan blant Ysgol y Dderi o dan ofal Lilian Jones a Hayley Davies ac unawd gan Beca Elan Ebenezer. Cafwyd adroddiad gan Gwenan Haf Jones ac unawd gan Siwan Mair Jones, y ddwy chwaer o Gaerfyrddin. Yr organyddion oedd Mary Jones a Catrin Jones. I orffen, cafwyd datganiad hyfryd o'r Plygain gan Aelodau Capel yr Erw.

Darparwyd lluniaeth yn y ferstri gan aelodau Sefydliad y Merched a gwnaed casgliad sylweddol tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

Cwmsychpant

Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I.

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a fu yn cystadlu boed o Glwb Pontsian neu o Lanwenog. Daeth llwyddiant mawr i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ar ennill 1af fel Cadeirydd dan 14oed ac yn aelod o dîm Pontsian a enillodd dan 14oed ac yn 1af fel Diolchudd dan 16oed. Bu sawl un arall yn cystadlu ond heb gyrraedd y brig y tro hwn.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I.

Ar ddiwedd mis Ionawr, cynhaliwyd y gystadleuaeth Gymraeg. Beca Jenkins – 2il fel Cadeirydd dan 14oed a cydradd 3ydd fel Darlennydd ac roedd hi, Lisa ei chwaer, a Rebecca Rees [wyres Roy Rees, Pantyrnnon] yn rhan o dîm buddugol C.Ff.I. Pontsian dan 14oed. Cafodd Beca hefyd 3ydd fel siaradwr dan 16oed.

Llongyfarchiadau i Endaf Griffiths, Penlanfawr ac aelod o G.Ff.I. Pontsian a gipiodd yr 2il wobwr fel siaradwr dan 26oed. Roedd ef yn aelod o'r tîm a ddaeth yn 2il i Bontsian.

Hefyd roedd Sioned Davies, Llys y Wawr a Rhys Davies, Tyngrug Isaf ac aelodau o G.Ff.I. Llanwenog a ddaeth yn gydradd 2il fel siaradwyr dan 21oed. Roedd Carwyn Davies yn 2il fel Cadeirydd dan 21oed – roedd y tri ynghyd a Meleri Davies, Tyngrug Isaf yn aelodau o dîm buddugol Clwb Llanwenog dan 21oed.

POB LWC i bawb a fydd yn cynrychioli Ceredigion ar lefel Cymru ar ddechrau mis Ebrill.

Oedfa Garolau

Cynhaliwyd Oedfa Garolau yng Nghapel y Cwm ar nos Sul, 4 Rhagfyr wedi ei threfnu gan Lleisiau Bro Eirwyn. Arweiniwyd y canu gan



Cwrdd Bore Nadolig

Yn ôl yr arfer, daeth cynulleidfau teilwng iawn o tua 70 i'r Cwrdd Nadolig yng Nghapel y Cwm. Cymerodd plant yr Ysgol Sul at y rhannau arweiniol gyda'r Parch Wyn Thomas yn gweinyddu'r cymun i bawb. Einir Ryder, Tyngrug-ganol oedd wrth yr organ. Diolchodd Parch Wyn Thomas i Einir ac i'r plant a'r ieuencid a fu'n cymryd rhan.

Eleri Samson a'i gŵr Dorian oedd yn cyfeilio wrth yr organ. Cafwyd datganiadau gan Lleisiau Bro Eirwyn ac hefyd gan Bois 'Ar Wasgar' o ardal Pumsaint. Yn ystod yr Oedfa, trosglwyddodd Lleisiau Bro Eirwyn sicc o £1,750 i Uned y Llygaidd yn Ysbyty Glangwili. Daethpwyd i'r swm yma o elw Sioe Ffasiwn ym mis Hydref ac elw'r oedfa garolau yma yn y Cwm. Roedd y tair cynrhychiolydd o Glangwili yn ddiolchgar tu hwnt am y swm anrhydeddus yma wrth Lleisiau Bro Eirwyn. Y Parch Wyn Thomas rhoddodd y fendith ar ddiwedd yr Oedfa. Diolch i bawb am gefnogi a gosod naws hyfryd at y Nadolig.

Coeden Nadolig Ysgol Sul

Gan bod wythnos o wyliau cyn y Nadolig, daeth pawb i ben a dod i festri Capel y Cwm i weld Sion Corn ar y nos Fercher cyn y Nadolig. Roedd 22 o blant a ieuencid yn derbyn anrhegion gan Sion Corn ac

roedd pawb yn falch iawn o'i weld. Diolch i Sion Corn am ymweld a phlant Ysgol Sul y Cwm unwaith yn rhagor.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod John Jones, Penrheol yn well erbyn hyn ar ôl iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hefyd, i Betty Evans, Caerau Bach a fu'n anhwylyd yn ddiweddar.

Gobeithio y bydd gweinidog Capel y Cwm, Parch Wyn Thomas yn gwella'n ara deg yn dilyn ei ddamwain a gafodd yn ystod mis Ionawr.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyr a Mary Jones a'r teulu oll, Penrheol yn dilyn colli ei modryb Mrs Mari Jones, Garej Ffos y Ffin yn ddiweddar yn 91oed. Bu'r angladd yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn.

Mwnici ffwnici



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnici@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi

Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

HURIO HEN LESTRI

Ar gyfer unrhyw achlysur



Te prynhawn

Prîodas

Parti

Dathliad arbennig

Rhifau cyswllt

01570 480822 neu

07890 340958

nans1@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangbydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gathiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio



Gŵyl Gwrw a Seidr Llambod

18/2/17 12 - 11pm

Neuadd y Celfyddydau,
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llambod

**Ystod eang o gwrw a seidr
Adloniant byw • Lluniaeth ar gael**

Mynediad £3
gan gynnwys gwydr arbennig

www.facebook.com/lampeterbeerandciderfestival
www.lampeterbeerfestival.co.uk/CY/

I ddathlu 50 mlynedd o'r Ford Gron yn Llanbed

Siaradwr Gwadd: Nigel Owens

Cinio 3 cwrs & Cynhelir Ocsiwn Elusenol

Rhoddir elw'r noson i Ambiwylans Awyr Cymru

Ffreutur Lloyd Thomas,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbed

Tocynnau: £35 CROESO CYNNES I BAWB

Ar gael oddi wrth: 07791 629140
neu drwy dudalen Facebook Ford Gron Llanbed

28 / 3 / 17

Digwyddiad i'w gynnal yn yr uniaith Saesneg



Ford Gron Llanbedr Pont Steffan



Cymdeithasau lleol yn cyfrannu arian MAWR i elusennau



Codwyd **£1,000** i Sefydliad Aren Cymru gan Bwyllgor Pentref Cwmann yn Ffair Ram ar daith dractorau ar y diwrnod. Derbyniwyd y sic gan Mr Philip Lodwick ar ran yr elusen.



Wendy Evans, ar ran Neuadd yr Hafod, Gorsgoch yn cyflwyno sic i Uned Urology Ysbyty Glangwili. Codwyd **£170.25** yn y raffl yn ystod y noson Gŵyl Ddewi y llynedd.



Cinio Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog 2016

Prif elusen Sioe 2016 oedd Uned Niwroleg Ysbyty Treforys, a braf oedd medru cyflwyno sic o **£3,500** iddyn nhw er mwyn prynu offer asesu. Hefyd, cyflwynwyd sieciau o **£500** yr un i Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, a C.F.F.I. Llanwenog. Yn y llun mae (Chwith i Dde): Menna Williams, Byron Williams, Cerys Lloyd, Parch. Wyn Thomas, Gareth Evans, Eleri Davies, Kelly Harris a Katrin Morris, Gill a Daff Davies.



Yn ddiweddar, trosglwyddwyd sic o **£1,750.00** gan Aelodau Lleisiau Bro Eirwyn i Gaitree Teeluck, *Senior Sister*; Stephanie, *Enrolled Nurse* a Denise, *Unit Clerk* o Uned y Llygaid, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Cynhaliwyd Sioe Ffasiwn gan Ededa J yng Ngwesty Llanina ym mis Hydref a Chymanfa Garolau yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant yn ystod mis Rhagfyr. Dymuna'r aelodau ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd yn ystod y flwyddyn.



Carwyn a Non Edwards yn codi arian at achos da

Mae Carwyn a Non Edwards yn ymgychu am ystafell benodol i ddellio gyda galar yn Ysbyty Glangwili ac yn credu'n gryf byddai adnodd o'r fath yn helpu rhieni gyda'r trawma o golli eu plant yn dilyn y boen o golli eu hefeiliaid, Martha ac Olwen.

Aeth Carwyn a Non o Bumsaint ati i helpu Carwyn Davies i drefnu Hanner Marathon Pumsaint ar 18 Medi gyda dros 98 o redwyr yn cymryd rhan yn ogystal a ras hwyl a ras i'r plant.

Cyflwynwyd sic o **£8,377.25** i fydwragedd ward mamolaeth Dinefwr, Ysbyty Glangwili, mewn noson arbennig ar 16 Tachwedd yn y Brunant Arms, Caio, Llanwrda. Mae'r cyfanswm yn gyfuniad o arian a godwyd o'r hanner marathon, arian a godwyd gan Carwyn a Non a chyfraniadau wrth deulu, ffrindiau, sefydliadau a busnesau lleol. Bydd yr arian a godwyd yn mynd tuag at ystafell benodol i ddellio gyda galar, fydd yn fan arwahan o swm teuluoedd yn dathlu.

Llun: Carwyn Edwards, Non Edwards, Adele Roberts, Heulwen Roberts, Carwyn Davies



Cafodd C.f.f.I. Llanllwni noson cyflwyno sieciau yn ddiweddar. Trosglwyddwyd cyfanswm o **£3,380.71** ar y noson, sef yr holl arian a godwyd yn 2016 i elusennau gwahanol. Roedd yr holl waith caled wedi talu ffordd wrth gyflwyno £1,197.58 i Prostate Cymru yn dilyn y canu carolau; £2,081.93 i Ambiwllans Awyr Cymru sef y swm a godwyd yn y sioe a threialon cŵn defaid blyneddol; a £101.20 i'r clwb sef casgliad y cwrdd diolchgarwch blyneddol.

Cymdeithasau lleol yn cyfrannu arian MAWR i elusennau

O Fethlehem i'r Aifft

Ond 10 diwrnod cyn y Nadolig, llwyddodd staff a chefnogwyr yr elusen Cymorth Cristnogol i gwblhau siwrne o 140 milltir ar draws Cymru er mwyn Goleuo'r Ffordd ar gyfer y miliynau o bobl sydd yn ffoi trais a gwrthdaro dros y Nadolig. Mae'r fenter wedi codi swm anhygoel o bron i £20,000 hyd yn hyn. Cafodd y daith 12-diwrnod o hyd #FfoirAifft (dydd Sul 4 Rhagfyr – dydd Iau 15 Rhagfyr) ei threfnu er mwyn cyfeirio at y stori Nadolig lle mae Iesu a'i rieni yn ffoi o Fethlehem i'r Aifft, gyda'r cerddwyr yn teithio o Fethlehem, Sir Gâr i bentref bach Yr Aifft yn Sir Ddinbych, gan gynnal digwyddiadau ar hyd y daith. Daethant i ben y daith ym mhentref bach Yr Aifft yn Sir Ddinbych ar brynhawn ddydd Iau, 15 Rhagfyr. Cawsant eu croesawu yn hwyrach yn y nos gan y Gwir Parchedig Gregory Cameron, Esgob Llanelwy, ar gyfer gwasanaeth arbennig yng Nghadeirlan Llanelwy i nodi terfyn y daith. Gwelwyd cannoedd o gefnogwyr o ar draws Cymru yn gwisgo eu sgidiau cerdded er mwyn ymuno â'r grŵp o bump yn cerdded yr holl siwrne, sef Huw Thomas (Caerdydd), Anna Jane Evans (Caernarfon), Peredur Owen Griffiths (Caerffili), Nan Powell-Davies (Wyddgrug) ac Aled Edwards (Pontypridd). Ymhlith y cerddwyr oedd Elaine Davies o Lanwnnen. Ymunodd â'r criw am chwe diwrnod ac mae wedi casglu o gwmpas £1,000 o bunnoedd ei hunan wedi iddi gael ei hysbrydoli oherwydd yr achos. Meddai “Mae rhywun yn teimlo mor ddiymadferth am yr holl beth ac roedd ymuno â'r daith yn gyfraniad fechan dros godi ymwybyddiaeth a chodi arian.”

Ar hyd y daith o Dalyllychau i Lamed ac ymlaen i Lanfair Clydogau, bu rhagor o bobl leol yn cydgerdded. Darparwyd bwyd gan garedigion pwyllgor lleol Cymorth Cristnogol hefyd. Meddai Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, oedd yn cerdded yr holl siwrne: “Fe drefnom y daith yma i gerdded mewn undod â'r 65 miliwn o ffoaduriaid sydd yn dioddef ac er mwyn codi cefnogaeth ar gyfer gwaith hanfodol Cymorth Cristnogol sy'n cynnig gobaith a dyfodol gwell i bobl yn fyd-eang.

Ar hyd y ffordd, cafwyd cyfle i rannu storïau gyda chymunedau, ysgolion ac eglwysi gan roi cipolwg o'r sefyllfaoedd anobeithiol a wynebwr gan gymaint o bobl, a chafwyd y fraint o rannu newyddion ynglŷn â'r gwaith calonogol gan Cymorth Cristnogol.”



Dyma Elaine gyda Peredur a Huw.

A dyma'r pump a gerddodd y daith - Parch Nan Powell-Davies; Peredur Owen Griffiths; Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru; Parch Aled Edwards ac Anna Jane Evans - wedi cyrraedd Eglwys St Thomas yn Llamed. Bu pedwar o Aelodau Urdd Llamed - Sara Jones; Ifan Meredith; Beca Jones a Sara Elan Jones - yn cyflwyno siec i'r gronfa am £247.00 sef casgliad oedfa Sul yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghapel Shiloh yn ddiweddar.



Siec arbennig i R.A.B.I

Derbyniwyd hwb i gronfa pwyllgor yr elusen amaethyddol R.A.B.I Sir Gâr, wrth i Gymdeithas Hen Beiriannau Gorllewin Cymru (West Wales Vintage) gyflwyno siec am £1,000 i'r pwyllgor ar ddydd Gwener, 2 Rhagfyr ym mart Caerfyrddin. Codwyd yr arian trwy werthu tocynnau raffl mewn sioeau hen beiriannau ym Mhontargoethi. Dywedodd Gwynne Williams, cyd-gadeirydd pwyllgor R.A.B.I Sir Gâr: “Rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar iawn i West Wales Vintage am gyflwyno'r siec hael iawn i ni. Mae'n golygu cymaint i ni fod pobl yn cefnogi gwaith R.A.B.I oherwydd bod yr elusen yn gwneud cymaint o waith da mewn cymunedau ffermio. Cawsom lawer o hwyl yn gwerthu'r tocynnau raffl yn y sioeau ym Mhontargoethi. Rydym yn gwerthfawrogi pob cymorth o fewn y sir.”

Gweler yn y llun Euros Davies, Ffos y Gaseg, Cribyn, un o drefnwyr y sioeau hen beiriannau yn cyflwyno'r siec.



Mae merch ysgol 16 oed o Lamed wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer Macmillan ers i'w mam ddarganfod bod cancer y fron arni. Perswadiodd Tanwen Owen o Victoria Terrace, Llamed wyth o'i ffrindiau i gymryd rhan mewn ras bwdlyd 5km ym Mharc Singleton, Abertawe yn ystod yr haf, yn ogystal â chynnal bore coffi, er mwyn codi £1,500.

Bu'r teulu a llawer o ffrindiau yn coganio er mwyn cynorthwyo gyda'r codi arian a diolch i Macmillan am y gefnogaeth ragorol a dderbyniwyd ganddynt ers i mam Tanwen – Carol - ddeall am y salwch oedd arni nôl ym mis Chwefror llynedd. Gwelir Tanwen yn y llun a'i mam Carol Benjamin yn cyflwyno siec i reolwr codi arian Macmillan, Sue Reece.



Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu holl ddisgyblion y campws cynradd, ynghyd â chôr o'r Sector Hŷn, yn cymryd rhan yn sioe 'Scrumdiddlyumptious', Roald Dahl. Yn ystod y sioe, bu'r plant yn canu ac yn dawnio i eiriau adnabyddus allan o'r llyfrau Y Cawr Mawr Mwyn, Charlie a'r ffatri siocled, Mr Cadno a Matilda. Roedd gwyllo ffilmau gyda disgyblion blwyddyn 6 ac ambell i aelod o staff yn actio ynddynt yn ategu at y cyfanwaith. Diolch i'r holl ddisgyblion am y perfformiadau gwyth ac i bob aelod o staff ar draws y campws am eu hamryw gyfraniadau. Rhaid diolch yn arbennig i Mrs Sally Saunders a Miss Sandra Davies am eu gwaith diflino ac i Mrs Helen Williams am chwarae'r ffidil. Diolch hefyd i Brifysgol y Drindod Dewi Sant am gael defnyddio'r neuadd ac yn arbennig i Aled, Gareth, Anne a Mike am fod mor hawddgar ac amyneddgar gyda ni. Hyfryd oedd gweld Neuadd y Celfyddydau yn orlawn yn y prynhawn a'r nos gyda rhieni, llywodraethwyr, ffrindiau, disgyblion a'r ifanc o galon yn mwynhau'r cyflwyniadau byrlymus.



Mrs Delyth Hughes yn cyflwyno tystysgrifau a medalau i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr am ddarllen cyfres o lyfrau o'r llyfrgell leol. Daliwch ati i ddarllen blant.

Llwyddodd nifer o'n disgyblion i dderbyn tystysgrifau a medalau am fynychu'r llyfrgell leol ac am ddarllen nifer fawr o lyfrau. Diolch i Mrs Hughes o'r llyfrgell am drefnu ac am ddod atom i gyflwyno'r gwobrau.

Bu côr yr ysgol yn brysyr iawn yn canu mewn noson hwyr yn y dref ac hefyd yn perfformio yng ngwasanaeth Carol, Cerdd a Chân yn yr Eglwys. Diolch i'r holl ddisgyblion ac i Miss Bessent am arwain a Miss Sandra am gyfeilio.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 y cyfle i gwblhau cwrs beicio'n ddiogel a derbyn tystysgrif am wneud hynny – da iawn chi gyd.



Bu 14 o ddisgyblion yr ysgol yn brysyr yn coginio yng nghystadleuaeth Cogurdd a pleser o'r mwyaf oedd gweld gwaith pawb. Llongyfarchiadau mawr i Ifan am ennill, i Niah am ddod yn ail ac i Sara a Cerys ar ddod yn gydradd drydydd a diolch i Mr Aled Dafis am feirniadu.

Bu'r holl ddisgyblion yn gwyllo sioe a gyflwynwyd gan Bible Explorers a diolch i'r tîm cyfan am eu gwaith. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn derbyn gwersi gan dîm y Bible Explorers ac yn dysgu am y Beibl mewn ffordd fywiog a chyffrous.

Hyfryd oedd gwrando ar gerddorfa'r ysgol yn perfformio yn y gwasanaeth a diolch i'r holl athrawon teithiol am eu

gwaith diflino gyda'r disgyblion ac yn arbennig i Mrs Helen Williams am arwain y gerddorfa a Mrs Pauline Jones am gyfeilio.

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ennill cystadleuaeth cylch yr Urdd i ysgolion a diolch i Miss N Davies am eu hyfforddi. Pob lwc yn y gystadleuaeth Sirol.

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 draw yn yr orsaf ambiwlans yn dysgu am y gwaith sydd yn mynd ymlaen yno a diolch i Mr Huw Davies a'r staff am y croeso a'r cyflwyniadau diddorol.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon*

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew

Gwres canolog

Ystafelloedd ymolchi a cheginau

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Ysgol Bro Pedr – Campws Hŷn

Ysgrifennu Creadigol: Gŵyl H.G. Wells Folkestone. Llongyfarchiadau mawr i Alice Sargent a chafodd ei dewis ar gyfer rhestr fer y '2016 Margaret and Reg Turnill Prize' am ei stori fer 'Not Enough Space in this World'. Er ni enillodd, cafodd gymeradwyaeth arbennig am ei gwaith. Y thema eleni oedd 'Space' a dewisodd ysgrifennu am bwn cyfoes ffoaduriaid Syria a thipyn o gamp oedd iddi ysgrifennu eu hanes. Da iawn Alice!

Cystadleuaeth Mathemateg UKMT Hŷn:



Dyma ganlyniadau'r gystadleuaeth Mathemateg UKMT hŷn a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ddiweddar. Tystysgrif Arian: Ben Biddulph, Blwyddyn 13 (hefyd tystysgrifau gorau yn yr ysgol a gorau yn ei flwyddyn). Tystysgrifau efydd: Carys Williams, Blwyddyn 13; Jack Hulme, Blwyddyn 12 (hefyd tystysgrif gorau yn ei flwyddyn).

Real Business Challenge 2016/17:



Llongyfarchiadau mawr i'r criw Busnes o flwyddyn 10 ar eu llwyddiant diweddar yn rownd cyntaf y 'Real Business Challenge 2016/17'. Bu pedwar grŵp o'r ysgol yn cymryd rhan yn wreiddiol, yna grwpiau 'Geog Juice' a 'Jiwsee' yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr her. Llongyfarchiadau i'r grŵp Jiwsee, sef Bryn Jones, Sasha Evans, Sioned Fflur Davies, Amber Davies a Carys Evans, sydd wedi llwyddo i fynd i'r rownd derfynol yng Nghaerdydd. Bydd yn brofiad da iawn iddynt gael gweithio gyda mentoriaid o gwmni Coca Cola.

Taith Gwlad yr Iâ 2016:



Yn ddiweddar, bu criw o 41 o ddisgyblion o'r ysgol yn ymweld â Gwlad yr Iâ. Roedd pawb yn edrych ymlaen at y daith ers misoedd ac roedd y cyffro ar y bws yn amlwg. Cyrrhaeddodd maes awyr Gatwick, ac ar ôl hedfan am

dair awr, cyrraedd maes awyr Keflavik yng Ngwlad yr Iâ. Roedd y tywydd yn arw ac roedd pawb wedi blino'n lan. Wedi noson dda o gwsg roedd hi'n bryd ymweld â'r Blue Lagoon a dyma oedd uchafbwynt y daith i nifer. Yma cawson gyfle i nofio ac ymlacio mewn dŵr cynnes egni geothermol. Yn wir, roedd e fel bath! Bwrw am y brif ddinas wnaethom wedyn, crwydro'r dre a



gweld Eglwys Hallgrímskirkja. Roedd yn adeilad prydferth a thal a chawsom y cyfle i grwydro tu fewn yn ogystal.

Y diwrnod canlynol, aethom i Barc Cenedlaethol Thingvellir lle gwelsom y ffin adeiladol rhwng plât Ewrasia a Gogledd America. Roedd hi'n ddiddorol gweld hyn ar ôl i ni ei astudio yn yr ysgol. Cyfle wedyn i gael hoe a hufen iâ wedi ei wneud ar fferm Efsti-Dalur. Aethom i ymweld â'r Geysir lle roedd hi'n gyfle gwych i gael llun gyda un o ryfeddodau natur. Fe wnaethom hefyd ymweld â rhaeadr Gullfoss a oedd yn agoriad llygad gan ei fod mor fawr. Rhaeadr arall i

ni weld oedd Skogafoss a oedd ychydig yn llai. Y diwrnod canlynol, aethom i weld Reynishverfi, sef traeth oedd wedi ffurfio o ganlyniad i erydiad basalt. Caiff hefyd ei adnabod fel y 'Black Sand Beach'. Roedd rhewlif Solheimajokull yn agoriad llygad wrth i ni weld newid hinsawdd ar waith. Roedd y rhewlif hwn wedi encilio 30 metr mewn 3 mlynedd. Profiad gwych oedd cael y cyfle i gerdded tu ôl rhaeadr. Aethom i orsaf bŵer geothermol 6ed mwyaf y byd sef Gorsaf Bŵer Hellisheioi. Roedd yn ddiddorol dysgu sut roedd dŵr yn cael ei newid i drydan. Yna daeth ein diwrnod olaf yng Ngwlad yr Iâ. Yn y bore, aethom i weld goleudy hynaf Gwlad yr Iâ, a adeiladwyd yn 1878. Yng nghanol y gwynt a'r glaw, ymwelon ni â'r 'Bridge Between Two Continents' sef y ffin go iawn rhwng plât Ewrasia a Gogledd America. Amser i fynd tuag adref ac roedd y blinder wedi bwrw pawb, felly braf oedd cyrraedd nôl yn Llambod wedi pum diwrnod prysur a diddorol ar yr ynys tân a Iâ. (Adroddiad gan Ffion, Briallt ac Alpha, blwyddyn 12).

Llongyfarchiadau Carys! Llongyfarchiadau mawr i un o'n cyn-ddisgyblion, Carys Mair Jones, sydd wedi cael ei dewis fel un o sawl Llysgennad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer eleni. Cyfrannodd Carys yn ddiwyd a brwdfrydig at bob agwedd o fywyd yr Ysgol a bu'n swyddog gweithgar yn y chweched dosbarth. Tra'n yr Ysgol, fe'i dewiswyd i fynd ar alldaith gyda Mudiad yr Urdd i Batagonia. Fel Ysgol, dymuniadau gorau i Carys fel Llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni.



Catrin Schroder, disgybl Bl.9 o Ysgol Bro Pedr oedd enillydd Pencampwriaeth Slalom Cymru 2016 i ferched dan 13 oed. Enillodd Catrin hefyd Bencampwriaeth Slalom Dwbl Ganada Cymru mewn partneriaeth â Lili Bryant o Ysgol Bro Teifi. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Llandysul a drefnwyd gan Llandysul Paddlers.



Dyma Beca ac Elan, disgyblion ym mlwyddyn 9 Ysgol Bro Pedr, gyda Tim Rhys Evans, arweinydd côr Only Kids Aloud yn dilyn eu cyngerdd olaf fel côr yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r ddwy wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau fel aelodau o'r côr gan ganu ar sawl achlysur ar lwyfan Canolfan y Mileniwm, torri record gyda Shan Cothi, canu mewn cyngerddau gydag Only Men Aloud ac Only boys Aloud, cymryd rhan ym mhantomeim y BBC, perfformio yn fyw yn natliadau canmlwyddiant Roald Dahl a dathliadau degawd Canolfan y Mileniwm, yn ogystal a chael cyfleoedd i fwynhau cyrsiau preswyl yng nghanolfannau'r Urdd yn Llangrannog, Glanllyn a Chaerdydd. Profiadau gwerthfawr iawn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd – Jenny Thomas a'r teulu, Ardwyn a Carol Doughty a'r teulu, Caris a gollodd ei mam yn ystod y dyddiau diwethaf Mrs Nellie Williams, Stryd Newydd, Llambled. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr Len Jones, 42 Heol Hathren.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn yr ysbyty neu sydd yn anhwylyd adref.

Croeso nôl i Gwmann

Croeso i Euros a Ciss Davies o Llanwnnen. Gobeithio eich bod yn mwynhau yn eich cartref newydd yn 5 Heol Hathren.

Eglwys Sant Iago

Daeth nifer dda iawn ynghyd ar nos Sul, 4 Rhagfyr i'r cyngerdd Nadolig blynyddol yn Eglwys Sant Iago.

Croesawodd y ficer bawb a diolch iddynt am eu presenoldeb i gefngi'r noson.

Yr artistiaid eleni oedd Côr merched Lleisiau'r Werin ynghyd a'r Unawdwy Sioned a Siriol Howells. Cawsom wledd o eitemau graenus a tymhorol iawn ganddynt a crëwyd naws Nadoligaidd cynnes yn yr eglwys a phawb yn bresennol wedi gwerthfawrogi eu datganiadau. Cafwyd adroddiad pwrpasol iawn gan Mrs Mair Richards.

Llywydd y noson oedd Mr Owain Jones cyn aelod o'r ysgol Sul yn yr eglwys. Hyfryd oedd clywed ei araith bwrpasol yn llawn hiwmor yn adrodd ei atgofion am yr amser a dreuliodd yn yr ysgol Sul. Diolchodd

y ficer iddo am ei neges a'i haelinoni at yr achos.

Roedd elw'r noson yn mynd allan i Lesotho trwy law Mrs Pat Jones sydd wedi bod yno yn dysgu ac wedi gweld y sefyllfa. Defnyddir yr arian i brynu ieir a hadau ac i roi cymorth i ysgol Sant Iago yn Lesotho. Cawsom hanes gan Mrs Pat Jones o'i chyfnod allan yn Lesotho.

Roedd elw'r gyngerdd yn £762, felly rhwng y cyngerdd a'r bore coffi roedd Pat wedi trefnu yn gynharach, daeth y cyfanswm yn £1,500. Braff yw medru rhoi cymorth i bobl llai ffodus.

Yn ystod y gyngerdd, ymunodd y gynulleidfa i ganu carolau. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans.

Diolchodd y ficer i'r artistiaid ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y noson ac hefyd i'r aelodau a fu'n addurno'r eglwys mor dymhorol.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod Blynyddol y gangen ar nos Lun, 7 Tachwedd gyda'r Llywydd Elma Phillips yn y gadair. Croesawodd pawb, yn arbennig Maureen Davies ein V.C.O. am y noson. Darllenwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2015 gan Mary ac arwyddwyd yn gywir gan Elma. Diolchodd Elma i Gwyneth am gymryd rhan yn y gwasanaeth, ac i Gwen am gario'r Faner. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfod Hydref Grŵp Teifi a fu'n llwyddiant mawr gyda Gareth Richards yn dangos ei sgiliau fel cogydd ac i Gwyneth am wneud y trefniadau. Darllenwyd llythyr oddi wrth Pat Thomas yn diolch am y gefnogaeth yn y Cwrdd Diolchgarwch.

Ar nos Wener, 25 Tachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig



Yr Archddeacon Dr William Strange yn cyflwyno elw cyngerdd Nadolig Eglwys Sant Iago, Cwmann sef £762 i Pat Jones ar ran Ysgol Sant Iago, Lesotho i brynu ieir a hadau ar ôl y newyn. Rhwng y noson a bore coffi yn Llambled casglwyd £1,500 tuag at yr achos.



Aelodau Sefydliad y Merched Coedmor yn mwynhau noson yn Parlwr Pinco Panacea gyda Anthea a'r Staff.

yn Neuadd Bronwydd gyda chystadleuaeth addurno coeden Nadolig. Addurnwyd coeden Grŵp Teifi â bisgedi nadoligaidd. Aeth Gwyneth, Avril, Elma, Mary a Noleen i'r cyfarfod Cownsil Blynyddol yn Ysgol Brenhines Elizabeth, Johnstown ar 19 Tachwedd, pan gafodd cwpan er cof am Ann Lewis ei gyflwyno i'r Sir. Aeth Maureen drwy'r llythyr misol. Thema 'Hoff le yng Nghymru' oedd Calendr 2018, a phenderfynwyd anfon pedwar llun ardderchog gan Iona i'r gystadleuaeth. Cyflwynodd Joyce y fantolen ariannol a chafwyd adroddiad o'r flwyddyn gan Gwyneth. Cyflwynodd Elma a Gwen anrheg yr un i Gwyneth a Joyce am eu gwaith fel ysgrifennydd a thrysorydd am dros 10 mlynedd. Diolchodd Elma i bawb am y gefnogaeth a gafodd hi a Gwen dros y flwyddyn.

Aed ymlaen wedyn i ddewis swyddogion am y flwyddyn:

Llywydd: Mary Davies

Is-Lwyddion: Gwen Jones a Elma Phillips

Ysgrifennydd: Gwyneth Morgan

Trysorydd: Joyce Williams

Is-Drysorydd: Glesni Thomas
Cofnodydd a Gohebydd y Wasg: Noleen Davies

Llyfr Lloffion: Iona Davies

Swyddog Cofrestru: Gwynfil Griffiths

Swyddogion Adloniant: Tegwen Williams a Helen Gregson

Ar ôl cwpaned a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Elma, Gwen, Gwyneth a Joyce, cymrodd Mary'r gadair. Diolchodd i bawb o'r pwyllgor am eu gwaith dros y flwyddyn a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau am y flwyddyn i ddod.

Treuliwyd gweddill y noson yn paratoi rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Enillwyd y raffl gan Iona.

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Rhagfyr ar nos Lun, 5ed gan y Llywydd, Mary, yna aeth ymlaen i gyflwyno ein gwraig wadd Myfanwy Lloyd o Fridfa Derwen, Pennant. Cafwyd noson ddiddorol ganddi yn sôn am Hanes 'Y Sgidie Bach'. Soniodd bod ei diddordeb wedi dechrau pan oedd yn dair ar ddeg mlwydd oed, ond erbyn hyn roedd ganddi tua 200 o wahanol rai, yn amrywio o 'Buttons a Bons' ym mhob lliw, rhai wedi ei crochet, luster ac hefyd rhai arian, ond y ffefryn ganddi oedd y rhai wedi eu gwneud o lechen, dim ond rhai o'r casgliad a welsom ar y noson. Diolchwyd iddi gan Gwen a the wedi ei baratoi gan Gwen a Tegwen. Enillwyd y raffl gan Gwyneth sef

Cwmann

llyfr a roddwyd gan Myfanwy yn sôn am y cobiau gan Avril. Cafwyd cyfarfod busnes i ddilyn. Darllenwyd llythyr oddi wrth Pat yn y swyddfa yn diolch am y gefnogaeth yn y Ffair Nadolig yn Bronwydd. Roedd grŵp Teifi wedi casglu £160.30 ar y stondin.

Clwb 225 – Mis Tachwedd

1. Mr & Mrs Templeman, Bryngolau, Cwmann, 223. 2. Geoff Douch, 1 Heol y Fedw, Cwmann, 62. 3. Tegwen Morris, c/o Brynhathren, Cwmann, 53. 4. Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan, 140. 5. Joanna Morgan, Llys Penparc, Cwmann, 148. 6. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 23. 7. Carl a Meinir Douglas, Llwynfedw, Cwmann, 144. 8. Maureen Evans, Brynmaen, Cwmann, 49. 9. Ryan a Gabriel Davies, Delfan, Cwmann, 107. 10. Gareth Jones, Cilerwisg, Maestir, 30.

Clwb 225 – Mis Rhagfyr

1. Ernie Randell, Blaecwm, Cwmann, 225. 2. John Davies, Y Ddol, Cellan, 99. 3. Joan Davies, 23 Cwrt Deri, Cwmann, 90. 4. Mr a Mrs W Edwards, Ddeuant, Cwmann, 173. 5. Cerdin Price, Langwm, Bryn Road, Llambled, 41. 6. Tom James, Caeralaw, Cwmann, 34. 7. Dion Ling, Glynbedw, Cwmann, 79. 8. Mrs Sallie Jones, Hathren, Heol y Bont, Llambled, 201. 9. Mrs Ann Lewis, Hillside, Cwmann, 132. 10. Chloe Ling, Glynbedw, Cwmann, 11.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago, Cwmann

1. Margaret Morgan, Blaenmaes, Pencarreg, 133. 2. Mrs E G Lloyd, 14 Heol Hathren, Cwmann, 43. 3. Elgan Jones, Coedmore Hall, Cellan, 77. 4. Sarah Jones, Frongelli, Alltyblaca, 81. 5. Womens Workshop, Cwmann, 112. 6. Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104. 7. Tom James, Caeralaw, Heol y Fedw, Cwmann, 115.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago, Cwmann

1. Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 126. 2. Mr Lodwick, Penrhyn, Cwmann, 138. 3. Brian Lloyd, Blaenrhysglog, Farmers, 10. 4. Alun Jones, Glanrhyd, Parc y Rhos, 80. 5. Steven Palmer, Gables,

Cwmann, 124. 6. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79. 7. Jenny Bracher, Glyndu, Cwmann, 99.

Côr Corisma

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn ddigon prysur i ni fel Côr. Ar y nos Sul cyn y Nadolig, cawsom ein gwahodd i Neuadd Bro Fanna i noson gymunedol o ganu carolau. Canodd Côr Corisma hen ffefrynnau megis Dod ar fy Mhen, Calon Lân i alaw Rose, gyda thriawd y Côr sef Carys, Rhian a Delyth yn canu Troyte. Cafwyd noson ddymunol iawn yn cyd-ganu carolau a gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl. Roedd hi'n bleser bod yn bresennol mewn noson hwylus a dymunol. Noson a greodd gwir ystyr y Nadolig.

Bu cryn siarad yn yr ardal am gynhyrchiad Teilwng yw'r Oen ers misoedd a bu aelodau Côr Corisma'n edrych ymlaen yn eiddgar ac yn gwerthfawrogi'r cyfle o fod yn rhan o'r cynhyrchiad. Pleser oedd ymuno â dau gôr arall, Côr Cardi-gân o Ddyffryn Aeron a Meibion y Mynydd o ardal Ponterwyd. Dechreuodd yr ymarferion nôl ym mis Hydref yn Llambled, Felinfach a Chapel Bangor a phawb yn awyddus iawn i fynychu'r ymarferion. Mwynhad o'r mwyaf oedd cael cydweithio gyda'r cerddor amryddawn ac egniol, Rhys Taylor. Fe osododd drefniant newydd o'r alawon gwreiddiol yn ei ddull unigryw. Rwy'n siŵr bod pawb oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi a mwynhau'r gosodiadau a chyda'r cyfuniad o fand disgyblion ysgolion uwchradd y Sir, yn ogystal â pherfformwyr proffesiynol, gosodwyd sail penigamp i'r canu. Roedd clywed y gerddoriaeth yn cael ei chwarae'n rhoi ias trwy eich cefn gan gyffroi'r emosiynau. Y ddau ganwr oedd Deiniol Wyn Rees o Bencader a Non Wyn Williams, aelod o'r grŵp Eden. Roedd nifer o'r alawon yn gyfarwydd, ac ers y perfformiadau, mae nifer ohonom yn canu'r caneuon o fore tan nos!

Diolch yn fawr iawn i Theatr Felinfach am gael y syniad a rhoi'r cyfle i ni, fel Côr Corisma i fod yn rhan o'r cyffro a grëwyd yn ystod y prosiect rhyfeddol hwn. Roedd hi'n bleser cael bod yn rhan o gyflwyniad uchelgeisiol - profiad na fyddwn yn ei anghofio.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Megan Morris, Ysgubor Fawr am basio Step 2 ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music' gydag anrhydedd. Cafodd Megan farciau llawn yn y theori a'r gwaith technegol hefyd.

Llanfair Clydogau

Gwasanaeth Carolau

Cynhaliwyd ein gwasanaeth carolau eleni yng Nghapel Mair a chawsom y pleser o gael cwmni cynulleidfa sylweddol i fwynhau yr oedfa. Cafwyd stori'r geni trwy ddarlleniadau o'r beibl a barddoniaeth gan Debora Jones, Llanfair Fach; Paula Barker, Ty Coch; Alan Leech, Tanyresgair ac Aerwen Griffiths, Pengarn, ond sêr y dydd oedd plant Ysgol y Dderi, yn unigolion a chôr yn canu ac yn adrodd. Cafwyd pleser mawr yn gwrando amynt, a diolch o galon i Mrs Heini, y brifathrawes a Miss Rhian am drefnu ac ymarfer y plant. Rhoddwyd y croeso a'r diolchiadau gan Ian Evans, Esgairman ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Bill Fillery. Rhoddodd sgwrs ddiddorol i ni am y Santes Fair, gan fod ein capel ac eglwys wedi cael eu henwi ar ei hol. Dangosodd ddau gerflyn pren hyfryd o Mair a'r Baban Iesu a siarad am eu hanes ac fel oedd wedi eu cael yn anrhegion pan yn byw dramor ac wedi eu trysori dros y blynyddoedd. Eleri Davies ac Aerwen Griffiths rannodd y cyfeilio. Diolch hefyd i'r ddwy am drefnu'r gwasanaeth ac addurno'r capel gyda blodau, canhwyllau a choeden y Nadolig. Roedd y casgliad yn mynd i 'Blood Bikes Wales'. Ar ôl y gwasanaeth aeth pawb draw i'r neuadd i gael lluniaeth o de a mins peis.

Carolau o gwmpas y pentref

Dyma ein harferiad traddodiadol erbyn hyn ond ni ddaeth cymaint ynghyd eleni am lawer o wahanol resymau. Er hynny, aeth grŵp o gwmpas ardal fynyddig ar y nos Lun a grŵp arall o gylch y pentref a lawr Heol Llanfair ar y nos Fercher gan gasglu swm sylweddol. Rhoddwyd yr arian i gyd at eu gilydd, ynghyd a chasgliad y gwasanaeth carolau i 'Blood Bikes Wales', a'r swm terfynol yn £550. Diolch i bobl y pentref am eu rhoddion hael. Ar y nos Fercher daeth pawb yn ôl i'r neuadd i fwynhau a chymdeithasu dros gawl blasus wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones, Noyadd a cyfrannwyd mins peis gan ferched y Capel a'r Eglwys. Diolch i bawb a ddefnyddiodd eu ceir i gludo'r grwpiau a fu'n canu.

Parti Nadolig y plant



Am y tro cyntaf ers tipyn cafwyd parti Nadolig i blant y pentref a'u ffrindiau ar brynhawn ddydd Sadwrn, 10 Rhagfyr. Trefnwyd yr achlysur hapus hwn gan Anwen Bell, Llys Gwyn a'i ffrindiau. Ni welwyd cymaint o blant ifainc yn y neuadd gyda'i gilydd ers tro, gyda llawer o famau, tadau, dadcu's a mamgu's, a gwledd o fwyd wedi ei gyfrannu gan bawb. Cafwyd llawer o hwyl gyda gemau, digon o sŵn a chwerthin ond uchafbwynt y prynhawn oedd Sion Corn, a gyrhaeddodd ar dractor anferth, gydag anrhegion i'r plant i gyd. Edrychwn ymlaen at achlysur tebyg y flwyddyn nesaf.

Gwellhad buan

Hoffem ddymuno gwellhad buan i Dot Evans, Llanfair Fawr sydd o dan lawdriniaeth allan yn Sbaen. Hefyd i Sarah Evans, Tŷ Newydd, sydd o dan driniaeth yn ysbyty Treforus, Abertawe, wedi cael 'triple bypass' ar y galon. Ein dymuniadau gorau am lwyr wellhad i'r ddwy ohonynt.

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Harry Hartwell, gynt o FfosyFfin a Heulwen. Roedd Harry yn 93 oed ac wedi treulio'r blynyddoedd diwethaf yng nghartref yr henoed ym Mlaenpennal. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r holl deulu.

Alltyblaca

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Angharad a Rhys, Hafan Glyd, Bro Teifi ar enedigaeth mab bach, Trystan Rhys ar 29 Rhagfyr a brawd bach i Betsan. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Talyllychau

Llanbedr Pont Steffan

Ysgol Sul Noddfa

Unwaith eto bu'r flwyddyn aeth heibio yn un llwyddiannus iawn yn hanes yr Ysgol Sul a'r plant yn dod yn ffyddlon bob nos Wener. Cymerodd yr aelodau ran yn y Gymanfa Ganu ac mewn nifer o oedfaon yr ifanc gan dderbyn canmoliaeth uchel am eu gwaith. Maent wedi cyfrannu hefyd tuag at Fanc Bwyd Llambled. Braf oedd croesawu aelodau newydd yn ystod y flwyddyn sef Lynwen Evans, Ifan Jones a Cai Davies ac mae'r tri wedi setlo yn rhagorol yn ein plith.



Criw drama'r geni a'r plant Uwchradd a fu'n cymryd rhan yn Oedfa Nadolig Noddfa.

Braf oedd gweld dros 100 yn bresennol yn oedfa Nadolig yr Ysgol Sul - y gynulleidfa fwyaf a welwyd yn Noddfa ers amser maith. Teimlwyd naws hyfryd yr Ŵyl wrth deithio i Fethlehem mewn pennill a chân yng nghwmni 27 o'r plant a'r bobl ifanc ynghyd â 7 o'r Mamau a phawb yn rhoi o'u gorau. Cyflwynwyd drama'r geni gan y plant cynradd a phob un wrth eu bodd yn dathlu pen-blwydd Iesu a'r rhai lleiaf mor frwdfrydig gan ddod a gwên i wynebau pawb. Hefyd, cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan ddarlenniadau, gweddïau, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu amrywiol.

Ar ddiwedd yr oedfa, roedd pawb yn falch i weld Sion Corn (diolch i Tomos Rhys) a alwodd heibio a bu'n brysur iawn yn dosbarthu llond sach o anrhegion. Diolch yn fawr i Alun ac Eifion am eu rhoddion caredig o ffrwythau i'r plant eleni eto.



Y bobl ifanc a'r Mamau oedd yn rhan o Oedfa Nadolig Noddfa.

Ar ran yr Ysgol Sul, cyflwynodd Gwenllian a Ffion roddion i Janet fel gwerthfawrogiad o'i gwaith diflino ar hyd y flwyddyn. Ymatebodd hithau mewn geiriau pwrpasol trwy dalu teyrnged uchel i'r plant am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cymorth bob amser. I gloi prynhawn bendithiol a phleserus iawn, mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei drefnu gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos.

Ar nos Wener, 6 Ionawr bu 15 o'r plant yn diddori'r Henoed yng Nghartref Hafan Deg. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau safonol yn cynnwys unawdau, grwpiau canu a chyflwyniad gwerin gyda'r preswylwyr i gyd wedi cael gwledd yn eu cwmni ac yn werthfawrogiad iawn o'u doniau. I ddiwedd ymunodd ein Gweinidog a'r rhieni gyda'r plant i ganu 'Trysor y Crud' sy'n ffeifryn gyda ni yn Noddfa. Diolchwyd yn gynnes i Janet a'r plant am roi o'u hamser unwaith eto gan ddod a chymaint o bleser i'r Henoed. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu tra'n mwynhau lluniaeth ysgafn. [Gweler llun ar dudalen 2].

Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn Oedfa'r Ifanc ar 26 Mawrth sef Sul y Mamau am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr

Cyn ein cyfarfod mis Rhagfyr fe wnaeth nifer o aelodau gwrdd yng nghartref preswyl Hafandeg i ddiddanu'r trigolion trwy ganu, adrodd, darlleniadau o'r Beibl a gweddi. Cawsom gwpanaid o dê a mins pei cyn ymadael am Festri Shiloh. Yno, cawsom noson o grefftiau yng ngofal Morwen Thomas a'i merch Haf Meredith. Daeth nifer o ddysgwyr i ymuno â ni a bu pawb wrthi'n brysur yn gwneud addurniadau Nadolig. Hefyd, bu'r parti cyd adrodd yn diddanu'r dysgwyr o dan hyfforddiant medrus Elin Williams, ein llywydd. Diolchodd Ann Morgan i bawb am eu cyfraniad i'r noson ac i Eiry, Mary a Gwyneth am baratoi tê a chacennau i bawb. Enillydd y raffl misol oedd Glesni.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2017 yn Festri Shiloh fel arfer ar 9 Ionawr. Dymunodd Elin flwyddyn Newydd Dda i bawb a chanwyd cân y Mudiad i gyfeiliant Eiry Jones. Derbyniwyd enwau a thâl gogyfer a chinio'r Llywydd Cenedlaethol ac atgoffwyd pawb ynglyn â 'Chasgliad y Werin' sef unrhyw hen luniau, hen gardiau aelodaeth ac yn y blaen fydd yn dwyn atgofion am y gangen yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf. Penderfynwyd newid dyddiad y Tê Prynhawn yn Y Pantri i ddathlu Gŵyl Ddewi o 15 i 22 Mawrth. Ein gwraig wadd am y noson yma oedd Iona Llyr sy'n enedigol o Llandbedd ond bellach yn byw yn Llandeilo. Athrawes yw Iona ac yn chwaer i Elin, ein llywydd. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei chwmni wrth iddi sôn am 'Arferion Caru'. Cafwyd ganddi restr o arferion o wahanol wledydd ac wrth gwrs o Gymru sydd wedi newid tipyn yn y blynyddoedd diwethaf! Diolchwyd yn bwrpasol i Iona gan Morfudd Slaymaker am noson hwyliog dros ben. Sian Jones, Aerwen Griffiths a Dilwen Roderick fu'n paratoi y tê ac enillydd y raffl oedd Avril Williams.

Bydd ein cyfarfod nesaf sef sioe hwyliog o'r enw 'Bwci Bo' sy'n llawn hanes a ffeithiau difyr am fnganod rhyfeddol Cymru ar 13 Chwefror ac yn agored i bawb. Tocynnau ar gael o Siop y Smotyn Du neu wrth Elin ar 423145. Dewch i fwynhau noson arbennig.

Cylch Cinio Llambled

Daeth aelodau Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan ynghyd ar gyfer cyfarfod olaf y flwyddyn yng Nghlwb Rygbi'r dref ar nos Iau, 1 Rhagfyr. Gŵr gwadd y noson oedd y Dr Gwyn Davies, brodor o Ynysybwl sydd wedi treulio'i yrfa yn adran Efyrdiaid Allanol Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Pleser arbennig i'r Llywydd oedd ei gyflwyno gan i Mr Aneurin Jones fod yn athro Cymraeg iddo ym



Ymdeoliad a Pen-blwydd Hapus

Mae Betty Williams wedi ymddeol o'i swydd yn Sosban Fach, Heol Y Bont, Llambled, ar ôl 21 mlynedd o waith, ar deg diwethaf gyda Avril yn Sosban Fach.

Dwydded Avril bod hi'n bleser gweithio gyda hi a mawr fydd y bwlch ar ei hôl.

Hefyd, mae Betty wedi dathlu Pen-blwydd arbennig yn ddiweddar yn 80 oed. Dymunwn ymdeoliad hir a hapus iddi.

Mhontypridd ers talwm.

"Boi o'r Bwl" oedd testun Dr Davies ac aeth ati i addysgu'r aelodau am y pentref hwnnw trwy gynnal sgwrs gyda nhw. Dosbarthwyd rhestr o gwestiynau diddorol a direidus am leoliad a hanes Ynysybwl ac wrth eu trafod a cheisio'i hateb cafwyd llawer o wybodaeth ddifyr. Yn gorwedd rhwng y Taf a'r Rhondda, deallwyd mai cae ar lan afon droellog yw'r "ynys" ac mai enwogwydd y pentref yn y dyddiau fu am chwarae pêl sy'n esbonio'r "bwl". Wrth gwrs, rhoddwyd sylw teilwng i Gruffydd Morgan sef Guto Nyth Bran gan fod Ynysybwl ym mhlwyf Llanwynno a nodwyd fod Ras Nos Galan Aberpennar gerllaw yn cynnal y traddodiad. Cyfeiriwyd hefyd at y llyfr "Hanes Plwyf Llanwynno" o waith Glanffrdw a'i ddarlun o gymuned Gymreig cyn cyfnod y diwydiant glo. Os am gysylltiad rhwng Ynysybwl a Llambled, clywyd fod Idwal Jones wedi llwyddo i odli Honolulu a "Ynysybwl w!" Ar nodyn o hiwmor hefyd, fe awgrymodd Dr Davies fod y dŵr lleol yn rhoi corff byr llydan a chydnerth i ddynion Ynysybwl (y dynion yn unig cofier) gan gynnig ei hun a rhai o'i gyd-bentrefwyr adnabyddus fel tystiolaeth, sef y chwaraewyr rygbi Garin Jenkins a Staff Jones a'r pencampwr dartiau Leighton Rees. I orffen, cyfeirwyd at y dyfyniad o awdl "Y Glowr" (Gwilym Tilsley) sydd wedi ei dorri ar garreg goffa wrth y fynedfa i safle hen bwl glo Ynysybwl - "I arwr glew erwau'r glo."

CYMRAG

Ariennir yn
rhannol gan
Llywodraeth
Cymru

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno
ag unrhyw farn
yn y papur hwn.

Llanbedr Pont Steffan

Rhoddwyd diolch ffurfiol i Dr Davies gan Mr John Phillips, un a chanddo adnabyddiaeth dda o Ynysybwl a'r ardaloedd cyfagos yn rhinwedd ei yrfa. Er hired ei gysylltiad ag Aberystwyth, dywedodd mai boi o'r Bwl yw Dr Davies o hyd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 5 Ionawr pan groesawir y chwaraewr bowls rhyngwladol o Llambod, Anwen Butten.

Daeth aelodau Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan ynghyd i'w cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yng Nghlwb Rygbi'r dref ar nos Iau, 5 Ionawr. Nid am y tro cyntaf yn ystod ei lywyddiaeth cafodd Mr Aneurin Jones y pleser o groesawu un o'i gyn-ddisgyblion fel gwestai arbennig y noson sef y chwaraewr bowls rhyngwladol o Llambod, Anwen Butten.

Wedi'r lluniaeth ardderchog o law Cegin Gwenog aeth y llywydd ati i gyflwyno Anwen i'r aelodau gan nodi mai yn y byd iechyd y mae ei bywoliaeth hi gyda'i chefnidir mewn nyrso ac yn awr yn gwasanaethu holl ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel cyswllt yn y cartref i ddioddefwyr cancr y gwddf. Ond 'Bowlio dros Gymru a gweld y byd' oedd teitl ei chyflwyniad a hithau newydd ennill medal arian gyda thîm triawdau Cymru ym mhencampwriaeth bowlio'r byd yn Seland Newydd mis Rhagfyr, gan drechu gwledydd a chanddynt fanteision llethol o ran poblogaeth a chyllid.

Gyda chymorth ei mab Harri, cyflwynodd Anwen gyfres o luniau ar y sgrin er mwyn rhoi amlinell o'i gyrfa ac o hanfodion y gamp. Clywyd ei bod yn gyntaf oll yn aelod o deulu bowlio gan fod Harri a'i merch Alis yn bowlio dros Gymru yn eu dosbarthau oedran tra yr oedd ei mam, Mrs Anita Williams, yn bencampwraig bowlio sydd bellach yn hyfforddwraig ryngwladol ac yn aelod oes o Gynghrair Hyfforddi Bowlio Cymru. Mae ei chlwb lleol, Clwb Bowlio Llambod, hefyd yn rhagori gan fod pedair o ferched y clwb yn nhîm oedolion Cymru a, diolch i'w hymdrechion, gellid dweud yr un peth am dîm Ceredigion. Ond ei theithiau ar hyd y byd fel un o garfan elit Cymru yng ngemau'r Gymanwlad a phencampwriaethau'r byd gafodd y mwyaf o sylw, gan gynnwys teithiau i'r India, Awstralia, Hong Kong a De'r Affrig. Er bod Anwen y gwisgo'i anrhydeddau niferus yn ysgafn iawn, gwelwyd ei bod wedi ennill dwy fedal aur, dwy fedal arian a saith medal efydd. Felly, i ddyfynnu llinell o englyn a ysgrifennwyd iddi, "nid ar hap y mae'n gapten" ar dîm Cymru. Clywyd mai ei hoff atgof yw'r daith i Gemau'r Gymanwlad yn Dehli yn

2010 gan nodi fod cyfle i gwmnïa gyda sêr y byd chwaraeon ac athletau mewn gemau o'r fath.

Cafwyd syniad hefyd o'r gofynion sydd ynghlwm a bowlio ar y lefel uchaf - y pwysau i lwyddo, gofynion corfforol y cystadlu, yr agweddau seicolegol a dietegol a'r gallu i ymdopi a gwres, gwynt, glaw, pryfed trofannol a chysgod y camera.

Yr oedd nifer o'r ciniawyr hefyd yn aelodau o'r Clwb Bowlio a rhoddwyd gair o ddiolch gan un ohonynt, y cyn-lywydd Mr Elfân James. Dywedodd fod Anwen wedi cynrychioli Cymru saith deg o weithiau a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

Cyn ymadael fe benderfynodd yr aelodau, ar gais Mr Twynog Davies, i wneud cyfraniad o £100 trwy Cymorth Cristnogol tuag at gronfa'r ffoaduriaid.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 2 Chwefror pan groesawir Ifan Tregaron yn ŵr gwadd.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Roedd cyfarfod cyntaf 2017 ar 12 Ionawr. Ar ôl mwynhau holl fwydydd arbennig y Nadolig a'r cyfle i orffwys ar y soffâ yn gwyllo'r teledu, mae'n hen bryd i rai ohonom wneud addunedau am y flwyddyn newydd. Fel arfer, bydd y mwyafrif ohonom yn meddwl am golli pwysau a chadw'n heini.

I'n hysbrydoli felly cawsom bleser cwmni Teleri Gwyther i siarad am bwnc pwysig, sef iechyd y galon. Mae Teleri yn nyrso sy'n arbenigo yn y maes yma trwy ei gwaith i Sefydliad Prydeinig y Galon (British Heart Foundation). Fel rhan o'i gwaith, mae hi'n ymweld a chleifion yng Ngheredigion ac wrth wneud hyn, mae'n dod yn ôl i'w milltir sgwâr.

Cafodd ei magwraeth a'i addysg cynnar yn Llambod a'r cylch. Mae hi'n nyrso brofiadol sy'n dod a'i holl wybodaeth at y pwnc ac mae'n gweithio fel linc rhwng y claf, y teulu a'r ysbyty. Esboniodd y gwahaniaeth rhwng sawl math o glefyd y galon, a beth i wneud mewn argyfwng. Mae sawl math o anhwylder sy'n cynnwys 'clefyd y galon'. Mae'n bwysig cael y barn feddygol gywir er mwyn cael triniaeth effeithiol. Mae'r driniaeth ei hun wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Siaradodd am y technegau newydd sydd wedi gwneud llawdriniaeth yn fwy diogel i'r mwyafrif ac am y meddyginiaethau diweddar sydd ar gael i helpu'r claf.

Siaradodd hefyd am strategau i gadw'r galon yn iach - bwyta'n iach a gwneud oleiaf 10-15 munud o ymarfer corff bob dydd! Clywsom am colesterol 'da' a 'drwg', am statins, y genynau a'r galon, ac am

y deietau sy'n cael eu hyrwyddo yn y cyfryngau. Y gair i'w gofio, yn ôl Teleri, yw 'cydbwysedd'. Roedd cyfle i gasglu pamffledi yn Gymraeg a Saesneg i'n helpu i ddeall y pwnc yn well tra bod Teleri'n gwneud ymarferion fel mesur pwysedd gwaed pawb oedd a diddordeb, a siarad gyda unigolion am y tabledi a oeddent yn cymryd.

Yn ei diolchiadau, soniodd Sallie Jones, modryb Teleri, bod y cyfle i drafod materion pwysig gydag arbennigwr mewn amgylchedd anffurfiol o lês i bawb.

Cyfarfod nesaf yr Urdd: 9 Chwefror, 7:30yh, Ffestri Brondeifi. Noson yng ngofal ein llywydd, Eryl Jones. Croeso cynnes i bawb.

Dathlu'r Deg!

Nos Lun, 5 Rhagfyr 2016, cynhaliwyd degfed Plygain Llambod yng Nghapel Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r blynyddoedd wedi hedfan, a bu llawer iawn o newidiadau ar gampws Llambod dros y blynyddoedd. Ond mae'r plygain wedi dal ei dir, ac roedd Capel y Coleg yn orlawn eto eleni ar gyfer y gwasanaeth hyfryd hwn.

Arweiniwyd darn o'r Hwyrdd Weddi gan y Parchedig Bill Fillery, a'r organyddes oedd Mrs Glynis Morris. Cymerwyd ran gan Barti Plygain Coleg Llambod, Parti'r Penrhyn, Twynog Davies, Triawd Pen-y-graig, Parti Cymorth Cristnogol, Parti Llandeilo, Rhiannon Ifans a Trefor Pugh.

Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans o Gyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio. Yr oedd yn hyfryd gweld Llywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones a Mrs Stephanie Jones, yn bresennol yn y gwasanaeth plygain yn ôl eu harfer. Wedi i'r dynion ganu 'Carol y Swper', croesawyd pawb i'r Hedyn Mwstard i fwynhau pwnsh cynnes a means peis gwyh. Diolch i'r cwmni yno am eu hynawsedd.

Cyfarchion Pen-blwydd

Pen-blwydd Hapus i Janet Evans, Haulfryn a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 mlwydd oed ar 10 Chwefror. Pob dymuniad da gan y teulu i gyd.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd Miss Eirwen James, Llanio atom i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, a braf oedd gweld cynulleidfâ dda wedi dod i wrando arni yn son am hanes Merched y Gerddi. Mae bron yn draddodiad erbyn hyn bod cyfarfod mis Ionawr yn cael ei chynnal yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu gan Sian Jones.

Clywsom sut yr oedd merched ifainc yn cerdded y 200 milltir a rhagor o'r ardaloedd yma i

Lundain a Chaint i weithio yn y gerddi masnachol, gan ennill gwell cyflog na'r hyn a dderbynient fel morwynion adref. Roedd cynnydd sydyn y boblogaeth yn hanner cyntaf y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn galw am gynnydd yn y fasnach fwyd, ac roedd dwylo'r merched yn fwy delicet na rhai'r dynion i gynaeafu'r ffrwythau.

Teithient yng nghwmni'r Porthmyn yn gyrru'r gwartheg ayyb i ffeiriau Barnet, Smithfields a rhagor, gan fyw yn yr ardaloedd hynny dros misoedd y Gwanwyn a'r Haf. Byddai'r merched yn cario basgedi ar eu cefnau yn llawn sanau i'w gwerthu, ac yn dal i wau sanau wrth gerdded. Byddent yn mynychu'r Capeli Cymraeg wedi cyrraedd yno, ac yn dod o hyd i westai yn y modd honno. Cai llawer ohonynt waith yn y tai crand, ac aros yno am flynyddoedd.

Erbyn 1840, 'doedd dim cymaint o alw ar y merched i wneud y gwaith yma - hwyrach fod yna weithwyr yn dod o wledydd eraill - ac erbyn 1867, prin iawn bod son amdanynt. Ond, cyn hir byddai'r Cardis yn teithio am Lundain unwaith eto i werthu llaeth.

Dyfynnodd Eirwen nifer o benillion a rhigymau a fyddai'n cyfeirio at y merched, ac mae'r rhain yn dal o hyd i gadw'r hanesion amdanynt.

Diolchwyd yn gynnes iddi am noson ddiddorol iawn, a phawb wedi mwynhau'r hanes. Diolchwyd hefyd i Sian am ei gwasanaeth cyfieithu gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, 21 Chwefror, 7.30yh yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan fydd Dr Pete Davies, Alltbylaca yn rhoi hanes ffotograffiaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Ngogledd Cymru.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Landre, Stryd y Bont ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adre. Gwerthfawrogir eich consyrn yn fawr. Diolch yn ddiffuant i bawb.

Cymorth Cristnogol

Braf oedd gweld cynulliad niferus iawn wedi dod ynghyd i Eglwys San Pedr i noson arbennig sef Carol, Cerdd a Chân wedi ei threfnu gan bwyllgor Cymorth Cristnogol. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn gywain iawn a'r cyfan yn portreadu digwyddiad rhyfeddol Bethlehem. Estynnwyd croeso cynnes i bawb ac offrymwyd gweddi agoriadol gan y Canon Andy Herrick. O'r dechrau teimlwyd naws hyfryd y Nadolig wrth wrando ar Gôr Clychau'r Fedwen, parti llefaru

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr Llambled, Kees Huysmans, Heledd Besent, Lowri Elen, Llinos Jones, Swyddogion Ysgol Bro Pedr sef Nest, Alwyn, Morgan, Rhys a Meirion a'r Côr Cynradd, ynghyd ag Aled, Sioned, Elan a Beca aelodau Aelwyd yr Urdd a phawb ohonynt yn ein tywys tua Bethlehem trwy gyfrwng perfformiadau disglair iawn.

Talodd Twynog, Cadeirydd y pwyllgor lleol deyrnged uchel i'r rhai oedd wedi cymryd rhan a'n paratoi ni ar gyfer Gŵyl y Geni mewn rhaglen mor safonol, i Canon Andy Herrick a wardeiniaid San Pedr am bob cydweithrediad ac i Elonwy Pugh Huysmans am ei chyfraniad gwerthfawr wrth yr organ a hynny yn flynyddol ers y cychwyn nôl yn 1987. Diolchodd hefyd i'r Maer, y Cynghorydd Dave Smith a'i deulu am eu presenoldeb, i'r stiwardiaid wrth y drws, i bawb am eu cefnogaeth ac i Janet am ei threfniadau trylwyr ac am sicrhau gwasanaeth artistiaid o fri. O ganlyniad, codwyd swm sylweddol iawn o £780 tuag at daith Nadolig Cymorth Cristnogol i gynorthwyo'r ffoaduriaid. Wrth adael yr eglwys, tystiai pawb mai da oedd bod yn bresennol i ddathlu geni'r Iesu mewn noson wych a erys yn y cof am amser hir ac ar yr un pryd codi arian at achos mor deilwng.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd aelodau Aelwyd yr Urdd wedi cynnal cyfarfod cyntaf y flwyddyn i drefnu rhaglen y tymor ac i fwynhau noson i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen yng nghwmni Sian Elin. Croeso i aelodau hen a newydd.

Neges Bwysig i gystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd: Mae angen enwau y rhai sy'n cystadlu erbyn 10 Chwefror os gwelwch yn dda.

Oedfa Garolau

I gloi dathliadau'r Nadolig yn Noddfa, cynhaliwyd Oedfa Garolau yng ngolau cannyll ar 8 Ionawr. Roedd y capel wedi ei addurno yn drawiadol iawn a'r canhwyllau yn cyfleu awyrgylch o dawelwch hyfryd yn dilyn bwrlwm yr Ŵyl.

Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Darllenwyd rhannau o'r Beibl a chyhoeddwyd y carolau gan 16 o'r aelodau a phawb yn cyflawni eu gwaith yn hynod raenus. Hefyd, mwynhad oedd gwrando ar ddeuawd swynol iawn gan Elan a Beca.

Diolchodd Alun i bawb oedd wedi bod yn paratoi'r capel, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan, i Llinos am ei gwasanaeth wrth yr organ ac yn olaf ond nid y lleiaf i'n Gweinidog ac Ann ein hysgrifennydd am drefnu'r oedfa. Hefyd, soniodd mai braf oedd gweld y cyfarpar technegol newydd yn gweithio'n effeithiol iawn.

Teimlai pawb yn bresennol eu bod wedi derbyn bendith trwy ddod at ei gilydd i gyd-addoli mewn oedfa arbennig iawn.

Brondeifi

Roedd Rhagfyr yn fis hynod o brysur ym Mrondeifi. Fore Sul, 4 Rhagfyr, cafwyd gwasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Cymrodd 'Garol Nadolig' Charles Dickens fel thema, gan ganolbwyntio ar gymeriad yr hen gybydd crintachlyd, Ebenezer Scrooge, a'r ffordd y newidiodd ei gymeriad er gwell.

Ar 11 Rhagfyr, roedd gwasanaeth radio BBC Radio Cymru dan ofal y Parch Goronwy Evans, gyda Hywel Roderick yn cynorthwyo wrth ddarllen a gweddio. Seiliwyd y gwasanaeth ar thema 'Ewyllys Da'.

Yr un Sul, daeth tyrfa dda i wasanaeth Cymun ym Mrondeifi. Yn ystod y gwasanaeth bu'r Parch Alun Wyn Davies yn cofio am ddau o ffyddloniaid Brondeifi. Dros gyfnod o hanner canrif, daeth Alun Davies, Trecefn, Ferwig, yn wyneb cyfarwydd yn y gynulleidfa wrth iddo ddod i Frondeifi gyda'i wraig, Megan - a bu'n hynod o gefnogol. Roedd Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir, yn aelod mawr iawn ei pharch ym Mrondeifi. Bu'n Ysgrifennydd y Capel, yn cyfrannu at ddigwyddiadau 'Darby and Joan' a 'Young at Heart' a llw o weithgareddau eraill. Dros ddegawdau, roedd ei chyfraniad a'i hymroddiad yn amhrisiadwy. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r ddau deulu.

Ar ddydd Sul, 18 Rhagfyr, cynhaliwyd Parti Nadolig yr Ysgol Sul. Cafwyd gyfraniadau gan blant yr Ysgol Sul, ac yn dilyn hynny, daeth torf dda i'r capel ar gyfer Gwasanaeth Carolau. Band Brondeifi oedd yn cyfeilio a Manon Richards, Lowtre, yn arwain. Cafwyd eitem gan Hanna Davies, Drefach. Roedd y canu'n fendigedig a'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Casglwyd ar gyfer Tŷ Hafan, a cefnogwyd yr un achos yn y gwasanaeth ar fore dydd Nadolig.

Mae'r sgrîn fawr yn adnodd pwysig newydd ym Mrondeifi, ac yn rhan allweddol o weinidogaeth y Parch Alun Wyn Dafis, wrth iddo ei ddefnyddio i drosglwyddo ei neges mewn ffordd hynod o weladwy ac effeithiol. Mae'r cyfle i arbrofi gyda syniadau a thechnegau newydd wastad wedi bod yn rhan bwysig iawn o hanes a thraddodiad Brondeifi.

Gyda nifer wedi derbyn llyfrau fel anrhegion Nadolig, gwerth nodi fod llyfr y Parch Goronwy Evans ar grwydraid Cymru, 'Ar Grwydir', wedi profi'n boblogaidd tu hwnt, gyda diddordeb mawr ar hyd a lled Cymru. Er fod y gwerthiant wedi

bod yn arbennig, mae rhai copïau ar ôl, ac ar werth yn Siop y Smotyn Du.

Ar ddydd Sul, 8 Ionawr, Ioan Wyn Evans wnaeth gymryd y gwasanaeth, gyda'r Parch Alun Wyn Dafis yn y pulpud y Sul canlynol. Ar Sul 22 Ionawr, Santes Dwynwen oedd thema Dylan Lewis ar drothwy gŵyl y cariadon.

Cofiwch fod swyddogion y capel am gau'r cyfrifon ar gyfer 2016 ac yn apelio'n daer ar aelodau sydd heb gyfrannu eto i wneud hynny ar fyrder.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i un o olygyddion Clonc sef Siwan Davies, 9 Cwrt Dulas, Llambled ar achlysur ei dyweddiad ag Emyr Richards yn ystod mis Rhagfyr. Pob dymuniad da i chwi eich dau.

Cymdeithas Ddiwylliadol

Fe ddaeth tyrfa luosog iawn ynghyd i ail gyfarfod y tymor o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol ar brynhawn dydd Iau, 1 Rhagfyr. Y gwestai oedd y ddwy ffrind Rhian Evans a Janice Thomas i son am ei gwaith gyda Tai Ceredigion. Mae Rhian yn Is-Gyfarwyddwr gyda'r cwmni a Janice yn gyfrifol am farchnata. Trwy gyfrwng sleidiau, soniwyd bod y cwmni yn un o gyflogwyr mwyaf y sir gyda 140 o weithwyr ar y llyfrau.

Mae yna ymgais bob amser i gyflogi crefftwyr lleol i ymgymryd a'r gwaith o godi tai newydd a'r cynnal a chadw sydd yn anghenrheidiol ar yr holl dai sy'n perthyn i'r cwmni. Yn naturiol y dyddiau yma, mae yna bwyslais ar godi tai fforddiadwy o fewn cyrraedd pobl ifanc. Heblaw am y crefftwyr, mae yna dîm o weinyddwyr sy'n cynnwys adrannau Iechyd a Diogelwch, Personél, Cyllid, Syrfeiwyr, Marchnata a.y.y.b, a phawb yno i roi'r gwasanaeth gorau bosibl i denantiaid y cwmni. Er hynny, mae anhawsterau yn codi yn ddyddiol gyda chyfran o'r tenantiaid yn cael bywyd yn anodd yn yr hinsawdd bresennol ond mae swyddogion yn y cwmni yn barod i roi help a chynghor.

Cyflwynodd y ddwy waith y cwmni mewn ffordd naturiol a chartrefol a mynegwyd ein gwerthfawrogiad am orig hyfryd ac addysgiadol gan y Llywydd Philip Lodwig. I gloi'r cyfarfod, roedd gwragedd y ddwy Eglwys wedi paratoi te Nadoligaidd ar ein cyfer a diolch iddynt am eu haelioni arferol.

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Ddiwylliadol Eglwysi Shiloh a Soar y Festri Brondeifi ar brynhawn ddydd Iau, 2 Chwefror am 2 o'r gloch. Bydd cyfle i weld cyfres o ffilmiau a baratowyd yn ystod ei gyrfa gan y llenor dawnus Bethan

Phillips a diolch i'r Gweinidog a swyddogion Eglwys Brondeifi am gael defnydd o'r offer priodol. Bydd hwn yn gyfarfod agored ac mae croeso i aelodau o'r gwahanol Eglwysi a ffrindiau i ymuno gyda ni. Dewch yn llw. Mi fydd yna groeso cynnes.

90 oed

Dathlodd Dan Jones, Penarth, Heol y Bryn ei ben-blwydd yn 90oed yn ystod mis Rhagfyr. Mae Dan yn mwynhau iechyd da ac mae yn hyfryd ei weld o gwmpas y dref bob dydd. Gobeithio y cewch weld dathlu'r 100 ymhen 10 mlynedd.

Cydymdeimlo

Gyda siom enfawr y clywyd am farwolaeth Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir, Llambled ar ddechrau mis Rhagfyr. Roedd Ceinwen, neu Cei i rai, yn wyneb cyfarwydd iawn i ni i gyd ac fe gwelwyd pob pythefnos ym Marchnad y Ffermwyr yn y dre ar stondin 'Cwca Cartref'. Roedd yn ddynes aml dalentog ac roedd ei byd yn cwca teisennau o bob math i bawb. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'r plant, Iwan, Meinir, Ann ac Elfed a'u teuluoedd oll yn eu galar a gyda'r chwiorydd Eirian a Mair sy'n byw yn Llambled a Gwyneth yng Ngorsgoch. Bydd nifer fawr o fudiadau yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Bu'r angladd yng Nghapel y Groes yn dyst i'w phoblogrwydd ac yno rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn y fynwent gyda'i phriod Alan.

Cydymdeimlir hefyd a theulu Nell Phillips, Ffynnonbedr a fu farw 8 mis ar ôl ei phriod. Cofiwn am y plant a'u teuluoedd yn eu colled o gael yr ail brofedigaeth mor fuan.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Cerddoriath Llambled

Cyngerdd Graham Trew (baritone) a Susi Morrow (piano) yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers ddydd Sul, 5ed Chwefror am 2.30yp. Tocynnau wrth y drws - £11, consesiynau £9, Myfyrwyr am ddim gyda Cherdyn yr Undeb, mynediad yn rhad i ddau blentyn o dan 14 oed gydag oedolyn sy'n talu. Mwy ar y wefan www.lampetermusic.co.uk

Cyngerdd The Mavron Quartet, (Meijering: Caxia de Dolcos, Haydn: Op 54 No 2 and Janacek: String Quartet No. 2 'Intimate Letters') yn Yr Hen Neuadd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llambled, ar ddydd Sul 19 Chwefror am 2.30yp. Tocynnau wrth y drws - £11, consesiynau £9, Myfyrwyr am ddim gyda Cherdyn yr Undeb, mynediad yn rhad i ddau blentyn o dan 14 oed gydag oedolyn sy'n talu. Mwy ar y wefan www.lampetermusic.co.uk

Llanbedr Pont Steffan

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Sian Jenkins, Tyllwyd, Maestir ar ddod yn ddatcu a mamgu i Gwion Alan yn ystod mis Ionawr. Mab bach i Steffan a Sara yn Llanwnnen.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Nell Phillips, 19 Ffynonbedr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli mam a mamgu annwyl. Maent yn ei werthfawrogi yn fawr iawn.

Gwellhad Buan

Gobeithio y bydd Aneurin Jones, Hathren, Heol y Bont yn teimlo'n well erbyn hyn. Roedd Aneurin wedi bod yn selog iawn fel un o blygwyr Clonc tan yn ddiweddar.

Clwb Rotari Llanbedr Pont Steffan



Ymwelodd Jack Guy yn ddiwedd gyda'r clwb i roi cyflwyniad am ei brofiadau ar gwrw arweinwyr Rotari a gynhaliwyd ym Mannau Brycheiniog. Llwyddodd Jack, sy'n ddisgybl yn Ysgol Bro Pedr, i gael ei noddi gan y Clwb Roatri i ddilyn cwrs RYLA (Rotary Youth Leadership Award). Bu ar gwrw wythnos o hyd gydag eraill i ddatblygu ei sgiliau arweinyddol trwy ymgymryd a gwahanol weithgareddau yn cynnwys canwio, dringo mynyddoedd ac archwilio ogofau! Cafwyd noson ddifur yn ei gwmni nos Lun, 9 Ionawr yn y Llew Du ac mae'r clwb yn falch iddo fwynhau ac elwa o ddilyn y cwrs. Pe byddai eraill â diddordeb mewn derbyn nawdd i ddilyn cwrs tebyg, gwahoddir chi i gysylltu gyda Pauline Roberts-Jones, Ysgrifennydd (tynporth@hotmail.co.uk) neu Kevin Sivyver, Llywydd (kss45@sky.com).

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

SIOP YCHWANEGOL
Bydd Papur Bro CLONC yn cael ei werthu yn
Siop y Pethe, Aberystwyth o hyn ymlaen.

Cymeriadau Bro

gan Delyth Morgans Phillips

Er taw Mrs Sally Davies, Four Winds, Cwmann, yw hi ers blynyddoedd, Sally Tynrhos yw Sally i lawer, am mai ar ffarm Tynrhos, Betws Bledrws, y ganed hi. (Arferid dweud Tynrhos, Derry Ormond; mae'r ffin rhwng plwyfi Llanfihangel Ystrad a Betws Bledrws yn rhedeg trwy glos y ffarm.) Mae'n braf nad yw Sally na'i chwaer wedi setlo ymhell – mae Mair Spate, ei chwaer fawr, yn byw yn Nhŷ Capel Maesffynnon, Llangybi, ac mae'r brawd bach, Tomi, yn dal i ffarmio Tynrhos. Mae'n braf hefyd bod y tri yn dal yn agos, yn gwneud llawer â'i gilydd ac yn cefnogi'i gilydd.

Ni chafodd Sally yr ieuchyd gorau pan yn blentyn, gyda rheumatic fever a damwain beic wedi'i rhwystro ar adegau. Ond daliodd ati yn yr ysgol – Ysgol Gynradd Betws Bledrws ac Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan – a mwynhau mynd gyda'i ffrindiau i Glwb Ffermwyr Ifanc Felinfach a chlwb hyfforddi Cymorth Cyntaf.

Wedi bennu'n yr ysgol, aeth ymlaen i goleg Bangor i hyfforddi i fod yn athrawes goginio. Home Economics oedd yr enw ar yr astudiaethau bryd hynny. Os oedd Bangor yn ddinas bell i ferch o Betws Bledrws, treuliodd bum mlynedd gyntaf ei gyrfa ymhellach fyth ac mewn dinas llawer mwy o faint – yn dysgu yn Birmingham.

Daeth yn ôl o Birmingham i ddyffryn Teifi yn 1968 a chael swydd yn dysgu yn ei hen ysgol yn Llambled. Yno y bu hi am ugain mlynedd, tan ei hymddeoliad yn 1988, yn dysgu degau o blant y fro. Gorfod gadael oherwydd ei hiechyd a wnaeth hi; y diweddar Dr Lloyd roddodd ei droed i lawr, ac oni bai am hynny, ni fyddai neb yn synnu petai Sally yn dal i weithio a dysgu degau'n rhagor o ieuencid! Mae'r ffaith bod rhai yn dal i'w galw yn Sally Cook hefyd yn dyst i'w dylanwad arhosol fel athrawes.

Mae Sally yn gymwynasgar ac yn ofalus iawn o'r henoed. Mae hi ac Eifion ei gŵr yn aelod o'r tîm 'Country Cars' sy'n cario pobol heb gar i apwyntiadau ac ati, sy'n wasanaeth gwerthfawr. Mae hi wedi bod yn gwneud y gwaith hwn oddi ar 1991, ac un o'i anrhydeddau pwysicaf yw iddi fod yn un o 60 a dderbyniodd fathodyn mewn gwasanaeth yng Nghaerdydd adeg Jiwili'r Frenhines yn 2012. Mae'r lluniau ohoni gyda'r fedal, ac yn ei derbyn gan yr enwog Roy Noble, yn golygu llawer iddi.

Yn ogystal a'r 'Country Cars',

mae Sally hefyd wrth ei bodd yn helpu gydag Hamdden, cymdeithas henoed Llangybi, ac yn llwyddo i drefnu tripiâu amrywiol ar eu cyfer – a sawl bargaen yn ôl y sôn! Sally a Mair ei chwaer sy'n bennaf gyfrifol am raglen cymdeithas Hamdden, er mwyn sicrhau bod unigolion a henoed y fro yn dod at ei gilydd i fwynhau cwmni a diddanwch.

Fyddai eglwys y Presbyteriaid yng nghapel Maesffynnon, Llangybi, yn llawer tlotach heb waith y ddwy chwaer, Mair a Sally. Nhw'u dwy yw swyddogion a blaenoriaid y capel. Mae Sally yn rhan allweddol o'r trefniadau ar gyfer cyngerdd y capel yn yr haf, ar y cyd a Mair Morgan;

Sally sy'n cyflwyno'r artistiaid gwadd a gwneud anerchiad. Os ydych chi'n rhan o griw sy'n gallu canu neu adrodd neu ddiddanu cynulleidfa, ac os nad ydych chi eisoes wedi bod yn Maesffynnon, watshwch mas, bydd Mair Morgan neu Sally yn siŵr o ddod i glywed amdanoch chi! A chewch groeso arbennig yno, a the yn y festri hefyd.

Priododd Sally â'r Parchedig Watcyn Davies o Gapel Dewi, Llandysul, yn 1967. Gweinidog gyda'r Undodiaid oedd Watcyn; bu Sally felly yn wraig gweinidog am gyfnod. Ond byr oedd y cyfnod yn anffodus; bu farw Watcyn yn 1971 wedi dioddef o leukemia. Dyma ergyd drom a cholled fawr i Sally, ond wynebodd y golled yn wrol a dirwgnach.

Cyfarfu Sally ag Eifion Davies o Blaenffos, sir Benfro, a phriodwyd y ddau yn 1978. Mae Eifion hefyd yn gymeriad cymwynasgar. Ac er taw bach o gorff yw e, mae'n un gwydn a chryf. Mae pawb yn y fro yn adnabod Eifion; bydd e ar flaen y gad yn cario piano Côr Meibion Cwmann ar draws maes yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol, a does dim yn ormod o ffwdan iddo.

Nid yw teithio yn beth diarth i Sally. Bu ar lawer o deithiau gyda phlant ysgol Llambled. Erbyn hyn, mae'n mwynhau mynd ar wyliau gydag Eifion, a bydd y ddau yn ddi-ffael yn mynychu teithiau Grŵp Trafod Amaethyddol Llambled i ddysgu mwy am arferion a hanes gwahanol ardaloedd.

Mae Sally yn hoff o gathod, ac mae Four Winds wedi bod yn noddfa i sawl cath yn yr ardal ar hyd y blynyddoedd. Mae hyn yn ddarlun o'i phersonoliaeth hael a chymwynasgar. Dyw Sally ddim y teip i wrthod helpu neu i beidio gwneud cymwynas, p'run ai eich bod chi'n ei nabod hi fel Sally Tynrhos, Sally Cook, neu Sally Davies Four Winds.

Llanbedr Pont Steffan

Grŵp Trafod Amaethyddol Llambod

Aeth y Trip blyneddol i gyfeiriad Gogledd Cymru eleni, ar 5 Medi, gan aros yn Llety Parc i gael brecwast cyn mynd ymlaen i Farchnad Da Byw y Trallwng i gymharu prisiau'r ŵyn a'r gwartheg. Ymwelwyd a fferm John Yeoman ger y Drenewydd ac yna ymlaen i'r 'Premier Inn' yng Nglan Conwy. Ar y Dydd Mawrth, aed i Landudno ac i fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y Gogarth sydd a thenant newydd erbyn hyn a rhent rhesymol iawn o £1 y flwyddyn i adlewyrchu'r anawsterau sydd angen dygymod a hwy! Ymwelwyd a Llaeth y Llan yn y prynhawn lle cafwyd croeso arbennig gan Gareth a Falmai Roberts a'r teulu. Soniwyd am hanes creu'r cwmni gan ddechrau'n fychan hyd at fod yn fyd enwog am eu iogwrt erbyn hyn, sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffatri fodern a phroffesiynol iawn. I Ystâd y Rhug ger Corwen aeth yr aelodau ar y dydd Mercher a chael eu tywys o amgylch yr Ystâd gan Gareth Jones. Gwelwyd y beison, defaid, ieir a thwrcwn. Cafwyd cinio yn Siop yr Ystâd sy'n enwog iawn am ei chynnyrch organig. Yn y prynhawn aethant i Ganolfan Genus yn Ruthin. Ar y dydd Iau, talwyd ymweliad a fferm Alun Williams, Gwytherin, ar Benrhyn Llŷn. Fferm biff a defaid gyda stoc o ansawdd arbennig. Cafwyd cinio yn Aberdaron ac yna talwyd ymweliad a fferm sy'n cael ei rheoli gan Elgan Davies ac sy'n godro 900 o wartheg tu allan – golygfa gwerth ei gweld. Dydd Gwener cafwyd cyferbyniad llwyr ar fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sef Hafod Y Llan, sy'n cael ei rheoli gan Arwyn Owen. Bugail sydd wedi cyfarwyddo a chaledi ffermio ar yr ucheldir. Yna cafwyd siwrne ar y tren o Borthmadog i Ffestinog drwy ardal hardd iawn. Ar y Dydd Sadwrn y lleoliad cyntaf oedd Ty Halen lle cynhyrchir Halen Mon. Cafwyd cinio yn Siop Fferm Michael Hooton sy'n cynhyrchu a gwerthu'r holl gynnyrch. Roedd pryd olaf y trip yn Llety Parc. Diolch i Margaret Dalton am y crynodeb ac hefyd hoffai Margaret, ar ei hymddeoliad o drefnu'r tripiâu ynghyd ag Aneurin Davies, ddiolch i bawb am wneud yr holl dripiâu yn rhai cofiadwy dros y 35 mlynedd y bu'n trefnu. Mae wedi gwneud ffrindiau lu ar hyd a lled y wlad a thu hwnt ac mae ganddu lu o atgofion (i'w cofnodi rywbyrd, efallai).

Cynhaliwyd y Cinio Blyneddol ar 6 Ionawr yn y Clwb Rygbi gyda 76 yn bresennol. Offrymwyd gras gan Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Wedi'r pryd blasus iawn cafwyd annerchiad gan Alun Elidir, y gŵr gwadd o Raglen Ffermio. Rhoddodd hanes ei fywyd fel actor, ffermwr mynydd a chyflwynydd. Soniodd am ei deithiau i wledydd tramor gan gwrdd a nifer o wahanol bobl oedd bob amser mor groesawgar i dim Ffermio. Enillwyd y cystadlaethau oedd: Gwair – 1af David Williams, Dolaugwyrdion; 2ail Carwyn Davies, Penlan; 3ydd Craig Williams, Cilgwyn. Silwair Clamp – 1af Elgan Evans, Bryngwyn, yn ennill cwpan Coffa Tim Morgan, Coedparc; 2ail Elfyn Morgans, Glwydwern a 3ydd Iwan Jenkins, Tyllwyd. Byrnau Mawr Silwair – 1af Gareth Jones, Cilerwisg; 2ail Carwyn Davies, Penlan; 3ydd

Eilir Jones, Dremddu Fawr. Enillwyd Cwpan y diweddar Albert Evans gan Gareth Jones, Cilerwisg sef prif enillydd y Gwair a'r Silwair. Enillydd y Gystadleuaeth Ffotograffiaeth ar y testun Gweithgaredd Fferm oedd Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Diolch yn fawr i Stephen Griffiths a Chwmni Bwydydd Anifeiliaid Lloyds am ddadansoddi'r cnydau. Cyflwynodd Anwen Hughes rodd i Eurig Jenkins am ei waith fel Cadeirydd y tymor blaenorol.



Enillwyr cystadlaethau'r flwyddyn gyda Alun Elidir (gŵr gwadd) ac Annwen Hughes (Cadeirydd).



Am eu gwaith diflino yn trefnu'r tripiâu blyneddol, cyflwynodd Dai a John Evans (Trysoryddion, ond sydd ddim yn y llun) gloc yr un i Mrs Margaret Dalton a Mr Aneurin Davies. Mae Mrs Dalton wedi trefnu am 35 mlynedd tra bu Aneurin yn ei chynorthwyo am 17 mlynedd. Diolch o galon i'r ddau ohonynt am eu holl ymdrech ac ymroddiad. Cyflwynwyd llun mewn ffram hefyd i Alun y gyrrwr bws. Talwyd y diolchiadau gan Aneurin Davies.

Bydd braslun o Raglen y Tymor yn y rhifyn nesaf. Bydd y tymor yn dod i ben ddiwedd Mis Chwefror.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Dechreuwyd y flwyddyn yn llwyddiannus iawn yn yr ardal yma gyda pherfformiad gwych Teilwng yw'r Oen yn Theatr Felinfach. Hoffwn longyfarch pawb o ardal Clonc a fu'n canu a chymryd rhan yn y perfformiad ysbrydoledig yma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar hefyd y bydd, o ganlyniad i'r cytundeb gyda Phlaid Cymru y llynedd, yn agor cronfa triniaeth newydd gydag £80 miliwn i gyflymu mynediad at y meddyginiaethau diweddaraf un. Arweiniodd y system anghyfartal flaenorol at anghysondebau mewn hygrychedd at gyffuriau mewn gwahanol ardaloedd ar draws Cymru. Fe fydd y cytundeb i ymrwymo'r arian dros y pedair blynedd nesaf yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer o etholwyr sy'n cael trafferth derbyn y cyffuriau neu'r driniaeth sydd angen arnynt ar frys.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo'n ddiweddar i sefydlu Strategaeth Dementia, y cyntaf o Lywodraethau'r DU i wneud hynny. Mae 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ar hyn o bryd, ac mae teuluoedd llawer o etholwyr yng Ngheredigion sydd â dementia wedi cysylltu â mi, yn pryderu am eu gofal yn y tymor hir. Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle gwych ar gyfer gosod targedau clir er mwyn gwella ansawdd bywydau, a gobeithiaf y bydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu dealltwriaeth o ddementia a'r ffyrdd gorau i helpu pobl.

Rwy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd â swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac yn parhau i bwysu am gynnydd mewn cynlluniau newydd ac ar amseroedd aros. Yn ddiweddar, rwyf wedi codi mater gofal orthodonteg i bobl ifanc yng Ngheredigion, a hefyd wedi codi'r cynlluniau ar gyfer Tregaron ac Aberteifi. Rwy'n falch i weld bod pethau'n datblygu, ond mae'r prosiectau hyn wedi bod ar y gweill am amser hir, mae'n hen bryd yn awr i weld cychwyn ar y gwaith adeiladu.

Drefach a Llanwenog

Gyrru Car

Longyfarchiadau i Ffion Caryl Evans, Llwynrhos ar basio ei phrawf gyrru car ar ddechrau'r flwyddyn. Pob hwyl gyda'r gyrru.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Irene Fletcher, Llwynycelyn Mawr ar golli ei gŵr Brian a fu farw yn ystod mis Ionawr. Roedd Brian yn adnabyddus ym myd y ceffylau pan enillodd y 'Grand National' yn 1973 a 1974 gyda'i geffyl Red Rum.

Llwyddiant cerddorol

Longyfarchiadau i Meri Elen Morgan, Rhydyfelin am basio Step 2 ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music' gyda chlod.

Sefydliad y Merched

Cawsom groeso cynnes gan

Christine ein Llywydd ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Bu tipyn o drafod ar y syniad o Ddydd y Calonnau Gwyrddion i godi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd. Gofynnir i'r aelodau wneud calonnau allan o unrhyw ddefnydd, - boed carden, gwlan, bisgedi, a.y.y.b, a bwriedir eu dosbarthu yn yr ardal.

Siaradwraig y noson oedd Ann Smith, aelod cymharol newydd SyM Llanwenog. Roedd wedi dewis siarad am y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, Kung hei fat Choi. Bu Ann a'r teulu yn byw yn Hong Kong am yn agos at 20 mlynedd, pan oedd ei gŵr yn gweithio i gwmni Cathay Pacific. Bu Ann yn rhedeg Meithrinfa yno, ac roedd ei haraith yn hynod ddiddorol.

Fel diweddsglo, daeth a bwyd traddodiadol i bawb i'w flasgu, a pecyn bach coch ag arian siocled ynddo. Noson ardderchog! Diolch.

Drefach a Llanwenog



Eglwys Llanwenog

Ar daith gerdded 140 o filltiroedd Cymorth Cristnogol o Fethlehem, Sir Gâr i'r Aifft, Sir Ddinbych, i godi arian ar gyfer ffoaduriaid, galwodd y grwp yn Eglwys Llanwenog lle y cawsont luniaeth ysgafn a hanes yr Eglwys.



Yr wythnos ddiwethaf, cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd Ysgol Llanwenog. Roedd y cystadleuwyr wedi paratoi ac wedi ymarfer yn dda ac fe greodd pawb bryd blasus gan ddefnyddio bresych fel un o'r prif gynhwysion. Diolch yn fawr iawn i Denise Rickards am feirniadu'r gystadleuaeth. Yn fuddugol oedd Hannah Ayoanadu, yn ail roedd Elen Morgan ac yn drydydd roedd Elin Lloyd. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

C.Ff.I. Llanwenog

Daeth Gethin Morgans yn 6ed yn y gystadleuaeth barnu stoc da tew yn y ffair Aeaf.

Cynhaliwyd Siarad Cyhoeddus Saesneg y sir ym mis Rhagfyr. Canlyniadau'r clwb – Dan 14: Hanna Davies 2il fel cadeirydd, Sioned Fflur Davies 3ydd fel darlennydd, Tîm Llanwenog D yn 2il. Dan 16: Ffion Evans yn 2il fel cadeirydd, Alpha Evans yn 2il fel siaradwr, Briallt Williams 3ydd fel diolchydd, Tîm Llanwenog yn 2il. Dan 21: Sioned Davies yn 2il fel cadeirydd, Rhys Davies yn 2il fel siaradwr, Tîm Llanwenog yn 2il. Dan 26: Elin Jones yn 2il fel siaradwr. Llanwenog yn 1af ar ddiwedd y dydd.

Bu'r clwb yn canu carolau ar 19 Rhagfyr. Cafodd dros £1,400 ei godi ac mae canran o'r arian yn mynd tuag at elusen Blood Bikes Cymru.

Fe wnaeth 3 tîm o'r clwb gymryd rhan yng nghwis y sir yn Llambled. Daeth Llanwenog C yn 3ydd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y sir ar 22 Ionawr. Canlyniadau'r clwb – Dan 14: Sioned Davies yn 1af fel darlennydd, Tîm Llanwenog B yn 2il. Dan 16: Ffion Evans yn 1af fel

cadeirydd, Twm Ebbsworth yn 1af fel Siaradwr, Briallt Williams yn 3ydd fel diolchydd, Hanna Davies yn 2il fel diolchydd. Tîm Llanwenog A a B yn gydradd 1af. Dan 21: Carwyn Davies yn 2il fel cadeirydd, Rhys Davies a Sioned Davies yn gydradd 2il fel siaradwyr, Tîm Llanwenog A yn gyntaf. Dan 26: Elin Jones yn 3ydd fel siaradwr. Llanwenog yn dod yn 1af ar ddiwedd y dydd. Diolch i bawb a helpodd.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y clwb www.cffillanwenog.co.uk

Eglwys Llanwenog

Ar nos Wener, 2 Rhagfyr, daeth hanner cant o aelodau a ffrindiau'r Eglwys ynghyd am wledd o swper ac adloniant ar y thema 'Noson Patagonia'. Cafwyd llond bol o Chile Con Carne cartref, pwdinau di-ri a gwin. Diddanwyd ni gan Gwennan a Siwan yn adrodd eu hanes yn teithio i'r Wladfa. Bydd elw'r raffl yn cael ei ddefnyddio i brynu adnoddau yn Ysgol y Cwm, Trefelin, sef ysgol newydd Gymraeg ym Mhatagonia.

Cynhaliwyd Noson Cwis, Caws a Gwin llwyddiannus arall yn yr Eglwys Fach ar Nos Wener, 20

Ionawr. Y tîm buddugol oedd Suzy, Lynne a Geraint, gyda 11 enillydd lwcus ar y raffl ac elw o £166 ar ddiwedd y nos.

Rydym yn edrych ymlaen at y noson gymdeithasol nesaf ar y calendr sef 'Hanes Tŵr Llundain' gan David Cooper ar nos Wener, 24 Chwefror. Pris tocyn bydd £10 sy'n cynnwys swper, pwddin a diod. Rhaid archebu tocyn ymlaen llaw gyda Lynne ar 481256 cyn 17 Chwefror os gwelwch yn dda.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Mary Thomas, Ffosffald, un o organyddion ffyddlon yr Eglwys, ar ôl triniaeth diweddar. Hefyd, Mrs Margaret Rees sydd yn Ysbyty Glangwili. Cofion cynnes atoch.

Ysgol Llanwenog

Croeso o'r mwyaf i Noa Potter Jones sydd wedi ymgartrefu'n hynod hapus yn y dosbarth derbyn ac yn mwynhau ei ddechreuad yn yr ysgol.

Hefyd, croeso i Stacey Burgess sy'n fyfyrwraig ar brofiad gwaith o Goleg Ceredigion, Aberystwyth. Mae Stacey yn mwynhau ei chyfnod yn y Cyfnod Sylfaen ac fe fydd gyda ni tan fis Gorffennaf.

Bu tîm pêl rwyd yr ysgol yn

cystadlu mewn cystadleuaeth yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llambled yn ddiweddar. Chwaraeodd aelodau'r tîm sef Hannah, Elen, Elin, Dwynwen, Harri, Teifi a Teleri yn dda iawn.

Croesawyd Ficer Suzy Bale i'r ysgol i gymryd gwasanaethau wythnosol yn ogystal â thrafod ac ysgrifennu gweddïau gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Rhaid peidio anghofio'r gyngerdd hyfryd a gafwyd yn Eglwys Santes Gwenog i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd eitemau amrywiol gan unigolion, grwpiau a chôr yr ysgol. Roedd yr eglwys yn orlawn ac roedd y naws yn hyfryd, yn draddodiadol ac yn Nadoligaidd iawn. Da iawn chi blant.

Cyn diwedd y tymor aeth y plant i gyd am drip i'r sinema yn Abertystwyth i weld ffilm ac i gael bwyd blasus ar y Pier.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Hanna Davies, Ger-y-nant ar ei llwyddiant ym myd Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg C.Ff.I. Ceredigion yn ddiweddar. Da iawn ti.



Aelodau'r Gymdeithas Hŷn yn mwynhau cinio Nadolig yng Nghlwb Rygbi Llambled. Diolch i bwyllgor mabolgampau Cwrtnewydd am eu cyfraniad ariannol tuag at y costau.

Ysgol y Dderi

“Technowych” yw thema blwyddyn 5 a 6 yn ystod yr hanner tymor yma ac maent wedi cael lluo o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wrth ymchwilio hanes technoleg. Daeth Heulwen o gwmni @atebol i gynnal gweithdy apiau Cymraeg gyda’r disgyblion a bu Rhodri o Fenter Iaith Ceredigion sef CERED yn cyflwyno cystadleuaeth Minecraft i’r plant. Cafwyd diwrnod bendigedig yng nghwmni Guto Aaron yn datblygu sgiliau côdio’r plant. Uchafbwyntiau’r dydd oedd creu piano allan o fananas a chreu bysellfwrdd allan o does! Bu Tim Martin o gwmni cyfrifiaduron IBM yn sgwrsio am ei waith gyda’r disgyblion a chafwyd prynhawn hynod ddifyr yn ei gwmni.

Fel rhan o’u thema “Popio i fyn”, aeth dosbarth Derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 ar daith i Gaerdydd i gael y profiad gwych o wyluo sioe gerdd Mary Poppins yng Nghanolfan y Mileniwm yn y bae. Roedd y canu, actio, cerddorfa, gwisgoedd, set a’r effeithiau arbennig yn ddigon o ryfeddod! Dyna beth oedd diwrnod “supercalifragilisticexpialidocious!!”

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yng Nghastell Henllys i astudio bywyd y Celtiaid fel rhan o’u thema “Breuddwyd i dderwydd”. Tywyswyd y plant o gwmpas y bryngaer yng nghwmni Brân ac Arianrhod ac roedd y ddau wedi paratoi gweithgareddau diddorol i’r plant fel adeiladu wal tŷ crwn, astudio arfau Celtaidd, peintio wynebau, malu blawd, coginio bara, pysgota, rhyfela a llawer mwy! Buom yn lwcus iawn o’r tywydd hefyd a chawsom ddiwrnod i’r brenin.

Llongyfarchiadau i Martha am ddod i’r brig yng nghystadleuaeth Cogurdd Ysgol y Dderi. Pob lwc yn y rownd nesaf. Diolch hefyd i Miss Jen am gynnal clwb coginio i blant blwyddyn 6 bob nos Lun, drwy’r flwyddyn. Mae’r plant i gyd yn cael cyfle i goginio pítsa, sgons, byrgyrs, cacen lemwn, bara a llawer mwy, ac yna yn cael mynd adref a’u cynnyrch i rannu o gwmpas y bwrdd adref. Blasus iawn!

Da iawn i’r holl blant fu’n cynrychioli’r ysgol yng nghystadleuaeth pêl-urwyd yr Urdd, Cylch Llambod yn ddiweddar. Llwyddodd y tîm i gyrraedd y ffeinal, ond Bro Pedr ddaeth i’r brig. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf.



Gwylwch allan am label newydd ar boteli llaeth 2L Calon Wen yn y dyfodol agos! Dyluniwyd y label gan Andrew Davies o flwyddyn 4 wedi iddo ennill cystadleuaeth genedlaethol. Roedd 260 o geisiadau, ond llwyddodd Andrew i ddod i’r brig. Rydym yn falch iawn ohono – da iawn ti.

Cyrhaeddodd Mrs Spate garreg filltir bwysig yn hanes Ysgol Y Dderi wrth i ni ddathlu deugain mlynedd o’i gwasanaeth diflino dros blant yr ysgol. Mrs Spate sy’n cadw trefn ar arian cinio yr holl staff a disgyblion. Llongyfarchiadau mawr a diolch.

Mae disgyblion blwyddyn 4 a 5 wedi cychwyn ar eu prosiect Ysgolion Arweiniol Creadigol trwy ymweld â’r Llyfrgell Genedlaethol ac Abaty Ystrad Fflur. Mi fydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol trwy astudio celf a diarhebion Cymreig.



Aethom i Abaty Ystrad Fflur ble fu mynachod yn treulio oriau lawer yn ysgrifennu’n gywrain ar femrwn. Wyddoch chi mai ystyr Ystrad Fflur yw dyffryn y blodau? Ac ar ddydd Gŵyl Dewi, mae’r haul yn gwawrio ac yn machlud yn union o gyfeiriad wal orllewinol a wal ddwyreiniol yr Abaty! Yn y llyfrgell, cawsom weld trysorau’r genedl sef Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Gwyn Rhydderch a Llawysgrifau Peniarth 28 sy’n cynnwys cyfreithiau enwog Hywel Dda. Roedd y llawysgrifau werth eu gweld. Yr arlunwyr Helen Duffee a Becky Knight sydd yn arwain ein taith greadigol.

Cofiwch ddilyn holl newyddion Ysgol y Dderi ar ein cyfrif Trydar @ysgol_y_dderi

Hamdden

Croesawyd pawb i’r Hedyn Mwstard gan y llywydd Janet Farrow. Dymunodd yn dda ac adferiad buan i bawb a fu mewn ysbyty yn ddiweddar a chydymdeimlodd yn ddwys â theulu y diweddar Joyce Harris. Fe gwelir ei heisiau yn fawr.

Roedd arddangosfa goginio wedi ei drefnu ymlaen llaw a dangoswyd i ni sut oedd gwneud ‘Chelsea Buns’. Roedd yn ymddangos yn hawdd! Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am brynawn diddorol ac addysgiadol gan Gwen Lewis. Cyn dychwelyd adref cafwyd lluniaeth ysgafn a phawb yn gwerthfarwogi’r danteithion.

Enillwyd y raffl gan Maisie Morgans, Gwen Lewis, Barry Williams, Rita Jones, Janet Farrow, Sally Davies a Janet Courtney.

Croesawyd pawb yn llawen iawn gan y llywydd gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ar 6 Ionawr yn Nhafarn Cwmann. Yno y dathlwyd Cinio Calan eleni ac fe gawsom ginio blasus iawn gyda chwmni diddan. Diolchwyd i’r staff am yr ymborth arbennig gan Janet Farrow. Cyfnewidiwyd anrhegion ymysg yr aelodau.

I’r cyfarfod nesaf ar 3 Chwefror, rydym yn disgwyl Dinah Williams i sôn am afiechydon y llygaidd yn Ysgol Y Dderi am 2.00y.p.

Merched y Wawr

Cyfarfu’r gangen ar 30 Tachwedd a chroesawyd pawb gan y llywydd Gwyneth Jones. Y wraig wadd oedd Claire Parsons ac fe fu’n brysur yn ein hyfforddi ac yn arddangos dull gwahanol o wneud Cardiau Nadolig, ac yna pawb yn ceisio ymateb i’w chyfarwyddiadau. Diolchwyd iddi am noson hyfryd gan Ann Davies. Rhoddwyd y Raffl gan Margaret Davies-Jones ac fe’i henillwyd gan Mair Spate. I ddiweddu’r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei rhoi gan Mary Jones a Mair Spate.

Dathlwyd ein cinio Nadolig yn yr Hedyn Mwstard ac yno cawsom groeso cynnes, lluniaeth bendigedig a chwmni difyr. Traddodwyd y fendith gan Ann Davies. Cyfnewidiwyd anrhegion Nadolig ymysg yr aelodau.

Cyfarfu’r gangen ar 18 Ionawr o dan lywyddiaeth Gwyneth Jones a hi a fu’n dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb a chroesawu’r wraig wadd sef Eirwen James. Cawsom noson fendigedig a hanesyddol yn ei chwmni yn hel atgofion a hanes Stâd Y Dderi. Mae’n rhyfedd meddwl faint o’i hanesion sydd ar gôf ond hefyd faint o’r hanes sydd ar goll. Mae’n bwysig fod hanes lleol yn cael ei gofnodi er mwyn y genhedlaeth a ddaw. Talwyd pleidlais o ddiolch gwresog i’r siaradwraig gan Ann Davies, am noson ddifyr, hyfryd a ddiddorol ac fe erys yr orig yn ein cof am flynyddoedd.

Rhoddwyd y Raffl gan Gwyneth Jones ac fe’u henillwyd gan Eirwen James, Roger Hartwell a Mary Jones. I ddiweddu’r cyfarfod cawsom de a bisgedi wedi eu rhoi gan Eleanor Evans a Margaret Davies-Jones.

I’r cyfarfod nesaf ar 15 Chwefror rydym yn disgwyl y Parch Suzie Bale i arddangos dillad yr oes a fu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn a phob teulu a fu mewn profedigaeth yn ystod yr wythnosau olaf yma a’i cysylltiadau teuluol a ffrindiau hefyd.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu mewn ysbyty neu mewn gwaeledd adref. Brysiwch wella i gyd.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw’r golygydd o reidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Llanwnnen

Colled

Cydymdeimlwn gyda Roy a Ceinwen Roach, Maes yr Wyn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd Ceinwen yn ystod mis Rhagfyr.

Dyddiau cyn y Nadolig colodd Gwilym Davies, Llys Aeron ei frawd Idwal a oedd dal yn byw yn Felinfach. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Gwilym a Gwen yn Llys Aeron ac hefyd gyda Heulyn a Jenny Davies a'r teulu oll yn y brofedigaeth yma.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Catrin a Llew Thomas, Castell Du ar gael ŵyr bach – Trystan Rhys ar ddiwedd 2016.

Diolch

Dymuna Nerys Evans a'r teulu, 10 Bro Grannell a Wyndham Jones, Mynach Villa, Cribyn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd adeg eu profedigaeth o golli gwraig, mam a mamgu annwyl, sef Ann. Diolch hefyd i bawb am y rhoddion caredig tuag at Uned Cardio Anadlol Glangwili. Casglwyd £450. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mair Davies, Sŵn-y-nant ddiolch o galon am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ystod mis Rhagfyr.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr ar nos Lun y Sed gydag Avril Jones yn Llywyddu. Ar ôl trafod y materion busnes perthnasol, mwynhawyd cwmni Chris Sheath a'i merch, Sarah Patterson, o Siop Hen Bethau, Alltrodyn, a fu'n dangos ystod o greiriau diddorol, a oedd yn perthyn i wahanol gyfnodau. Un o'u cynghorion oedd y dylem ni roi unrhyw wybodaeth sydd gennym am hen bethau yn ein meddiant ar gof a chadw, ta pha mor ddibwys ydyw, a rhoi gwybod i'n plant neu aelodau eraill o'r teulu am fodolaeth y wybodaeth hon, fel bod hanes y dodrefnyn neu'r llestr neu'r darn o emwaith yn cael ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Cyn ymadael cafwyd paned o de a bu Chris

yn beirniadu'r canhwylau, sef y gystadleuaeth fisol. Gosodwyd kannwyll Avril Jones yn gyntaf, Irene Jackson yn ail a Jean Jones yn drydydd. Enillwyd raffl y noson gan Doris Davies.

Taith Pwyllgor Lles y Pentref

Aeth llond bws o drigolion yr ardal ar daith, a drefnwyd gan y Pwyllgor Lles, i Blasty Abaty Cwm Hir yn ddiweddar. Treuliwyd orig fach dros ginio yn Llandrindod ac yna mwynhawyd prynhawn cyfan yn cael ein tywys yn hamddenol drwy 52 ystafell foethus y Plasty, a oedd wedi'u haddurno ar thema wahanol ar gyfer y Nadolig. Cyn troi am adref buom yn gwledda ar ginio Nadolig blasus, a oedd wedi'i baratoi ar ein cyfer yn neuadd y pentref. Diolch yn fawr i'r Pwyllgor am drefnu trip difyr dros ben a diolch i Mr Dai Williams, Dolauwgwyddion am fod yn arweinydd ar y dydd.

Mab bach

Ar ddechrau 2017 ganwyd mab bach, Gwion Alan i Steffan a Sara, Gerallt, Bro Grannell. Dymuniadau gorau i chwi eich tri.

Dyweddïo

Ar ddiwrnod Nadolig dyweddïodd Steffan a Sara, Gerallt. Llongyfarchiadau gwresog i chwi eich dau.

Llongyfarchiadau i Trystan Hammond, Llain delyn ar ei ddyweddïad â Seren Hinton Jones ar ddechrau mis Ionawr. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Ceinwen Roach ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati ar farwolaeth ei brawd. Gwerthfawrogwyd y cardiau, y galwadau ffôn a'r galwadau â'r cartref yn fawr.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Arwyn Davies, Caemawr, Maes-yr-haf ar ei ben-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Ionawr. Pob lwc i ti.



Llongyfarchiadau i Demie-May Gavin disgybl blwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth 'Cogurdd' yr ysgol. Roedd saith disgybl yn ceginio a'u tasg oedd gwneud Tabbouleh Blodfresych. Siân Jenkins, Tyllwyd a'i mam Mary Jenkins, Cathal a gafodd y dasg o'u beirniadu. Diolch o galon i chi am roi o'ch hamser. Rhys Williams oedd yn ail a Beca Jones oedd yn drydydd. Mi fydd Demie yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf yng nghanol mis Chwefror. Diolch o galon i bawb am wneud sioe mor dda.

Ysgol Llanwnnen

Croeso mawr i Beca Elias Davies a Lyra Neale sydd wedi cychwyn yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen ers mis Ionawr. Maent wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau eu hunan yn fawr.

Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol am gystadlu yng nghystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd yn Llambod. Roedd aelodau'r tîm wedi chwarae yn dda iawn. Aelodau'r tîm oedd Demie, Amy, Beca, Ffion, Swyn, Nia, Rhodri, Rhys, Gruff a Nat.

Bu cyngerdd a ffair Nadolig yr ysgol yn llawer o sbri a diolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo ac i'r plant am noson arbennig. Bu pob aelod o'r dosbarth hŷn wrthi yn cynllunio a threfnu eu stondin gan fwynhau'r noson o brynu a gwerthu yn fawr. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi ein Ffair.

Ar ddiwedd y tymor aethpwyd am drip i'r sinema yn Aberystwyth i fwynhau ffilm a phopcorn er mwyn diolch i'r disgyblion am eu holl waith yn ystod y tymor.

Cawl a Chân

Cynhelir Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen ar nos Wener, 3 Mawrth am 7.00yh. Artistiaid: Ysgol Gynradd Llanwnnen a C.Ff.I. Llanwenog. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad

Gobeithio fod John Jones, Troed y Bryn yn teimlo lawer yn well erbyn hyn yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Cymanfa ddathlu
WILLIAMS
PANTYCELYN
1717-91

EITEMAU GAN:
Gôr Corisma
Côr Meibion
Cwmann
Côr Lleisiau'r Werin

Nos Sul 12 Chwefror 2017
am 6 yr hwyr yng Nghapel
Shiloh, Llanbedr Pont Steffan

Ehw i Gymorth Cristnogol

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1				
8	7		3		
3	5			8	9
7	4	1		2	6
				9	
		8		5	7 4 2
5			2		7 8
				9	6 1
					5

Swdocw Rhagfyr:

Llongyfarchiadau i **Lauren Mc Leary, Cwrt Dulas, Llanbedr**, a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Betty Prydderch, Tyngrug, Llanllwni a Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch.

8	5	9	1	4	7	6	2	3
1	2	7	3	8	6	5	9	4
4	6	3	5	9	2	1	7	8
2	8	6	7	1	5	4	3	9
9	4	5	8	6	3	7	1	2
3	7	1	9	2	4	8	5	6
5	9	8	4	3	1	2	6	7
6	1	4	2	7	9	3	8	5
7	3	2	6	5	8	9	4	1



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel mae 2017 wedi cyrraedd o'r diwedd ac nid yw'n rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd!

Wel llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth liwio llun y Nadolig yn rhifyn mis Rhagfyr. Mi fuodd y postmon yn brysur iawn yn eu cario nhw i'r tŷ. Llongyfarchiadau i Betsan Gwladys o Langeitho a Nia Williams o Lanwnnen am luniau lliwgar a thaclus iawn. Ond am liwio llun bendigedig, enillydd y mis hwn yw Elin Pugh, 7 Bryn Ardwyn, Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr i ti ac i bob un arall wnaeth gystadlu. Cofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto.

Wel blantos, ar ôl yr holl brysurdeb dros yr wythnosau diwethaf rwyf wedi blino'n lân. Rwyf wrth fy modd yn cysgu'n sownd yn fy nghragen fach esmwyth. Ond chwarae teg mae fy ffrind Tani'r dylluan yn gofalu amdanaf, rhag i mi gael unrhyw niwed.

Beth am liwio llun o Tani'r dylluan a'i ddychwelyd i mi erbyn dydd Llun, 20 Chwefror.


Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Elin
Pugh

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Cronfa Ddata Enwau Lleoedd Cymru (90)

Mae darllenwyr y golofn hon eisoes wedi cael cyfle i ddarllen am hynt a helynt y Bil Treftadaeth Hanesyddol (Cymru) wrth iddo gael ei drafod ar lawr y Cynulliad. Bellach aeth y Bil yn Ddeddf. Deil yn ofid mawr inni nad oes grym cyfreithiol i warchod enwau lleoedd yn y ddeddfwriaeth.

Rhoddodd Adran 34 o Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd Hanesyddol Cymru. Mae'n hysbys erbyn hyn mai Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) fydd yn gyfrifol am lunio a chynnal y rhestr.

Cyfarfu'r Grŵp Llywio am y gwaith cyntaf ym mis Tachwedd 2016. Yn bresennol roedd cynrychiolwyr o Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Iaith, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Ganolfan Uwchegyddiaid Cymreig a Cheltaidd.

Yr amcanion yw:

- Cynghori'r Comisiwn ar ddatblygu a chynnal polisi ar gyfer casglu enwau lleoedd yng Nghymru.
- Cynghori'r Comisiwn ar flychau neu wendidau yn yr ymddiriedolaeth ag enwau lleoedd ar hyd a lled Cymru.
- Ymchwilio i feysydd lle y gall sefydliadau a gynrychiolir ar y grŵp gydweithredu â'i gilydd er gwella'r gwasanaethau'n ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol Cymru.
- Bod yn fforwm trafodaeth a rhannu gwybodaeth.

Erbyn Ebrill 2017 gobeithir sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol - am yr hir dymor.

Y nod yw lansio'r gronfa yn ei gwedd ddechreuol ym mis Ebrill. Bydd fframwaith sylfaenol y gronfa ddata yn ei lle ac yn weithredol erbyn hynny a rhai pethau yn barod i'w harddangos. Bydd angen, yn naturiol, sicrhau bod adnoddau digonol ar gael o ystyried anferthedd y gwaith arfaethedig. Cafwyd rhagflas o ddefnyddiau yn dangos enwau plwyfi ac amryw raniadau gweinyddol.

Bu cyfle wedyn i ddechrau ystyried gwaith Comisiynydd y Gymraeg o ran safoni enwau, adnoddau ac arbenigedd y Llyfrgell Genedlaethol, (Cynefin, Cymru 1900 etc. ac ym maes TG), adnoddau mewn archifdai lleol, adnoddau'r Ymddiriedolaethau Archeolegol, pwysigrwydd gwarchod defnyddiau Taliad Sengl, Cronfeydd Data dan ofal CELIC a gwaith mapio digidol dan adain Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, gwaith Canolfan Uwchegyddiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwau lleoedd.cymru enwau lleoedd@gmail.com

Peppa Pinc

Y gwanwyn hwn annogir teuluoedd a phlant, meithrinfeydd a grŵpiau blynyddoedd cynnar ar draws Cymru ymuno yn Nhaith Gerdded Pyllau Mwdlyd Peppa Pinc er mwyn codi arian ar gyfer prif elusen plant y byd, Achub y Plant.

Rhwng 8 -14 Mai, mae Peppa Pinc ac Achub y Plant yn uno i lansio ymgyrch godi arian. Mae trefnu 'Taith Pyllau Mwdlyd' yn ddull gwyh i'r rhai bach archwilio'r byd o'u cwm pas a chael hwyl yn efelychu Peppa drwy neidio mewn pyllau mwdlyd ar yr un pryd - hyn i gyd er budd achos da. Pa bynnag ffordd y byddwch yn dewis codi'r arian, byddwch yn helpu i greu bywyd gwell i blant yn fyd-eang.

Gall y rhai bach gael eu nodd i neidio mewn pyllau mwdlyd yn y parc, neu gallent ymuno gyda thaith sydd wedi ei threfnu gan grŵp neu feithrinfa lleol. Mae pecyn codi arian rhad ac am ddim ar gael - ewch i MuddyPuddleWalk.org. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gydag Eurgain Haf a/neu Rhian Brewster 02037 630290 / 07827 663629.

Digwyddiadau



Sioe Ysgol Bro Pedr.



Tîm Cyntaf Clwb Rygbi Llambed yn eu Siacedi Hyfforddi newydd a noddwyd gan Dunbia, a gynrychiolir gan Awel Jones ac Alison Harvey; Teify Forge gan Gethin Jones; roedd Edryd Evans, E&M Motor Factors a Richard Davies, Cambrian Pet Foods yn absennol o'r llun. Hefyd yn y llun mae Dai Charles Evans, Cadeirydd a Dafydd Jones, Hyfforddwr



**ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234**

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

*A ydych yn trefnu digwyddiad
yn Sir Gaerfyrddin?*

Ymunwch â'n cylch trefnwyr digwyddiadau
am ddim ar gyfer digwyddiadau
rhwydweithio, cefnogaeth a chanllawiau a
llawer mwy!

**[www.sirgar.llyw.cymru/
trefnu-digwyddiadau](http://www.sirgar.llyw.cymru/trefnu-digwyddiadau)**
Ffôn: (01267) 224894



Wedi cael cyllid drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (RDP), sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council

Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg C.Ff.I.



Llongyfarchiadau i Daniel ac Elan (C.Ff.I. Cwmann) a Cerys (C.Ff.I. Dyffryn Tywi) ar ddod yn ail fel tîm ac i Elan am ennill y cadeirydd gorau yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I. Sir Gâr dan 14. Bydd Elan yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru a diolch yn fawr i Dylan Lewis am hyfforddi'r tîm.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Adran Iau Saesneg Sir Gâr. Daeth tîm Sioned Howells, Sioned Bowen a Mared Phillips yn gyntaf, gan ddod a'r darian yn ôl i gwpwrdd clwb Llanllwni am yr ail flwyddyn yn olynol. Derbyniodd Sioned Howells y cwpan am y siaradwr gorau yn yr adran iau. Cafodd Sioned ei dewis i fynd ymlaen fel siaradwr yn nhîm Sir Gâr ar lefel Cymru, a cafodd Lowri Davies ei henwi fel siaradwr wrth gefn.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Ffion Evans gyda Cwpan y Cadeirydd gorau a Twm Ebbsworth gyda Chwpan y Siaradwr gorau, y ddau o Llanwenog - dau o'r tri a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn y rownd dros Gymru dan 16 oed.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Cystadleuaeth darllen dan 14oed - y tîm buddugol oedd Lisa Jenkins, Beca Jenkins a Rebecca Rees o Glwb Pontsian.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Aelodau Clwb Llanwenog yn ennill tarian am y clwb a enillodd mwyaf o farciau yn yr holl gystadlaethau.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.